Fframwaith Arfer Da

# Ymdrin ag adroddiadau am aflonyddu a chamymddwyn rhywiol

Medi 2026

swyddfa'r dyfarnwr annibynnol

oiahe.org.uk

# Cynnwys


**Rhagarweiniad** **4**
Llywio'r adran hon 5
Yr iaith rydym wedi'i defnyddio yn yr adran hon o'r Fframwaith Arfer Da 6
**Disgrifio amgylchedd priodol i fyfyrwyr** **8**
Gosod disgwyliadau clir ynglŷn ag ymddygiad 8
Diffinio ymddygiad annerbyniol 10
Iaith niwtral 12
**Cyflwyno cyfleoedd dysgu mewn partneriaeth ag eraill** **13**
**Gweithio gyda chyrff cynrychioli myfyrwyr (CCM)** **15**
**Canolbwyntio ar Les** **18**
Cymorth parhaus 20
Rhyngweithio â gweithdrefnau eraill 20
**Myfyrwyr sydd hefyd yn staff** **22**
**Gwneud datgeliad neu adroddiad** **23**
Amseroldeb ac adroddiadau nad ydynt yn ddiweddar 24
Datgeliad wyneb-yn-wyneb 25
Datgeliad ysgrifenedig/ar-lein 26
Datgeliad dienw 27
**Yr ymateb cychwynnol i ddatgeliad neu adroddiad** **29**
Gwrando ar y myfyriwr 29
Setting out the student's options 30
Cadw cofnodion o ddatgeliadau ac adroddiadau llafar 31
**Asesiad risg a mesurau rhagofalus** **32**
Gwerthuso risg yn rheolaidd 32
Mesurau rhagofalus 32
Cyfyngiadau ar fesurau rhagofalus 34
Ystyried effaith ac effeithiolrwydd mesurau rhagofalus 34
Cyfnod y mesurau rhagofalus 35
**Ar ôl yr ymateb cychwynnol** **36**
Amserlenni 37
A. Dim camau ymchwilio pellach 38
B. Datrysiad anffurfiol 39

C. Casglu gwybodaeth y tu allan i broses ddisgyblu myfyrwyr neu staff sy'n canolbwyntio ar yr effaith a brofwyd gan y myfyriwr sydd wedi cyflwyno'r adroddiad 40
D. Cyfeirio'r mater at weithdrefnau amgen neu ychwanegol 41
E. Ymchwiliadau gan yr heddlu 42
F. Ymchwiliad ffurfiol o dan broses ddisgyblu staff 42
G. Ymchwiliad ffurfiol o dan broses ddisgyblu staff 43

**Y broses ddisgyblu ar gyfer myfyrwyr 44**

Hysbysu'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn am yr adroddiad 44

**Y cam ymchwilio a chasglu gwybodaeth 46**

Penodi'r ymchwilydd 46
Casglu gwybodaeth 47
Adroddiadau ychwanegol 49
Adroddiadau newydd am un myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn 49
Gwrth-adroddiadau 49
Cwblhau'r cam ymchwilio 51
Symud ymlaen i wneud penderfyniad 52

**Cynnal gwrandawiad disgyblu 54**

Cymorth a chynrychiolaeth 54
Presenoldeb tystion 56

**Rôl y rhai sy'n gwneud penderfyniadau 58**

Baich a safon y prawf 59
Gwerthuso gwybodaeth a thystiolaeth 59
Datganiadau effaith 61
Dewis cosb 62

**Cwblhau'r broses ddisgyblu 63**

Hysbysu'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn 63
Ailedrych ar yr asesiad risg 63
Hysbysu'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn 64
Hawl y myfyriwr sy'n destun y gŵyn i apelio 65
Cefnogi'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn ar ddiwedd y broses 68
Y llwybr ar gyfer gofyn am adolygiad gan y myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad 68

**Dysgu o adroddiadau a chwynion 70**

**Adnoddau defnyddiol 71**

# Rhagarweiniad

1. Mae'r Fframwaith Arfer Da yn nodi **egwyddorion craidd** ac arfer da gweithredol ar gyfer darparwyr yng Nghymru a Lloegr. Yr egwyddorion craidd yw hygyrchedd; eglurder; tegwch; annibyniaeth; cyfrinachedd; cynhwysiant; hyblygrwydd; cymesuredd; amseroldeb; a gwella profiad y myfyriwr.

2. Mae'r adran hon o'r Fframwaith Arfer Da yn amlinellu canllawiau arfer da i ddarparwyr wrth ddylunio a gweithredu gweithdrefnau i ymateb i ddatgeliadau ac adroddiadau am aflonyddu o unrhyw fath, a chamymddwyn rhywiol. Mae'n cwmpasu'r canlynol:

   a. Arfer da wrth dderbyn, ymchwilio ac ymateb i ddatgeliadau ac adroddiadau am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol.

   b. Gweithdrefnau disgyblu ar gyfer delio â myfyrwyr sy'n cael eu cyhuddo o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol.

3. I'r rhan fwyaf o ddarparwyr, bydd yn briodol cadw prosesau sy'n canolbwyntio ar alluogi datgelu ac adrodd am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol a chynnig cymorth i'r myfyrwyr sy'n gwneud datgeliadau neu adroddiadau o'r fath, ar wahân i'r prosesau sy'n gwneud canfyddiadau disgyblu yn erbyn myfyrwyr sy'n wynebu cyhuddiadau o'r fath. Mae'r gwahaniad hwn yn rhoi eglurder ynghylch y rhwymedigaethau sydd gan y darparydd i bob myfyriwr ac ynghylch ble mae'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau. Yn yr adran hon, rydym wedi disgrifio'r gweithdrefnau a ddefnyddir fwyaf gan ddarparwyr yr ydym yn eu hystyried yn gydnaws ag egwyddorion craidd arfer da.

4. Rydym yn cydnabod amrywioldeb y darparwyr sy'n defnyddio'r canllawiau hyn, sy'n berthnasol i bob aelod o'n Cynllun. Rydym hefyd yn cydnabod yr ystod eang o ymddygiadau a allai gael eu codi o fewn y fframwaith hwn, a natur arbennig o sensitif y materion dan sylw. Mae hyblygrwydd a chymesuredd yn allweddol i'r defnydd effeithiol o'r mathau hyn o weithdrefnau. Gall darparwyr ddewis defnyddio gwahanol fodelau gweithdrefnol sy'n fwy addas i'w strwythurau a'u cyrff myfyrwyr, neu ar gyfer amgylchiadau penodol achos unigol, ond dylent wneud hynny mewn ffordd sy'n rhoi ystyriaeth i'r egwyddorion craidd.

5. Mae'n arfer da gweithredu prosesau ar gyfer myfyrwyr sy'n gynhwysol o ran dyluniad ac sy'n ystyried gwahanol anghenion corff myfyrwyr amrywiol. Mae'n bosibl y bydd angen trefniadau gwahanol o hyd ar rai myfyrwyr er mwyn iddynt allu cael mynediad at weithdrefnau a'u defnyddio. Dylai darparwyr fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr anabl. Ar unrhyw adeg yn ystod y prosesau a amlinellir yn yr adran hon o'r Fframwaith Arfer Da, gall darparwyr ystyried a ddylid gwneud addasiadau rhesymol er mwyn rhoi ystyriaeth i anghenion unigol myfyriwr, a all newid dros amser. Gall fod yn ddefnyddiol dangos i fyfyrwyr y math o addasiadau y gellir eu cynnig.

6. I ddarparwyr yn Lloegr sydd wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Myfyrwyr (OfS), daeth gofynion llawn **amod E6: Aflonyddu a chamymddwyn rhywiol** i rym ar 1af Awst 2025. Mae'r amod rheoleiddiol a'r canllawiau cysylltiedig gan Swyddfa'r Myfyrwyr yn nodi gofynion rheoleiddiol sy'n ymwneud ag achosion o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol sy'n effeithio ar un neu fwy o fyfyrwyr (gan gynnwys ymddygiad staff tuag at fyfyrwyr, a/neu ymddygiad myfyrwyr tuag at fyfyrwyr eraill).

7. I ddarparwyr yng Nghymru sydd wedi cofrestru gyda Medr, daeth yr **Amod: Lles Staff a Dysgwyr** i rym ar 1af Awst 2026. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig "fod â threfniadau effeithiol ar waith i gefnogi a hyrwyddo lles dysgwyr a staff". Mae **memorandwm esboniadol** Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn rhoi esboniad o beth a fwriedir i 'lles' a 'threfniadau' olygu mewn perthynas â'r amod lles staff a dysgwyr. Dylai darparwyr yng Nghymru hefyd ystyried eu dyletswyddau o dan Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Cymru) 2015.

8. Dylai darparwyr nad ydynt wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Myfyrwyr na MEDR ond sy'n gweithio mewn partneriaethau â darparwyr cofrestredig drafod gyda'r partneriaid hynny unrhyw gamau y dylent eu cymryd i sicrhau bod amodau perthnasol yn cael eu bodloni.

9. Bwriad yr adran hon o'r Fframwaith Arfer Da yw cynorthwyo darparwyr i ddatblygu arfer da wrth fynd i'r afael â datgeliadau ac adroddiadau am aflonyddu a chamymddwyn rhywiol, ac rydym yn disgwyl y bydd hyn yn helpu darparwyr i fodloni'r gofynion rheoleiddio yn y meysydd hynny. Nid yw'n ganllaw gweithredol cynhwysfawr i fodloni'r holl ofynion rheoleiddiol neu gyfreithiol.

10. Nid oes gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol unrhyw gyfrifoldeb penodol i nodi arfer da mewn materion nad ydynt yn ymwneud â myfyrwyr. Mae'r adran hon o'r Fframwaith Arfer Da yn ymwneud â datgeliadau ac adroddiadau a wneir gan fyfyrwyr; datgeliadau ac adroddiadau a wneir gan aelodau staff neu drydydd parti arall lle'r oedd y person a brofodd yr ymddygiad yn fyfyriwr; a datgeliadau ac adroddiadau a wneir gan unrhyw un lle'r oedd y person y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn fyfyriwr. Nid yw'n berthnasol i ddatgeliadau nac adroddiadau a wneir gan aelodau staff neu aelodau'r cyhoedd am aelodau staff lle nad oedd y person a brofodd yr ymddygiad yn fyfyriwr.

# Llywio'r adran hon

11. Mae'r adran hon yn dilyn strwythur cronolegol bras, o dderbyn datgeliad neu adroddiad i gyhoeddi llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Rydym hefyd wedi cynnwys testun "Ar yr olwg gyntaf" i helpu darllenwyr i adnabod cynnwys is-adrannau. Ond efallai na fydd ymateb yn dda i ddatgeliadau ac adroddiadau am aflonyddu a chamymddwyn rhywiol yn dilyn proses linellol gaeth. Rydym yn rhybuddio rhag darllen rhannau o'r adran hon ar eu pen eu hunain. Bydd unigolion sydd â chyfrifoldeb am ddylunio a gweithredu ymateb darparydd i ddatgeliadau ac adroddiadau yn elwa o ddealltwriaeth drylwyr o'r adran yn ei chyfanrwydd.

12. Rhestrir y dogfennau y cyfeirir atynt yn yr adran hon o'r Fframwaith Arfer Da, a ffynonellau arweiniad defnyddiol eraill, o dan Adnoddau Defnyddiol ar ddiwedd yr adran.

13. Dylid darllen yr adran hon o'r Fframwaith Arfer Da ynghyd â'r adrannau canlynol:

    a. Gweithdrefnau disgyblu
    b. Ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd
    c. Rhoi cymorth i fyfyrwyr anabl
    d. Addasrwydd i arfer, lle mae gan ddarparwyr ddyletswydd i sicrhau bod myfyrwyr ar gyrsiau proffesiynol yn addas i arfer.
    e. Cyflwyno cyfleoedd dysgu gydag eraill, lle mae mwy nag un darparydd academaidd neu gorff dyfarnu yn ymwneud â'r broses oherwydd trefniadau partneriaeth yng Nghymru a Lloegr neu dramor.

## Yr iaith rydym wedi'i defnyddio yn yr adran hon o'r Fframwaith Arfer Da

14. Rydym wedi diffinio a defnyddio rhai termau'n gyson er mwyn hwyluso eglurder. Efallai y bydd darparwyr yn ei chael hi'n ddefnyddiol atgynhyrchu'r iaith rydym wedi'i defnyddio yn eu gweithdrefnau eu hunain ond nid oes rheidrwydd arnynt i wneud hynny. Gall darparwyr ddefnyddio geirfa amgen os bydd eu cymuned benodol yn deall hynny'n well. Mae'n arfer da cynnwys diffiniadau clir o'r eirfa a ddefnyddir a sicrhau bod yr eirfa honno'n cael ei defnyddio'n gyson.

15. Yn yr adran hon o'r Fframwaith Arfer Da:

    a. Defnyddir "rhaid i ddarparwyr" i nodi gofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol, neu ofyniad i gydymffurfio â Chynllun SDA.
    b. Defnyddir "dylai darparwyr" i nodi gweithred neu ddull sydd, yn ein barn ni, yn angenrheidiol i weithredu mewn ffordd sy'n dangos arfer da.
    c. Mae "gall darparwyr / caiff darparwyr" yn caniatáu i ddarparwyr weithredu dull amgen.

16. Yn yr adran hon rydym yn cyfeirio at fyfyrwyr sy'n dweud wrth ddarparydd am aflonyddu neu gamymddwyn rhywiol er mwyn ceisio cyngor a chefnogaeth fel rhai sy'n gwneud **datgeliad**. Cyfeirir at fyfyrwyr sydd am weld y darparydd y cymryd camau gweithredu ychwanegol mewn ymateb i'r wybodaeth y maent wedi'i rhannu fel rhai sy'n cyflwyno **adroddiad**. Rydym yn defnyddio **cyflwyno adroddiad** i nodi dechrau proses ffurfiol, a gychwynnwyd gan fyfyriwr sy'n cyflwyno adroddiad. Gall rhai myfyrwyr wneud datgeliad a phenderfynu peidio â chyflwyno adroddiad; gall rhai myfyrwyr wneud datgeliad ac yna cyflwyno adroddiad; gall rhai myfyrwyr gyflwyno adroddiad yn unig. Gall myfyrwyr ddefnyddio amrywiaeth o fecanweithiau neu lwybrau i ddweud wrth ddarparydd am eu profiadau neu rywbeth maen nhw wedi'i weld. Nid yw'n syniad da defnyddio'r dull o rannu (e.e. wyneb-yn-wyneb neu trwy ddefnyddio ffurflen benodol) i wahaniaethu rhwng beth yw "datgeliad" a beth yw "adroddiad". Mae'n fwy defnyddiol canolbwyntio ar nodi'r ffordd briodol o ymateb i gynnwys y wybodaeth sydd wedi'i rhannu, yn hytrach na sut y cafodd ei chyflwyno.

17. Gall darparwyr ymateb i adroddiadau o dan broses bwrpasol ar gyfer aflonyddu a chamymddwyn rhywiol, o dan broses urddas wrth astudio, neu trwy broses gwyno eang. Yn yr achos olaf, mae "cyflwyno adroddiad" yn gyfystyr â "gwneud cwyn". Waeth beth fo'r derminoleg a ddefnyddir gan ddarparydd, mae gan fyfyrwyr sydd wedi cychwyn proses ffurfiol hawl i gael gwybodaeth am y broses ac i dderbyn canlyniad ffurfiol i'r broses honno, fel y nodir isod.

18. **Person sy'n adrodd** yw rhywun sy'n rhannu gwybodaeth gyda'r darparydd am aflonyddu neu gamymddwyn rhywiol gan berson arall. Gall yr unigolyn fod yn fyfyriwr, yn aelod o staff neu gall fod yn rhywun y tu allan i gymuned y darparydd. Yn aml, y person sy'n cyflwyno'r adroddiad sydd wedi profi'r ymddygiad y mae'n yn adrodd amdano. Weithiau bydd y sawl sy'n cyflwyno'r adroddiad yn dyst i'r ymddygiad, neu'n dod i wybod am yr ymddygiad yn anuniongyrchol, ond heb brofi'r ymddygiad yn uniongyrchol ei hun. Gellir eu disgrifio o hyd fel y sawl sy'n adrodd, a gellir disgrifio'r person arall fel **y sawl a brofodd yr ymddygiad**.

19. Er mwyn lleihau ailadrodd yn yr adran hon o'r Fframwaith Arfer Da, rydym wedi disgrifio prosesau'n gyffredinol ar gyfer pan fydd y sawl sy'n adrodd hefyd y person a brofodd yr ymddygiad. Fel egwyddor gyffredinol, pan nad yr un person yw'r rhain ond eu bod yn dal i fod yn aelodau o gymuned y darparydd, dylai'r naill a'r llall dderbyn yr un math o wybodaeth a chymorth ag yr ydym wedi'i nodi yn yr adran hon. Bydd rhwymedigaethau parhaus darparydd i ddarparu cefnogaeth yn wahanol i fyfyrwyr sy'n adrodd ac aelodau staff sy'n adrodd. Fel arfer bydd gan ddarparydd rwymedigaethau mwy cyfyngedig tuag at aelodau o'r cyhoedd sy'n cyflwyno adroddiad.

20. **Ymatebydd** yw myfyriwr neu'n aelod o staff y mae'r darparydd wedi derbyn gwybodaeth amdano (trwy ddatgeliad, adroddiad neu ffynhonnell arall gan gynnwys gwybodaeth am gamau gweithredu ar ran yr heddlu neu gamau gweithredu yn y llys sy'n cael eu dwyn i sylw'r darparydd) sy'n awgrymu bod y person wedi cyflawni gweithred o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol. Mewn rhai amgylchiadau gall person sy'n adrodd ddatgelu i'r darparydd am brofi rhywbeth sy'n cynnwys person arall nad yw'n aelod o gymuned y darparydd. Yn yr achosion hynny, nid yw'r gŵyn wedi'i hanelu at fyfyriwr nac aelod o staff.

21. Rydym yn defnyddio'r term **apêl** i ddisgrifio'r broses y gall myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn ei defnyddio os yw'n anfodlon â chanlyniad ei broses ddisgyblu. (Gweler paragraffau 277 - 294)

22. Rydym yn defnyddio'r term **gofyn am adolygiad** i ddisgrifio'r broses y gall myfyriwr sy'n adrodd ei defnyddio ar ôl cyflwyno adroddiad, os yw am godi pryderon ynghylch y ffordd y gwnaeth y darparydd ymateb i'r adroddiad. (Gweler paragraffau 298 - 303).

# Disgrifio amgylchedd priodol i fyfyrwyr

## Crynodeb

Dylai darparwyr ddarparu gwybodaeth i fyfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr am y safonau ymddygiad sy'n berthnasol i fyfyrwyr, a'r mathau o ymddygiad nad ydynt yn dderbyniol. Dylai'r wybodaeth hon fod yn glir, yn hygyrch, a dylid ei dwyn i sylw myfyrwyr ar adegau pontio allweddol.

Dylai darparwyr ddiffinio'r termau y maent yn eu defnyddio i ddisgrifio ymddygiadau annerbyniol gan gynnwys aflonyddu a chamymddwyn rhywiol, gan ystyried unrhyw ofynion rheoleiddio y mae'r darparydd yn destun iddynt.

Dylai darparwyr egluro yn y wybodaeth sydd ar gael i fyfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr, hyd yn oed lle mae'n defnyddio diffiniadau o gyfraith y DU ac Ewrop i ddisgrifio ymddygiadau penodol, na all y darparydd ddod i benderfyniad cyfreithiol bod cyfraith wedi'i thorri. Ni all darparwyr ond penderfynu y bu cydymffurfiaeth â'u rheolau, eu rheoliadau a'u safonau ymddygiad disgwyliedig eu hunain.

Dylai darparwyr wneud dewisiadau gofalus o ran y geiriau a ddefnyddir mewn polisïau, rheolau, rheoliadau a gweithdrefnau ysgrifenedig i leihau unrhyw gamsyniad bod prosesau mewnol yn dyblygu prosesau cyfreithiol, ac i osgoi iaith sy'n tybio unrhyw ganlyniad penodol.

## Gosod disgwyliadau clir ynglŷn ag ymddygiad

23. Dylai darparwyr gyhoeddi gwybodaeth i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am y safonau ymddygiad a ddisgwylir ganddynt, a'r rhai y gallant eu disgwyl gan eraill yn y gymuned. Yn aml, mae darparwyr yn nodi eu disgwyliadau mewn rheoliadau disgyblu myfyrwyr neu gôd ymddygiad myfyrwyr.

24. Gall gosod disgwyliadau clir atal rhai ymddygiadau annerbyniol rhag digwydd. Mae dealltwriaeth a rennir o'r mathau o ymddygiad sy'n annerbyniol hefyd yn helpu myfyrwyr sy'n profi ymddygiad annerbyniol i gydnabod nad oes rhaid iddynt oddef yr ymddygiad hwnnw, a'u bod yn gallu ceisio cefnogaeth gan y darparydd.

25. Dylai darparwyr esbonio i fyfyrwyr y canlyniadau posibl o ymddwyn mewn ffordd nad yw'n bodloni'r safonau disgwyliedig. Dylai rheolau a rheoliadau darparydd eu galluogi i gymryd camau os yw safonau ymddygiad yn is na'r disgwyl.

26. Mae'n ddefnyddiol i'r rheolau a'r rheoliadau nodi na all canlyniadau unrhyw brosesau disgyblu ffurfiol a ddefnyddir i ymchwilio i adroddiadau am ymddygiad annerbyniol fod yn gyfrinachol, lle mae gan aelodau eraill o'r gymuned ddiddordeb mewn gwybod beth yw'r canlyniad, neu lle mae amodau rheoleiddio yn ei gwneud yn ofynnol i bobl yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gael gwybod am y penderfyniadau.

27. Mae'n arbennig o bwysig tynnu sylw at y safonau ymddygiad hyn pan fydd myfyrwyr yn dechrau eu hastudiaethau. Mae'n arfer da atgoffa myfyrwyr o bryd i'w gilydd am y safonau ymddygiad a ddisgwylir ganddynt a'r rhai y gallant eu disgwyl gan eraill, er enghraifft pan fydd myfyrwyr yn symud ymlaen i lefel newydd o astudio.

28. Mae'n ddefnyddiol egluro i fyfyrwyr pryd a ble y disgwylir iddynt fodloni safonau ymddygiad y darparydd. Er enghraifft, gallai darparwyr ystyried cynnwys y canlynol:

    a. Bod safonau ymddygiad yn berthnasol i fyfyrwyr wyneb-yn-wyneb ac mewn mannau ar-lein neu rithwir.
    b. Y gall safonau ymddygiad fod yn berthnasol o hyd y tu allan i'r mannau diriaethol y mae'r darparydd yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, a thu allan i'r amgylchedd rhithwir/ar-lein y mae'n berchen arnynt neu'n eu rheoli, lle gall yr ymddygiad gael effaith ar eu cymuned.
    c. Y gall myfyrwyr hefyd fod yn destun safonau ymddygiad ar wahân a oruchwylir gan sefydliadau eraill y maent yn rhyngweithio â nhw yn ystod eu hastudiaethau, gan gynnwys o fewn llety myfyrwyr sy'n eiddo i sefydliad arall neu'n cael ei reoli gan sefydliad arall; mannau sy'n eiddo i gorff cynrychioli myfyrwyr neu sy'n cael ei reoli ganddynt; mannau sy'n eiddo i ddarparwr lleoliadau gwaith neu gyflogwr prentisiaid.
    d. Y gall myfyrwyr ar gyrsiau sy'n arwain at gymhwyster mewn proffesiwn rheoleiddiedig fod yn destun safonau ymddygiad uwch ychwanegol yn unol â gofynion cyrff rheoleiddio'r proffesiwn hwnnw.
    e. Sut mae safonau ymddygiad yn berthnasol am gyfnod perthynas y myfyrwyr â'r darparydd gan gynnwys:
        i. Disgwyliadau pobl sydd wedi derbyn cynnig i astudio yn y darparydd ond nad ydynt wedi cofrestru eto, yn enwedig ar yn ystod gweithgareddau "cyn-gofrestru" gan gynnwys cyfleoedd i gwrdd â myfyrwyr eraill yn rhithwir.
        ii. Disgwyliadau o ran ymddygiad rhwng tymhorau'r sefydliad neu flynyddoedd astudio lle mae myfyriwr yn dilyn cymhwyster sy'n cymryd mwy nag un flwyddyn.
        iii. Disgwyliadau o ran ymddygiad rhwng cwblhau gweithgareddau astudio a chyflwyno'r dyfarniad yn ffurfiol.
    f. Disgwyliadau o ran ymddygiad pan nad yw myfyriwr yn astudio'n weithredol ar hyn o bryd (er enghraifft, pan fydd myfyriwr wedi oedi ei astudiaethau dros-dro oherwydd afiechyd, mamolaeth, a.y.b.).
    g. Lle bo'n berthnasol, gall darparwyr ystyried datblygu canllawiau penodol ynghylch safonau ymddygiad sy'n berthnasol yng nghyd-destun arferion addysgeg gorfforol (e.e. celfyddydau perfformio a chreadigol).

29. Mae llawer o ddarparwyr yn cynnig cyfle i'w myfyrwyr fyw ac astudio mewn cymuned amrywiol, a gall hyn fod yn brofiad newydd i rai myfyrwyr. Gall darparwyr ystyried darparu canllawiau ychwanegol ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol, y gallai fod angen cymorth arnynt i lywio gwahaniaethau sylweddol o ran normau diwylliannol ac i ddeall beth sy'n cael ei ganiatáu neu ei wahardd o dan y gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Gall darparwyr benderfynu darparu canllawiau ychwanegol wedi'u targedu ar gyfer grwpiau o fyfyrwyr yn eu cymunedau os yw eu data eu hunain yn awgrymu y byddai hyn yn briodol.

# Diffinio ymddygiad annerbyniol

30. Dylai darparwyr ddefnyddio iaith glir i ddisgrifio'r mathau o ymddygiad nad ydynt yn dderbyniol yn eu cymuned. Fel arfer, mae'n briodol nodi'n fras y mathau o ymddygiad sy'n annerbyniol yn hytrach na cheisio darparu rhestr gynhwysfawr o gamau gweithredu penodol.

31. Dylai darparwyr a reoleiddir gan Swyddfa'r Myfyrwyr (OfS Lloegr) neu ddarparwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth â darparwyr a reoleiddir gan Swyddfa'r Myfyrwyr nodi'r diffiniadau y maent yn eu defnyddio. Mae Swyddfa'r Myfyrwyr yn dilyn yr ystyr a roddir i aflonyddu yn **Adran 26 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010** ac **Adran 1 o Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997** (yn ei chyfanrwydd, ac fel y'i dehonglir gan adran 7 o'r Ddeddf).

32. Mae aflonyddu (fel y'i diffinnir gan adran 26 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) yn cynnwys ymddygiad digroeso sydd â'r pwrpas neu'r effaith o amharu ar urddas person neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, israddol neu sarhaus i'r person hwnnw sy'n gysylltiedig ag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig perthnasol y person, gan gynnwys nodweddion canfyddedig. (O dan ddiffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb, nid yw statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth yn nodweddion gwarchodedig perthnasol at y dibenion hyn.)

33. Wrth benderfynu a yw ymddygiad yn cael yr effaith y cyfeiriwyd ati, rhaid i ddarparwyr ystyried:

    a. Canfyddiad y person sy'n destun yr ymddygiad;

    b. Amgylchiadau eraill yr achos; ac

    c. a yw'n rhesymol i'r ymddygiad gael yr effaith honno.

    Mae'r pwynt olaf yn cyflwyno elfen o wrthrychedd i'r prawf. Yng nghyd-destun adran 1 o Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997, dim ond os yw'r person yn gwybod bod yr ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu ar y llall y cyflawnir trosedd, neu os byddai person rhesymol sydd â'r un wybodaeth yn meddwl bod yr ymddygiad hwnnw'n gyfystyr ag aflonyddu ar y person arall. Nid canfyddiad y person sy'n destun yr ymddygiad yw'r unig ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu a yw'r ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu a fyddai'n bodloni'r diffiniadau statudol. Bydd y cyd-destun y mae'r aflonyddu honedig wedi digwydd ynddo hefyd yn berthnasol, yn ogystal ag unrhyw hawliau neu ddyletswyddau cyfreithiol eraill sy'n berthnasol yn y cyd-destun hwnnw.

34. Mae Swyddfa'r Myfyrwyr wedi nodi meysydd o weithgarwch rheoleiddio y mae'r diffiniadau hyn yn berthnasol iddynt. Nid yw'r diffiniadau hyn yn cynnwys yr holl ymddygiadau a allai fod yn annerbyniol o fewn cymuned addysg uwch neu drydyddol. Dylai darparwyr nodi'n glir unrhyw ymddygiadau rhyngbersonol eraill sy'n annerbyniol, ond a allai fod y tu allan i'r diffiniadau a ddefnyddir gan Swyddfa'r Myfyrwyr at ddibenion rheoleiddio.

35. I ddarparwyr sy'n awdurdodau cyhoeddus, efallai y bydd hefyd yn berthnasol ystyried, mewn achosion o aflonyddu honedig, a oedd y person a gyhuddwyd yn arfer unrhyw un

o'i hawliau o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998 (e.e. rhyddid mynegiant neu ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd). Wrth osod y safonau ymddygiad a ddisgwylir yn eu cymuned ac ymateb i ddatgeliadau ac adroddiadau gan fyfyrwyr, rhaid i ddarparwyr ystyried eu rhwymedigaethau i amddiffyn rhyddid barn o dan Ddeddf Addysg Uwch (Rhyddid Barn) 2023, Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Diwygio Addysg 1988 a Deddf Addysg (rhif 2) 1986. Mae **Cyngor Rheoleiddiol 24: Canllawiau sy'n ymwneud â rhyddid barn** Swyddfa'r Myfyrwyr yn cynnwys canllawiau ymarferol, i ddarparwyr sydd wedi cofrestru â Swyddfa'r Myfyrwyr, ar eu dyletswydd i gymryd camau i sicrhau rhyddid i lefaru o fewn y gyfraith ar gyfer myfyrwyr ac eraill. Dylai darparwyr esbonio i fyfyrwyr y dylent ddisgwyl rhyngweithio ag unigolion sydd â safbwyntiau gwahanol i'w rhai eu hunain, ac nad yw dal safbwyntiau a'u mynegi mewn ffordd gyfreithlon, hyd yn oed lle gallai rhai weld y safbwyntiau hyn yn ddadleuol, yn sarhaus, yn aflonyddgar neu'n syfrdanol, fel arfer yn fater i brosesau ffurfiol y darparydd.

36. Dylai darparwyr esbonio i fyfyrwyr, er gwaethaf eu hawl i ddal a mynegi barn sy'n ddadleuol neu'n amhoblogaidd, y gallai sut maen nhw'n dewis mynegi'r farn honno fod yn ymddygiad annerbyniol mewn rhai amgylchiadau. Mae'n ddefnyddiol nodi'r ffactorau sy'n berthnasol i benderfynu a allai'r ffordd y mynegodd myfyriwr ei farn fod yn ymddygiad annerbyniol. Mae'r rhain yn cynnwys:

   a. Y cyd-destun y mynegwyd y safbwyntiau ynddo. Efallai na fydd rhywbeth sy'n dderbyniol mewn un cyd-destun, fel mynegi barn ddadleuol neu amhoblogaidd mewn sesiwn addysgu, dadl ffurfiol neu brotest wedi'i drefnu ar y pwnc, yn dderbyniol mewn un arall, e.e. o fewn sesiwn addysgu sydd â'r bwriad o ganolbwyntio ar bwnc gwahanol; neu mewn lleoliad gwaith.

   b. Dull y mynegiant. Er enghraifft, peidio â chaniatáu i eraill ymuno â thrafodaeth na gorffen y pwynt maent yn ei draddodi, siarad dros bobl eraill, gweiddi; defnyddio rhegfeydd neu iaith ddirmygus; defnyddio ystumiau sarhaus, cyswllt corfforol neu iaith fygythiol.

   c. P'un a oedd y mynegiant o'r safbwyntiau wedi'i gyfeirio at unrhyw unigolion penodol neu grwpiau penodol, neu a oedd unrhyw unigolyn wedi'i ddewis i ddarparu ymateb.

   d. P'un a oedd hyd neu amseriad y mynegiant barn yn amhriodol. Er enghraifft, atal dosbarth rhag archwilio deunydd academaidd angenrheidiol trwy ddyfalbarhau'n ormodol ar bwynt penodol; anfon nifer afresymol o negeseuon; dal ati i ddilyn trywydd ar ôl cael cais i beidio â pharhau i wneud hynny.

   e. A fynegwyd barn mewn ffordd a oedd yn awgrymu, yn anghywir, fod hynny'n cynrychioli barn y darparydd.

   f. A yw'r farn a fynegwyd yn gyson ag unrhyw safonau ymddygiad proffesiynol penodol y disgwylir yn rhesymol i'r myfyriwr eu dilyn fel myfyriwr ar gwrs sy'n arwain at fynediad i broffesiwn rheoleiddiedig.

37. Mae'n ddefnyddiol i ddarparwyr gynnwys diffiniad o erledigaeth. Mae erledigaeth (fel y'i diffinnir gan adran 27 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) yn digwydd pan fydd person yn cael ei drin yn waeth nag o'r blaen oherwydd ei fod wedi cyflawni 'gweithred warchodedig' yn ddiffuant. Gall erledigaeth ddigwydd hefyd pan gredir bod person wedi cyflawni neu'n bwriadu cyflawni 'gweithred warchodedig'. Yng nghyd-destun aflonyddu, gallai 'gweithred warchodedig' gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: gwneud datgeliad neu adroddiad o aflonyddu neu nodi bwriad i wneud hynny; helpu rhywun arall i wneud datgeliad neu adroddiad o aflonyddu; a chymryd rhan mewn ymchwiliad i adroddiad, e.e. gweithredu fel tyst. Ni fyddai person yn cael ei amddiffyn rhag erledigaeth pe byddai'n gwneud neu'n cefnogi'n fwriadol unrhyw ddatgeliad neu adroddiad sy'n anwiredd.

## Iaith niwtral

38. Nid oes gan ddarparwyr bwerau i wneud canfyddiadau cyfreithiol o'r math y gallai llys neu dribiwnlys troseddol neu sifil eu gwneud. Hyd yn oed pan allai gweithred benodol a gyflawnir gan aelod o'u cymuned fod yn drosedd, ni all darparydd ond penderfynu a yw'r weithred honno'n groes i'r safonau ymddygiad y mae'n eu disgwyl gan eu myfyrwyr neu staff. Mae Swyddfa'r Myfyrwyr wedi mabwysiadu diffiniadau cyfreithiol o aflonyddu a chamymddwyn rhywiol. Ond nid yw defnyddio'r diffiniadau hyn yn golygu y gall darparwyr ddod i gasgliadau ynghylch statws troseddol. Nid yw'r iaith hon ychwaith yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparydd ddefnyddio safon brawf droseddol yn eu hymchwiliadau mewnol eu hunain. Dylai darparwyr weithredu'r safon brawf sifil, "ar sail tebygolrwydd". Dylai darparwyr wneud hyn yn glir i fyfyrwyr.

39. Dylai darparwyr osgoi iaith gyfreithiol arall sy'n awgrymu bod eu prosesau'n efelychu rhai llysoedd neu dribiwnlysoedd. Mae termau a allai fod yn broblemus yn cynnwys penderfynu a yw'r sawl a gyhuddwyd yn ddieuog neu'n euog, cyfeirio at y myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad fel y dioddefwr neu'r goroeswr a chyfeirio at y myfyriwr neu'r aelod staff y gwnaed cwyn yn ei erbyn fel y troseddwr honedig, y diffynnydd, neu'r cyhuddedig.

40. Mae'n arfer da i ddarparwyr ddefnyddio iaith sy'n niwtral ac nad yw'n tybio bod yr ymddygiad y gwnaed adroddiad amdano wedi bodloni, neu wedi methu â bodloni, safonau ymddygiad disgwyliedig y darparydd cyn cynnal ymchwiliad i'r hyn sydd wedi digwydd. Dylai darparwyr geisio cydbwyso hyn ag iaith sy'n annog myfyrwyr i ddatgelu neu adrodd am ymddygiad sydd wedi peri pryder iddynt. Gall person sy'n cyflwyno adroddiad ddisgrifio digwyddiad neu brofiad gan ddefnyddio iaith wahanol i'r hyn a ddefnyddir gan ddarparydd mewn deunyddiau ysgrifenedig. Yng nghyd-destun darparu cymorth, gall darparwyr adlewyrchu'r iaith honno'n ôl i'r sawl sydd wedi cyflyno'r adroddiad.

41. Mae iaith yn y maes hwn yn esblygu o hyd. Dylai darparwyr gadw'r iaith maen nhw'n ei defnyddio dan adolygiad. Mae'n arfer da ymgynghori â myfyrwyr i wneud yn siŵr y byddant yn deall yr hyn y mae'r darparydd yn bwriadu ei gyfleu. Efallai y bydd darparwyr hefyd eisiau ymgynghori â'u staff.

# Cyflwyno cyfleoedd dysgu mewn partneriaeth ag eraill

## Crynodeb

Dylai darparwyr ystyried yn rhagweithiol, ar gyfer pob math o drefniant partneriaeth sydd ar waith, pa bartner sydd yn y sefyllfa orau i dderbyn datgeliadau ac adroddiadau gan fyfyrwyr; darparu cefnogaeth i fyfyrwyr; nodi, gwerthuso a lliniaru risgiau i'w cymuned; ymchwilio i ddigwyddiadau a dod i benderfyniadau, gan gynnwys prosesau disgyblu. Gall darparwyr ymgymryd â'r gweithgareddau hyn yn unigol neu ddylunio prosesau i'w gweithredu ar y cyd.

Wrth ddylunio prosesau, dylai darparwyr ystyried y rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n berthnasol i bob parti yn y bartneriaeth; adnoddau ac arbenigedd pob parti; a'r llwybr sy'n debygol o wneud synnwyr i fyfyrwyr. Mae gan ddarparwyr ddisgresiwn i ystyried pa fodel gweithredol sydd fwyaf priodol ar gyfer eu cyd-destun.

Gall darparwyr elwa o fynd ati'n rhagweithiol i greu protocolau rhannu gwybodaeth ar gyfer trin data personol sensitif myfyrwyr yng nghyd-destun datgeliadau, adroddiadau, cwynion ac apeliadau.

Dylai darparwyr sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybodaeth glir ynghylch pa bartner fydd yn ymateb i ddatgeliadau ac adroddiadau am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol, a nodi pryd a sut y gall hyn symud o un partner i'r llall neu gael ei drin ar y cyd.

Dylai darparwyr wneud pob ymdrech i leihau unrhyw ddyblygu yn y broses i fyfyrwyr, cyn belled ag y bo'n gydnaws â gwahanol rolau a chylchoedd gwaith pob partner.

42. Mae llawer o ddarparwyr yng Nghymru a Lloegr yn cynnig cyfleoedd dysgu mewn partneriaeth ag un neu fwy o ddarparwyr neu sefydliadau dyfarnu eraill, yn y DU neu dramor. Mae darparwyr hefyd yn gweithredu mewn partneriaethau â sefydliadau eraill, er enghraifft sefydliadau sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith, dysgu seiliedig ar waith, interniaethau neu gyflogaeth fel prentisiaethau. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau arfer da ar gyfer **Cyflwyno cyfleoedd dysgu gydag eraill** i ddarparwyr eu hystyried wrth ymdrin â chwynion ac apeliadau a phrosesau mewnol eraill yng nghyd-destun y trefniadau hyn, y dylid eu darllen ar y cyd â'r adran hon.

43. Mae darparwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn bodloni unrhyw ofynion a osodir arnynt gan gyrff rheoleiddio perthnasol wrth sefydlu a gweithredu cytundebau partneriaeth. Dylai darparwyr yn Lloegr sydd wedi cofrestru â Swyddfa'r Myfyrwyr nodi bod Rheoliad E6 yn berthnasol p'un a yw'r darparydd cofrestredig yn ddarparydd dyfarnu, yn ddarparydd cyflwyno, neu a oes ganddo rôl arall. Mae'r nodyn canllaw yn egluro, "Yn ymarferol, gall y darpariaethau hyn arwain at fwy nag un darparydd cofrestredig yn gyfrifol am gydymffurfio â'r amod hwn mewn perthynas â'r un myfyrwyr".

44. Er gwaethaf y cyfrifoldeb ar y cyd hwn, nid yw'n arfer da gweithredu prosesau mewn ffordd sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr ymgymryd â'r un camau ar wahân gyda phob sefydliad sy'n rhan o bartneriaeth. Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd angen defnyddio dwy broses wahanol i ystyried yr un digwyddiad trwy wahanol lensys cyd-destunol. Er enghraifft, lle mae'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn brentis, bydd gan ei gyflogwr rwymedigaethau tuag at yr unigolyn fel gweithiwr, sy'n wahanol i rwymedigaethau darparydd addysg uwch tuag at yr unigolyn fel myfyriwr. Ble bynnag y bo modd, anogir darparwyr i nodi dulliau sy'n lleihau dyblygu i'r holl sefydliadau dan sylw. Er enghraifft, efallai y bydd modd defnyddio canfyddiadau ffeithiol a wneir o fewn un broses yn uniongyrchol mewn proses arall.

45. Mae gan ddarparwyr gryn ddisgresiwn ynghylch sut i weithredu prosesau sy'n wynebu myfyrwyr ar gyfer ymateb i ddatgeliadau ac adroddiadau am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol o fewn partneriaeth. Wrth feddwl am ba bartner ddylai ymgymryd â pha swyddogaethau, gall darparwyr ystyried:

   a. Sut ac â phwy y mae myfyrwyr yn ymgysylltu amlaf. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd myfyrwyr yn fwy tebygol o ddatgelu neu adrodd i'r partner y mae ganddynt gysylltiad mwyaf uniongyrchol â nhw. Fel arall, efallai y bydd gan fyfyrwyr bryderon ynghylch datgelu neu adrodd i rywun y maent yn rhyngweithio'n agos â nhw, neu mewn lleoliadau llai lle mae unigolion perthnasol eisoes yn adnabyddus i'w gilydd.
   b. Ble mae yna arbenigedd perthnasol i ymateb yn briodol i ddatgeliadau ac adroddiadau ac i ddarparu cefnogaeth briodol i'r unigolyn a gyflwynodd yr adroddiad a'r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn.
   c. Pa bartner sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu adnoddau ar gyfer unrhyw ymchwiliad neu gamau gweithredu amgen sy'n angenrheidiol.
   d. Pa bartner sydd â'r awdurdod, trwy ei gontractau â'r myfyriwr neu'r aelodau staff dan sylw, i wneud a gorfodi penderfyniadau ynghylch mesurau rhagofalus neu gosbau disgyblu.
   e. Sut y gellir elwa o'r hyn a ddysgwyd o ddatgeliadau ac adroddiadau yn effeithiol ym mhob partner.

46. Mae'n arfer da monitro data am brofiadau myfyrwyr o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol ym mhob partner, ac ymchwilio i unrhyw dueddiadau neu batrymau a allai ddangos lefelau uwch o risgiau i fyfyrwyr mewn partneriaeth benodol.

47. Mae rhai partneriaethau'n gweithredu'r tu allan i'r DU ac o fewn cyd-destunau cyfreithiol a diwylliannol gwahanol iawn. Er enghraifft, mae rhai gwledydd yn gwahardd myfyrwyr rhag ymuno ag undeb myfyrwyr neu mae ganddyn nhw gyfreithiau sy'n gwahardd cyfunrywioldeb neu sy'n gwahardd lleisio barn na fyddai'n anghyfreithlon yn y DU. Bydd angen i ddarparwyr ystyried y cyd-destunau hyn yn ofalus wrth osod disgwyliadau ynghylch ymddygiad myfyrwyr a gwneud trefniadau ar gyfer cymorth.

# Gweithio gyda chyrff cynrychioli myfyrwyr (CCM)

## Crynodeb

Dylai darparwyr sydd â chorff cynrychioli myfyrwyr (CCM) weithio gyda'r CCM i gytuno ar brosesau ar gyfer ymateb i ddatgeliadau a wneir i'r CCM, ac ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau a allai fod yn aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol o fewn lleoliad, digwyddiad, clwb neu gymdeithas neu ofod arall sy'n eiddo i'r CCM, yn cael ei redeg ganddo neu fel arall yn gyfrifoldeb iddo.

Dylai darparwyr weithio gyda'r CCM i gytuno ar brotocolau rhannu gwybodaeth i gynorthwyo â gweithrediad effeithiol unrhyw fesurau rhagofalus, trefniadau dim-cyswllt neu gosbau disgyblu parhaus.

Dylai darparwyr gynnig cymorth i'r CCM wrth ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau'r darparydd ar gyfer ymateb i adroddiadau a datgeliadau am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol. Ble mae cynrychiolwyr o'r CCM yn ymgymryd â rolau o fewn prosesau'r darparydd, dylai'r sefydliad hwnnw gynnig hyfforddiant a chefnogaeth.

Efallai y bydd darparwyr am gynnig hyfforddiant a chefnogaeth bellach i'r CCM fel bod gan staff a swyddogion y CCM sy'n rhoi cyngor i fyfyrwyr y sgiliau a'r wybodaeth briodol.

48. Er bod rhai modelau cyffredin yn bodoli ar draws y sector addysg drydyddol yng Nghymru a Lloegr, mae'r berthynas rhwng CCM a'i ddarparydd yn amrywiol. Mae llawer yn endidau annibynnol yn gyfreithiol, ond mae modelau eraill yn cynnwys gwasanaethau cynghori lled-ymreolaethol sy'n gweithredu o fewn y darparydd. Mae'r rolau y gall CCM eu cyflawni yn dibynnu ar eu cyfansoddiad, eu hadnoddau a'u capasiti. Mae gan ddarparwyr ddisgresiwn i weithio gyda'u CCM i ddynodi dull o ymateb i ddatgeliadau ac adroddiadau o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol sy'n gweddu orau i'w cyd-destun gweithredol penodol.

49. Yn aml, mae gan CCM rôl bwysig wrth gynnig cymorth i fyfyrwyr sy'n anfodlon â rhywbeth maen nhw wedi'i brofi yn eu darparydd. Gall hyn gynnwys cefnogi myfyriwr sy'n cyflwyno adroddiad neu ddatgeliad ynghylch aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol i'w darparydd. Gall CCM hefyd gynnig cymorth i fyfyrwyr sy'n wynebu cyhuddiad ar ôl iddynt gael gwybod gan eu darparydd bod adroddiad wedi'i wneud amdanynt. Yn y naill achos a'r llall, gall CCM gefnogi myfyrwyr trwy unrhyw brosesau dilynol a'u helpu i ddeall eu hopsiynau ar ôl i'r prosesau hynny ddod i ben.

50. Gellir gwneud datgeliadau o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol yn y lle cyntaf i aelodau staff neu swyddogion o fewn y CCM. Lle nad oedd y digwyddiad neu'r ymddygiad dan sylw wedi digwydd yng nghyd-destun y CCM, mae'n debygol y gall y person sy'n derbyn y datgeliad ddilyn camau tebyg i aelod o staff y darparydd y gwnaed datgeliad iddynt, i

gyfeirio'r myfyriwr at gymorth pellach a phrosesau adrodd y darparydd (gweler [paragraffau 105 - 106]). Dylai darparwyr ystyried pa gamau sydd eu hangen i sicrhau bod staff y CCM yn gwybod pa gamau i'w cymryd wrth ymateb i ddatgeliad.

51. Dylai darparwyr weithio gyda'u CCM i benderfynu a fydd y CCM yn cynnig llwybr ar wahân i fyfyrwyr roi gwybod yn ffurfiol am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol yn uniongyrchol iddo, lle bu digwyddiadau neu ymddygiadau yng nghyd-destun clwb, cymdeithas neu swyddogaeth neu ofod arall o fewn cylch gwaith y CCM.

52. Dylai darparwyr a CCM gydweithio i benderfynu pa sefydliad fydd yn ystyried unrhyw adroddiadau am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol a allai fod wedi digwydd yng nghyd-destun CCM. Er enghraifft, gall darparwyr a CCM benderfynu y bydd y CCM yn canolbwyntio ar ddarparu cefnogaeth ac na fydd yn ymgymryd ag unrhyw rolau ymchwilio neu wneud penderfyniadau. Gall darparwyr a CCM benderfynu y bydd y CCM yn gweithredu camau cyntaf proses gyda chyfle i'r darparydd ymgysylltu yn ystod cyfnod adolygu; gall darparwyr a CCM benderfynu dylunio a gweithredu proses ar y cyd. Gall darparwyr a CCM benderfynu ystyried adroddiadau am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol yn yr un modd â phryderon disgyblu eraill neu gallant benderfynu sefydlu proses ar wahân.

53. Wrth benderfynu beth fydd rolau priodol y CCM a'r darparydd wrth ymateb i adroddiad, mae ffactorau a allai fod yn berthnasol i'w hystyried yn cynnwys:

   a. Yr adnoddau/capasiti sydd ar gael i'r CCM i ymgymryd â rolau cefnogol ac ymchwiliol, gan gynnwys a oes lefel briodol o wybodaeth am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol a'r sgiliau i gyflawni'r gwahanol rolau.
   b. Rheoli canfyddiadau o ragfarn o fewn CCB lle gall fod yna berthynas rhwng myfyrwyr sy'n cyflwyno adroddiad neu'n ymateb i gyhuddiad a staff neu swyddogion y CCM.
   c. Lefel yr effaith y gallai'r ymddygiad fod wedi'i chael a gallu'r CCM i gymryd camau i fynd i'r afael â hynny. Er enghraifft, efallai y bydd y CCM mewn sefyllfa dda i ymgymryd â chyfryngu neu hwyluso deialog rhwng myfyrwyr lle nad yw myfyriwr yn ymwybodol o'r effaith y mae ei ymddygiad wedi'i chael ar fyfyriwr arall. Gall hyn fod yn briodol hefyd lle mae effaith yr ymddygiad y gwnaed adroddwyd amdano'n gyfyngedig i glwb, cymdeithas neu swyddogaeth benodol o'r CCM, a bod asesiad risg yn nodi y gall y CCM fod mewn sefyllfa dda i reoli unrhyw risg i les cymuned y darparydd.
   d. Y lefel o weithredu sydd ei hangen i ddiogelu lles cymuned y myfyrwyr a'r staff.

54. Efallai y bydd y canllawiau gweithdrefnol a amlinellir yng ngweddill yr adran hon yn ddefnyddiol i CCM sy'n ymgymryd â rolau y tu hwnt i ddarparu cefnogaeth a chyngor. Dylai darparwyr gefnogi CCM trwy hyfforddi eu staff, er mwyn sicrhau bod CCM yn gallu gwerthuso'r risg yn gywir a gwybod pryd mae'n briodol cyfeirio gwybodaeth am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol at y darparydd i'w hystyried. Pan fydd CCM yn parhau i ystyried adroddiad o dan ei brosesau ei hun, efallai y bydd angen mynd ati'n rheolaidd i ailasesu unrhyw risgiau a nodwyd. Dylai darparwyr annog y CCM i gyfeirio'r adroddiad at y darparydd os yw'n penderfynu na all reoli'r risg yn addas mwyach wrth i'r achos fynd rhagddo. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai darparwyr ystyried y camau y mae'r CCM eisoes wedi'u cymryd wrth benderfynu pa agwedd ar ei weithdrefnau i'w ddefnyddio.

55. Dylai darparwyr gydweithio â'u CCM i sefydlu protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth, fel y gall pob un reoli'n effeithiol unrhyw gyfyngiadau ar fynediad i gyfleusterau a all godi o unrhyw fesurau rhagofalus, trefniadau dim-cyswllt neu gosbau disgyblu. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth am unrhyw amgylchiadau ble byddai CCM neu ddarparydd yn rhannu gwybodaeth â'r llall heb ganiatâd y person a gyflwynodd yr adroddiad, er mwyn rheoli risgiau'n briodol a chefnogi llesiant eu cymunedau.

56. Mae'n arfer da i ddarparwyr a CCM rannu gwybodaeth am dueddiadau a phatrymau mewn datgeliadau ac adroddiadau am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol er mwyn nodi gwersi y gellir eu dysgu. Dylai darparwyr a CCM fod yn ofalus i ddiogelu hunaniaeth yr unigolion dan sylw, a all gyfyngu ar yr hyn y gellir ei rannu mewn darparwyr sydd â chymunedau myfyrwyr llai.

# Canolbwyntio ar Les

## Crynodeb

Dylai darparwyr gydnabod y gallai myfyrwyr sy'n ymwneud â digwyddiad o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol brofi trawma, oherwydd y digwyddiad hwnnw neu sy'n gysylltiedig â phrofiadau bywyd eraill.

Dylai darparwyr gynorthwyo staff i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddull sy'n seiliedig ar drawma, yn gymesur â'r rôl y maent yn ei chyflawni.

Dylai darparwyr gynorthwyo pob myfyriwr sy'n ymwneud ag achos o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol trwy eu cyfeirio at ffynonellau perthnasol o gyngor, arweiniad a chymorth. Bydd cymorth o ansawdd da yn cynnwys llesiant emosiynol, seicolegol a chorfforol, yn ogystal ag elfennau mwy ymarferol (e.e. Cymorth â phryderon ynghylch cynnydd academaidd, statws ariannol, statws mewnfudo, a.y.b.).

Dylai darparwyr ystyried yn rhagweithiol sut y gellir cynllunio'r rhyngweithio â gweithdrefnau perthnasol eraill (gan gynnwys ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol, apeliadau academaidd, prosesau addasrwydd i astudio ac addasrwydd i arfer) er mwyn lleihau'r nifer o weithiau y mae'n rhaid i fyfyriwr rannu gwybodaeth sensitif am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol, a lleihau'r baich gweinyddol ar y naill ochr a'r llall.

Pan fo person sy'n cyflwyno adroddiad neu'n ymateb iddo'n fyfyriwr yn ogystal â bod yn aelod o staff, efallai y bydd darparwyr yn gallu nodi'n glir a ddigwyddodd yr aflonyddu a/neu'r camymddwyn rhywiol sydd dan sylw mewn cyd-destun staff neu gyd-destun myfyrwyr. Lle nad yw hyn yn hawdd i'w wahanu, gall darparwyr weithredu prosesau'n benodol i'r diben hwn. Dylai darparwyr ddogfennu eu rhesymau dros y penderfyniadau a wnânt ynghylch pa brosesau i'w dilyn mewn achosion unigol.

57. Gall myfyrwyr sydd wedi profi neu wedi bod yn dyst i aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol brofi trawma o ganlyniad i'r profiad hwnnw. Gall rhai myfyrwyr sy'n adrodd hefyd fod wedi cael eu heffeithio gan drawma yn sgil rhywbeth arall. Gall myfyrwyr y gwnaed cwyn yn eu herbyn fod wedi cael eu heffeithio gan drawma o'u profiadau eu hunain.

58. Mae Gweinyddiaeth Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl ('SAMHSA') yn diffinio trawma fel a ganlyn: "Mae trawma unigol yn deillio o ddigwyddiad, cyfres o ddigwyddiadau, neu set o amgylchiadau y mae unigolyn yn eu profi fel rhai sy'n niweidiol yn gorfforol neu'n emosiynol neu'n bygwth bywyd ac sydd ag iddynt effeithiau andwyol parhaol ar allu'r unigolyn i weithredu, yn ogystal â llesiant meddyliol, corfforol, cymdeithasol, emosiynol neu ysbrydol". Mae'r Ymddiriedolaeth y Goroeswyr yn defnyddio'r diffiniad hwn, "Trawma yw'r gofid difrifol sy'n digwydd pan fydd rhywun mewn perygl gwirioneddol neu ganfyddedig. Mae'n cael effaith barhaol ar lesiant a gallu'r person hwnnw

i weithredu ac mae'n ei gwneud hi'n anodd teimlo'n ddiogel hyd yn oed pan fydd y perygl hwnnw wedi mynd heibio. Mae cam-drin rhywiol, aflonyddu a bwlio yn cael eu cydnabod fel prif achosion trawma a all gael effeithiau dinistriol ar yr unigolyn.

59. Mae'r Swyddfa Gwella ac Anghydraddoldebau Iechyd yn egluro yn eu **Diffiniad gweithredol o arfer sy'n seiliedig ar drawma** "nid pwrpas arfer sy'n seiliedig ar drawma yw trin anawsterau sy'n gysylltiedig â thrawma, sef rôl gwasanaethau ac ymarferwyr arbenigol mewn trawma. Yn hytrach, mae'n ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau y gall pobl yr effeithir arnynt gan drawma eu profi wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal".

60. Dylai darparwyr fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar drawma wrth ymateb i ddatgeliadau ac adroddiadau am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol trwy gydol eu proses. Mae arfer sy'n seiliedig ar drawma yn set o sgiliau arbenigol[1]. Gall darparwyr benderfynu ar lefel yr arbenigedd mewn arfer sy'n seiliedig ar drawma sy'n gymesur i'w ddatblygu'n fewnol a/neu bryd y gallai fod yn briodol defnyddio cefnogaeth allanol. Fel gwaelodlin, dylai darparwyr sicrhau bod staff sydd wedi'u dynodi i dderbyn datgeliadau ac adroddiadau, staff sy'n ymchwilio i adroddiadau, a staff sy'n gwneud penderfyniadau o dan weithdrefnau disgyblu ffurfiol, yn deall y gall trawma effeithio ar sut mae myfyrwyr yn ymgysylltu â'u prosesau. Mae ymatebion i drawma yn unigol ac nid ydynt yn dilyn llwybr llinol sefydledig at ganlyniadau penodol.

61. Mae sawl fframwaith gwahanol sy'n amlinellu egwyddorion craidd arfer sy'n seiliedig ar drawma. Yn fras mae'r rhain yn cynnwys:

   a. blaenoriaethu diogelwch corfforol, seicolegol ac emosiynol unigolion, gan gynnwys ceisio atal ail-drawmateiddio
   b. meithrin ymddiriedaeth mewn proses trwy fod yn dryloyw ynghylch yr hyn y gellir ei wneud, yr hyn na ellir ei wneud a pham, a thrwy ddilyn camau gweithredu y cytunwyd arnynt
   c. parchu hawl yr unigolyn i ddewis ble bynnag y bo modd, â'r bwriad o gynorthwyo'r unigolyn i gadw rheolaeth dros yr hyn sy'n digwydd iddo
   d. gofyn i'r unigolyn beth sydd ei angen arnynt, gwrando ar eu barn a gweithio ar y cyd
   e. cydnabod y cyd-destun diwylliannol, gan gynnwys amrywioldeb a'r elfen groestoriadol, sy'n llywio profiadau bywyd unigolyn ac ymateb y sefydliad

62. Hyd yn oed ble nad yw myfyrwyr wedi profi trawma, dylai darparwyr drin myfyrwyr yn deg ac â charedigrwydd. Gall egwyddorion **cyfathrebu tosturiol** fod yn declyn defnyddiol i ddarparwyr ar gyfer arwain sut maen nhw'n rhyngweithio â myfyrwyr.

---

1 **Cymru sy'n Wybodus am Drawma: Dull Cymdeithasol o Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Trawma a Thrallod** yn cynnwys model y gallai darparwyr ei gael yn ddefnyddiol; mae'n gwahaniaethu rhwng bod yn ymwybodol o drawma, bod yn fedrus o ran trawma, dulliau wedi'u gwella ar gyfer ymdrin â thrawma a darparu ymyriadau arbenigol, gydag enghreifftiau o "sut olwg sydd ar dda" ar gyfer pob lefel.

## Cymorth parhaus

63. Bydd myfyrwyr sy'n gwneud datgeliadau neu'n adrodd am ddigwyddiadau, myfyrwyr a brofodd yr ymddygiad y gwneir adroddiad amdano a myfyrwyr sy'n destun y cyhuddiad i gyd yn elwa o gefnogaeth. Gall hyn fod ar ffurf cymorth sy'n canolbwyntio ar lesiant corfforol neu emosiynol y myfyriwr. Gall cefnogaeth hefyd ganolbwyntio mwy ar weithdrefnau, gan gynnwys darparu gwybodaeth am brosesau'r darparydd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyriwr. Nid yw'n arfer da i'r un aelod o staff y darparydd gynnig cymorth llesiant i'r myfyrwyr a gyflwynodd yr adroddiad a'r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn. Mae'n arfer da cadw gwahaniad clir rhwng darparu cymorth llesiant i'r myfyrwyr sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â digwyddiad o'r fath, a dod i benderfyniadau ynghylch a yw myfyriwr wedi ymddwyn yn groes i ddisgwyliadau ymddygiad y darparydd mewn perthynas â'r digwyddiad hwnnw ac a ddylid cyflwyno unrhyw gosbau. Gall person sy'n cyflawni rolau ymchwilio neu wneud penderfyniadau fod yn gyfrifol am roi gwybod i fyfyrwyr am y broses honno gan gynnwys egluro gwahanol lwybrau o fewn proses, ar yr amod nad yw hyn yn gyfystyr â chynghori unrhyw fyfyriwr ynghylch eu tystiolaeth.

64. Mae'n arfer da cynorthwyo myfyrwyr i gael mynediad at wasanaethau llesiant gan gynnwys gwasanaethau cwnsela. Mae'n bwysig bod gan bob myfyriwr sy'n ymwneud â'r achos rywun y gallant siarad â nhw, yn enwedig lle gofynnir iddynt beidio â siarad ag aelodau penodol o gymuned y darparydd am gyfnod er mwyn diogelu uniondeb proses ymchwilio (gweler paragraffau 190).

65. Dylai darparwyr gyfeirio myfyrwyr at y gwasanaethau cymorth sydd ar gael, er enghraifft y CCM. Dylai darparwyr fod yn ymwybodol y gallai fod angen cyngor a chymorth ar fyfyrwyr mewn perthynas â materion eraill yr effeithiwyd arnynt gan yr achos o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol nad ydynt o bosibl o fewn rheolaeth y darparydd, er enghraifft llety neu gyllid myfyrwyr. Mae'n arfer da rhoi cyfle i fyfyrwyr gyrchu cymorth a chyngor, a ble nad yw'n ymarferol gwneud hynny'n fewnol, dylai darparwyr ystyried trefnu i fyfyrwyr gael mynediad at wasanaethau cymorth gan ddarparwyr partner neu gyfeirio myfyrwyr at wasanaethau cymunedol lleol eraill neu grwpiau cymorth cenedlaethol.

## Rhyngweithio â gweithdrefnau eraill

66. Mae'n arfer da cynnig cyngor a chymorth rhagweithiol i helpu myfyrwyr i ymgysylltu â phrosesau perthnasol eraill o fewn y darparydd. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd myfyrwyr sydd wedi profi aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol yn dymuno gofyn am amser ychwanegol i gwblhau gwaith, i wneud cais am ystyriaeth ychwanegol o sut yr effeithiodd eu hamgylchiadau ar eu gwaith academaidd, neu efallai y byddant yn dymuno ceisio rhywfaint o amser i ffwrdd o'u hastudiaethau. Gall myfyrwyr y gwnaed cwyn yn eu herbyn hefyd fod dan straen, ac efallai bod mesurau rhagofalus wedi effeithio ar eu gallu i ddilyn eu hastudiaethau.

67. Mae mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar drawma yn cynnwys lleihau'r angen i fyfyrwyr ddisgrifio'r hyn a ddigwyddodd sawl gwaith. Mae hefyd yn arfer da lleihau'r baich gweinyddol i fyfyrwyr sydd mewn trallod. Gall darparwyr ystyried opsiynau fel hepgor y gofyniad i lenwi ffurflen neu ganiatáu i berson sy'n rhoi cymorth iddynt wneud cyflwyniad ar eu rhan.

68. Mae'n arfer da mabwysiadu dull hyblyg o ran y dystiolaeth y disgwylir i fyfyrwyr ei darparu wrth ymwneud â'r mathau hyn o brosesau. Mae'n bwysig parchu natur gyfrinachol y wybodaeth. Er enghraifft, efallai er mwyn gwneud hawliad am ystyriaeth ychwanegol ynghylch perfformiad academaidd myfyriwr, mai'r cyfan sydd ei angen yw nodi bod adroddiad ynghylch profiad o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol wedi'i gyflwyno, bod effaith sylweddol wedi bod ar lesiant y myfyriwr, a nodi am ba hyd y bu'r effaith honno. Mae'n annhebygol y bydd angen i'r hawliad gynnwys manylion am yr hyn a brofodd y myfyriwr.

69. Mae'n debygol y bydd gan fyfyrwyr y gwnaed cwyn yn eu herbyn hefyd bryderon ynghylch cyfrinachedd, sy'n arbennig o bwysig os nad oes canfyddiad ffurfiol wedi'i wneud (hyd yma) o dan broses ddisgyblu. Unwaith eto, mae'n annhebygol y bydd angen i hawliad gynnwys gwybodaeth fanwl am y pryderon penodol a godwyd ynghylch sut mae myfyriwr wedi ymddwyn.

70. Dylai darparwyr hefyd weithredu dull hyblyg o ran terfynau amser arferol i fyfyrwyr ymwneud â phrosesau. Gall profiad myfyriwr o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol effeithio ar eu gallu i ymgysylltu ag apêl academaidd neu brosesau ystyriaeth ychwanegol mewn modd amserol.

71. Pan fydd myfyriwr wedi cyflwyno adroddiad am aelod o staff, mae'n debygol y bydd yn bryderus iawn am benderfyniadau a allai gael eu gwneud gan yr unigolyn hwnnw neu o fewn yr un adran. Efallai y bydd myfyrwyr yn teimlo na fyddai'n ddiogel gwneud cais am ystyriaeth ychwanegol pe bai'n rhaid iddynt ddatgelu'r amgylchiadau. Dylai darparwyr sicrhau bod eu prosesau'n ddigon hyblyg i ganiatáu amrywiad yn y wybodaeth a rennir â'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau mewn proses cais am ystyriaeth ychwanegol, a phryd y gellir amnewid y sawl sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau. Dylai darparwyr hefyd ystyried sut y gellir sicrhau tegwch prosesau eraill, fel marcio gwaith a gaiff ei asesu.

# Myfyrwyr sydd hefyd yn staff

72. Mae rhai myfyrwyr hefyd yn cael eu cyflogi gan eu darparydd. Gall hyn amrywio o waith achlysurol nad yw'n wynebu'r cyhoedd, i swyddi o ymddiriedaeth a chyfrifoldeb sylweddol mewn perthynas â myfyrwyr eraill, megis rolau addysgu, cefnogi a lles. Gall fod yn briodol disgwyl i fyfyrwyr sydd hefyd yn aelodau o staff mewn swyddi ag ymddiriedaeth neu awdurdod yn perthyn iddynt fodloni safonau ymddygiad uwch oherwydd eu rolau proffesiynol na myfyrwyr eraill, a chymryd hyn i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau o dan broses ddisgyblu.

73. Trafodir isod rai rhwystrau a allai atal pobl rhag rhannu gwybodaeth am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol (**paragraff 78**). Gall myfyrwyr sydd hefyd yn aelodau o staff wynebu rhwystrau ychwanegol wrth ddatgelu neu roi gwybod am aflonyddu neu gamymddwyn rhywiol. Efallai eu bod yn pryderu y gallai rhannu'r math hwn o wybodaeth beryglu eu statws fel myfyrwyr yn ogystal â'u cyflogaeth mewn rhyw ffordd. Mae'n bwysig bod myfyrwyr sydd hefyd yn aelodau o staff yn cael cyngor a chefnogaeth briodol a bod eu cyfrinachedd yn cael ei gynnal. Mae hyn yn berthnasol i'r unigolyn sy'n cyflwyno adroddiad a'r sawl y gwneir cwyn yn ei erbyn.

74. Dylai darparwyr ystyried cyd-destun y digwyddiad(au) a ddisgrifir yn y datgeliad neu'r adroddiad er mwyn penderfynu pa gamau i'w cymryd, yn enwedig os cynhelir ymchwiliad disgyblu.

75. Mewn rhai achosion, gall fod yn anodd gwahaniaethu'n glir p'un a ddigwyddodd rhywbeth yn rhinwedd unigolyn fel myfyriwr neu yn rhinwedd ei rôl fel aelod o staff. Beth bynnag, yn achos y sawl sy'n cyflwyno adroddiad neu'n ymateb iddo, mae'n debygol y bydd effaith y profiad o wneud y datgeliad neu'r adroddiad, neu o fod yn destun datgeliad neu adroddiad, yn effeithio arnynt yn y naill rôl a'r llall. Efallai y bydd angen i ddarparwyr gynnal eu gweithdrefnau'n hyblyg neu fabwysiadu dull wedi'i deilwra'n bwrpasol mewn achosion o'r fath. Dylai darparwyr ystyried **10 egwyddor graidd** arfer da wrth ddylunio a gweithredu prosesau o'r fath.

76. Dylai darparwyr gymryd camau i leihau unrhyw ddyblygu o ran agweddau ymchwiliol a chanfod ffeithiau'r broses. Efallai y byddai'n briodol ystyried y canfyddiadau ffeithiol a gyrhaeddwyd o dan broses disgyblu myfyrwyr o fewn gweithdrefn camymddygiad staff, neu i'r gwrthwyneb.

77. Gall fod yn briodol i ddarparwyr geisio cyngor arbenigol ynghylch hawliau unigolion fel gweithwyr, yn enwedig lle mae canlyniad y broses ddisgyblu yn golygu terfynu statws myfyriwr yr unigolyn dan sylw.

# Gwneud datgeliad neu adroddiad

## Crynodeb

Dylai darparwyr ei gwneud yn bosibl i fyfyrwyr rannu gwybodaeth am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol trwy amrywiaeth o lwybrau sy'n diwallu anghenion eu corff myfyrwyr gan gynnwys wyneb-yn-wyneb, dros y ffôn neu alwad fideo, ac ar-lein.

Dylai darparwyr gyfeirio myfyrwyr sy'n rhannu gwybodaeth am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol at ffynonellau cymorth ac arweiniad.

Ni ddylai darparwyr ddweud wrth fyfyrwyr ei bod yn rhy hwyr iddynt rannu gwybodaeth â'r darparydd am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol.

Dylai darparwyr esbonio i fyfyrwyr y gallai fod rhai cyfyngiadau ar sut y gallant ymateb i wybodaeth a rennir yn ddienw, neu wybodaeth a rennir am ddigwyddiad neu ymddygiad nad yw'n ddiweddar.

78. Gall fod yn anodd i fyfyriwr sydd wedi profi neu wedi bod yn dyst i aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol ddweud wrth ei ddarparydd amdano. Gall rhwystrau i wneud datgeliad neu adroddiad gynnwys:

   a. Ansicrwydd ynghylch a oedd yr ymddygiad yn annerbyniol ac a yw'n "werth" ei adrodd, neu ba bryd i wneud hynny, er enghraifft, os oes patrwm graddol o waethygu.
   b. Ansicrwydd ynghylch pa broses a gaiff ei dilyn a phryder ynghylch colli rheolaeth.
   c. Ansicrwydd ynghylch pa gamau a allai ddeillio o gyflwyno adroddiad a phryder ynghylch pa mor effeithiol y gallai'r rhain fod i gadw'r sawl sy'n adrodd yn ddiogel.
   d. Profiad negyddol blaenorol o wneud datgeliad neu adroddiad yn yr un fforwm neu fforwm gwahanol.
   e. Teimladau o gywilydd, embaras neu euogrwydd am yr hyn a ddigwyddodd.
   f. Ofn cael eich alltudio, cael eich barnu neu gael eich trin yn wahanol oherwydd y datgeliad neu'r adroddiad.
   g. Ofn dial gan y sawl y cwynwyd amdano neu gan bobl neu sefydliadau sy'n gysylltiedig â nhw.
   h. Ofn yn ymwneud â chanfyddiadau ynghylch eu haddasrwydd i arfer mewn proffesiwn rheoleiddiedig os ydynt yn datgelu eu bod yn profi anawsterau o ran eu llesiant.
   i. Methu â gwneud y datgeliad na'r adroddiad oherwydd y gallai beryglu eu lles i fynd yn ôl dros yr hyn a ddigwyddodd.
   j. Heb fod mewn sefyllfa (eto) i gydnabod effaith lawn yr hyn a ddigwyddodd.
   k. Ddim yn gwybod a fyddai person arall a brofodd yr ymddygiad eisiau i'r mater gael ei adrodd.

79. Gall darparwyr fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau hyn trwy ei gwneud mor hawdd â phosibl i fyfyrwyr rannu eu pryderon ynghylch ymddygiad pobl eraill. Rhaid i ddarparwyr fod â llwybrau clir, syml a hygyrch i fyfyrwyr ddweud wrthynt am ddigwyddiadau o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol. Rhaid i ddarparwyr gyhoeddi'r llwybrau hyn i fyfyrwyr yn rheolaidd.

80. Gall rhoi sicrwydd i fyfyrwyr y bydd y wybodaeth y byddant yn ei darparu mewn datgeliad neu adroddiad yn cael ei chadw'n ddiogel, ac mai dim ond ar sail "angen gwybod" y bydd hunaniaeth a gwybodaeth bersonol y myfyriwr sy'n cyflwyno adroddiad yn cael eu rhannu, helpu myfyrwyr i ddod ymlaen.

81. Nid cyfrifoldeb myfyriwr sy'n adrodd yw nodi'n gywir a yw'r ymddygiad y maent yn pryderu amdano'n bodloni'r diffiniad o aflonyddu neu gamymddwyn rhywiol neu a yw'n cael ei ddisgrifio'n well o dan agwedd arall ar safonau ymddygiad y darparydd. Cyfrifoldeb y darparydd yw penderfynu sut i ddisgrifio'r ymddygiad dan sylw o fewn y diffiniadau y mae'n eu defnyddio.

## Amseroldeb ac adroddiadau nad ydynt yn ddiweddar

82. Mewn adrannau eraill o'r Fframwaith Arfer Da, rydym fel arfer yn awgrymu y dylai gweithdrefnau cwynion ac apeliadau sy'n wynebu myfyrwyr nodi terfynau amser i fyfyrwyr godi pryderon. Yn gyffredinol, gall codi pryder yn brydlon alluogi darparydd i ddod o hyd i ddatrysiad cyflym a chadarnhaol, a all atal sefyllfa rhag gwaethygu. Gall hefyd helpu darparwyr i gasglu gwybodaeth berthnasol i'w hystyried. Gall darparwyr annog myfyrwyr sy'n profi aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol i ddatgelu neu roi gwybod cyn gynted â phosibl, ond dylent gydnabod efallai na fydd myfyrwyr yn gallu datgelu neu adrodd am yr hyn sydd wedi digwydd am gyfnod hir.

83. Ni ddylai darparwyr osod terfyn amser ar y broses i fyfyrwyr ddatgelu achosion o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol. Ni ddylai darparwyr ddweud wrth fyfyrwyr na chyn-fyfyrwyr ei bod yn rhy hwyr iddynt wneud datgeliad at ddiben ceisio cyngor a chymorth, waeth pa mor hir y maent wedi'i gymryd i ddatgelu.

84. Mae'n arfer da peidio â rhoi terfyn amser ar y broses i fyfyrwyr gyflwyno adroddiad ffurfiol am aflonyddu neu gamymddwyn rhywiol. Os bydd darparydd yn gosod terfyn amser, dylid gweithredu hyn yn hyblyg gan gydnabod y rhwystrau a allai atal adrodd cyflym. Wrth arfer eu disgresiwn i dderbyn adroddiadau y tu allan i'w hamserlen ddelfrydol, dylai darparwyr ystyried difrifoldeb y digwyddiad neu'r ymddygiad a'r effaith ar y sawl sy'n adrodd neu berson arall yr effeithiwyd arnynt gan yr ymddygiad. Lle mae'n rhesymol tybio y bu'r effaith yn sylweddol, ni fydd fel arfer yn briodol gofyn i fyfyrwyr ddarparu tystiolaeth i brofi nad oeddent yn gallu ymwneud â'r broses adrodd ynghynt. Dylai darparwyr hefyd ystyried a oes risg barhaus bosibl i'w cymuned.

85. Nid yw hyn yn golygu bod rhaid i ddarparydd ystyried neu gymryd camau gweithredu mewn ymateb i adroddiadau nad ydynt yn ddiweddar yn yr un modd ag y byddent yn ymateb i adroddiad cyfoes. Dylai darparwyr barhau i gyfeirio myfyrwyr sy'n adrodd am

ddigwyddiadau at y gefnogaeth sydd ar gael iddynt, ac egluro opsiynau eraill a allai fod gan y myfyriwr, fel dwyn y mater i sylw'r heddlu. Efallai y byddai'n briodol cyfeirio cyn-fyfyrwyr at wasanaethau cymorth y tu allan i'r darparydd.

86. Dylai darparwyr hefyd egluro a yw'n bosibl cynnal ymchwiliad i'r hyn a ddigwyddodd. Efallai na fydd yn bosibl casglu tystiolaeth ychwanegol am y materion a godwyd os nad yw unigolion perthnasol ar gael mwyach. Gall treigl amser effeithio ar gyflawnder a chywirdeb atgof gwahanol unigolion o ddigwyddiad mewn gwahanol ffyrdd. Efallai na fyddai digwyddiad a oedd yn arbennig o arwyddocaol i'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad wedi cael ei ganfod yn yr un ffordd neu ei gofio yn yr un manylder gan unigolion eraill. I'r gwrthwyneb, mewn rhai amgylchiadau gall treigl amser ganiatáu i batrymau gael eu nodi, er enghraifft o adroddiadau sydd wedi'u cyflwyno ar wahanol adegau. Gall mathau eraill o dystiolaeth o adeg y digwyddiad fodoli o hyd, er enghraifft ar ffurf negeseuon e-bost neu sgrinluniau.

87. Mae'n annhebygol y bydd gan ddarparydd unrhyw gyfrifoldeb i gymryd camau disgyblu yn erbyn myfyrwyr nad ydynt yn astudio mwyach, oherwydd nad oes gan y darparydd bellach berthynas gytundebol â nhw. Yn yr un modd, mae'n annhebygol y bydd gan ddarparydd unrhyw gyfrifoldeb i gychwyn proses ddisgyblu mewn perthynas â chyn-aelodau staff. Pan fo'r darparydd yn ymwybodol bod y person y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn gweithredu o fewn proffesiwn a reoleiddir, dylai ystyried yn ofalus a oes ganddo unrhyw rwymedigaeth i rannu gwybodaeth am adroddiadau y mae wedi'u derbyn, er enghraifft â'r Corff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol perthnasol, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) neu Swyddog a Ddynodwyd gan yr Awdurdod Lleol.

88. Er gwaethaf yr heriau hyn, dylai darparwyr ystyried yn ofalus a allant gynnal unrhyw ymchwiliad y tu allan i broses ddisgyblu ffurfiol, neu a yw'n gymesur cymryd unrhyw gamau eraill. Dylai darparwyr fod yn arbennig o ymwybodol o adroddiadau sy'n cyfeirio at ymddygiad staff sy'n cael eu cyflogi o hyd neu sy'n cyfeirio at ddiwylliannau systemig neu wedi'u gwreiddio o ymddygiadau annerbyniol. Gall darparwyr benderfynu cynyddu goruchwyliaeth neu hyfforddiant cefnogol mewn maes penodol, heb fod angen canfyddiad clir o fai.

89. Hyd yn oed lle nad yw'n bosibl i ddarparydd gynnal ymchwiliad ystyrlon, gall darparwyr o hyd elwa o ddealltwriaeth ynghylch profiad myfyrwyr o'u hamser yn astudio. Gall y math hwn o wybodaeth helpu darparwyr i ddeall effeithiolrwydd eu hymyriadau dros amser.

## Datgeliad wyneb-yn-wyneb

90. Dylai darparwyr gynnig llwybrau clir i fyfyrwyr ddatgelu aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol, gan gynnwys wyneb-yn-wyneb, dros y ffôn neu alwad fideo. Os oes gan y darparydd un neu fwy o aelodau staff sydd â chyfrifoldeb penodol am ymateb i ddatgeliadau ac adroddiadau o'r natur hon a hyfforddiant arbenigol yn y maes, dylent gyhoeddi sut y gall myfyrwyr gysylltu â nhw.

91. Hyd yn oed lle mae rolau arbenigol yn bodoli, gall rhai myfyrwyr ddewis datgelu gwybodaeth i aelod arall o staff. Weithiau gall myfyrwyr ddatgelu rhywbeth yn annisgwyl i aelod o staff sy'n dod ar draws y myfyriwr mewn trallod. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw aelod o staff mewn unrhyw rôl dderbyn datgeliad gan fyfyriwr.

92. Dylai darparwyr sicrhau bod yr holl staff yn deall beth i'w wneud os bydd myfyriwr yn datgelu aflonyddu neu gamymddwyn rhywiol iddynt. Dylai darparwyr o leiaf sicrhau bod staff yn gwybod ble i gyfeirio myfyrwyr am gymorth, gwybodaeth ac arweiniad pellach ynghylch eu prosesau. Dylai staff hefyd wybod sut a phryd i weithredu ar bryderon uniongyrchol a allai fod ganddynt ynghylch llesiant myfyriwr. Mae hyn yn debygol o fod yn rhan o brosesau presennol y darparydd ar gyfer diogelu.

93. Dylai darparwyr hysbysu staff ynghylch sut i wneud cofnod priodol o'r datgeliad, er mwyn iddynt allu penderfynu pa gamau i'w cymryd (gweler **paragraffau 110-113**.) Er enghraifft, gall darparwyr ofyn i staff gofnodi datgeliadau gan ddefnyddio'r un teclyn ar-lein sydd ar gael i fyfyrwyr.

94. Gall derbyn datgeliad gan fyfyriwr beri gofid i aelodau staff. Rydym yn annog darparwyr i gymryd camau i ddiogelu llesiant eu staff yn yr amgylchiadau hyn.

## Datgeliad ysgrifenedig/ar-lein

95. Dylai darparwyr gynnig llwybr i fyfyrwyr ddatgelu aflonyddu a chamymddwyn rhywiol ar-lein. Gall darparwyr benderfynu buddsoddi mewn system wedi'i theilwra'n bwrpasol[2] sydd wedi'i chynllunio i gasglu datgeliadau ac adroddiadau gan fyfyrwyr neu staff, i ddarparu cyngor ac arweiniad, ac sy'n galluogi adrodd ar dueddiadau a phatrymau. Fel arall, gall darparwyr weithredu system symlach megis ffurflen ar-lein neu ddarparu cyfeiriad e-bost i'r sawl sy'n cyflwyno adroddiad ei ddefnyddio.

96. Dylai darparwyr sicrhau, wrth gynnig dull i fyfyrwyr wneud datgeliad neu adrodd ar-lein, fod yna hefyd wybodaeth am yr hyn a fydd yn digwydd pan fydd y darparydd yn derbyn y wybodaeth. Gall hyn gynnwys:

   a. pa adran neu ba staff o fewn y darparydd fydd yn derbyn y wybodaeth ac i ba raddau y bydd y wybodaeth yn parhau i fod yn gyfrinachol
   b. a ellir hysbysu unrhyw ran arall o'r darparydd ynghylch y wybodaeth ar sail angen gwybod er mwyn rheoli risg yn briodol
   c. a fydd y darparydd yn cysylltu â'r person a gyflwynodd y wybodaeth, sut a phryd y bydd hynny'n digwydd
   d. beth fydd y darparydd yn ei wneud nesaf
   e. am ba hyd y bydd y wybodaeth yn cael ei chadw

2 *"Report & Support"* yw nod masnach swyddogol *Culture Shift Communications Ltd* ar gyfer y system wedi'i theilwra'n benodol y maen'n berchen arni. Mae'n gyffredin i ddarparwyr a chyrff cynrychioli myfyrwyr gyfeirio at systemau eraill tebyg i *"Report & Support"*.

97. Mae ffurflenni ysgrifenedig yn ddefnyddiol o ran arwain myfyrwyr wrth ddarparu gwybodaeth berthnasol i alluogi'r darparydd i ddynodi cefnogaeth a chamau gweithredu priodol. Pan fydd myfyriwr yn nodi y byddai'n dymuno cyflwyno adroddiad ffurfiol, sy'n wahanol i ddatgeliad, gall darparwyr annog myfyrwyr i ddefnyddio ffurflen adrodd neu gynnig cymorth iddynt i'w chwblhau. Ble bynnag y bo modd, mae'n ddefnyddiol bod ffurflen adroddiad yn cofnodi'n gywir ddisgrifiad y myfyriwr ei hun o'r hyn y maent wedi'i brofi. Os yw'r ffurflen yn cael ei chwblhau gan aelod o staff ar ran myfyriwr, ble bynnag y bo modd dylid gofyn i'r myfyriwr gadarnhau ei chywirdeb.

## Datgeliad dienw

98. Mae'n arfer da bod â systemau ar waith i sicrhau y gall myfyrwyr ddewis gwneud datgeliad yn ddienw. Gall darparwyr hefyd gynnig y cyfleuster hwn i staff ac unrhyw drydydd parti. Gellir dylunio systemau ar-lein i gynnwys yr opsiwn hwn.

99. Ble mae myfyriwr wedi rhannu gwybodaeth wyneb-yn-wyneb, dylai'r darparydd wirio bod y myfyriwr yn hapus i'w hunaniaeth gael ei chofnodi. Fel arall, gallai myfyriwr sydd wedi gwneud datgeliad wyneb-yn-wyneb i aelod o staff yn y darparydd neu aelod o staff yn y corff cynrychioli myfyrwyr ofyn i'r aelod staff wneud cofnod dienw o'r datgeliad wedyn.

100. Dylai darparwyr esbonio i fyfyrwyr sut y gall datgeliadau dienw eu helpu i nodi tueddiadau a phatrymau ym mhrofiadau eu myfyrwyr. Gall hyn yn ei dro eu helpu i gymryd camau wedi'u targedu i fynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder. Gall hyn annog mwy o hyder mewn datgeliadau a chyflwyno adroddiadau.

101. Mae'n ddefnyddiol esbonio i fyfyrwyr y gwahaniaeth rhwng datgeliad cwbl ddienw, a datgeliad neu adroddiad ble mae hunaniaeth y myfyriwr yn hysbys i nifer gyfyngedig o staff y darparydd, ond ei fod yn cael ei gadw'n gyfrinachol ac na fydd yn cael ei ddatgelu ymhellach heb ganiatâd y myfyriwr.

102. Rhaid i ddarparwyr roi gwybodaeth glir i fyfyrwyr am oblygiadau a therfynau rhannu gwybodaeth yn ddienw. Er enghraifft:

   a. Gellir cyfeirio myfyrwyr sy'n cyflwyno gwybodaeth yn ddienw at ffynonellau cymorth trwy neges gydnabyddiaeth neu wefan, ond ni chysylltir â nhw'n unigol i gynnig cymorth personol iddynt.
   b. Ni fydd y darparydd yn gallu rhoi mesurau ar waith i atal cyswllt pellach â'r myfyriwr neu'r aelod staff y gwnaed cwyn yn ei erbyn.
   c. Ni fydd y darparydd yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r myfyriwr yn unigol am unrhyw gamau y mae wedi'u cymryd mewn ymateb i'r adroddiad.
   d. Mae'n debygol y bydd y camau y gall y darparydd eu cymryd o dan broses ddisgyblu staff neu fyfyrwyr yn gyfyngedig lle mae ffynhonnell yr adroddiad naill ai'n gwbl ddienw, neu lle na ellir rhannu hunaniaeth y myfyriwr sy'n adrodd â'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn.

103. Er bod rhai cyfyngiadau ar ba gamau ffurfiol y gall darparwyr eu cymryd mewn ymateb i ddatgeliadau dienw, gall darparwyr ystyried a fyddai'n briodol hysbysu'r myfyriwr neu'r aelod staff y gwnaed cwyn yn ei erbyn ynghylch y pryderon a godwyd yn ddienw am eu hymddygiad. Gall hyn fod yn briodol lle nad yw unigolyn yn ymwybodol bod ei ymddygiad yn peri pryder ac y byddai'n debygol o fod yn agored i sgwrs gefnogol ac ystyriaeth ynghylch addasu ei ymddygiad. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eraill, gallai rhannu hyd yn oed gwybodaeth gyfyngedig â'r person y gwnaed cwyn yn ei erbyn beri risg i'r sawl a gyflwynodd yr adroddiad. Gall rhannu'r wybodaeth hon hefyd achosi gofid sylweddol i'r person y gwnaed cwyn yn ei erbyn, a dylai darparwyr ofalu eu bod yn cynnig cefnogaeth briodol os byddant yn penderfynu rhannu'r wybodaeth. Mae'n arfer da dogfennu'r rhesymau dros y penderfyniad i rannu neu beidio â rhannu'r wybodaeth, mewn ffordd sy'n gymesur â'r datgeliad penodol.

# Yr ymateb cychwynnol i ddatgeliad neu adroddiad

## Crynodeb

Dylai darparwyr wrando ar ddatgeliadau gan fyfyrwyr heb farnu a'u cyfeirio at ffynonellau cymorth a chyngor.

Dylai darparwyr esbonio'r opsiynau sydd ar gael i fyfyrwyr a all gynnwys camau ffurfiol i ymchwilio o fewn y darparydd, cyflwyno adroddiad i'r heddlu, neu roi mesurau cefnogol ar waith heb gynnal unrhyw ymchwiliad ffurfiol. Mae'n bwysig parchu dewis myfyrwyr ble bynnag y bo modd.

Dylai darparwyr wneud cofnod o ddatgeliadau sy'n gymesur â'r wybodaeth a rannwyd ac yn berthnasol i'r hyn y mae'r myfyriwr sy'n gwneud y datgeliad yn ei geisio.

Dylai darparwyr asesu'r risgiau i fyfyrwyr sy'n adrodd, myfyrwyr y gwnaed cwyn yn eu herbyn a'u cymuned ehangach ar ôl derbyn datgeliad neu adroddiad, mewn ffordd sy'n gymesur â'r amgylchiadau.

Dylai darparwyr ystyried pa gamau y gallant eu cymryd i liniaru unrhyw risgiau a nodwyd ac i helpu â chefnogi myfyrwyr i deimlo'n ddiogel yn eu cymuned.

## Gwrando ar y myfyriwr

104. Y flaenoriaeth gyntaf pan fydd myfyriwr yn rhannu gwybodaeth â darparydd am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol yw llesiant y myfyriwr sy'n cyflwyno'r adroddiad. Dylai darparwyr wneud y canlynol:

   a. gwrando heb farnu ar yr hyn y mae'r myfyriwr eisiau ei ddweud
   b. hysbysu'r myfyriwr ynghylch ffynonellau cymorth. Gallai hwn fod yn aelod hyfforddedig o staff, fel Swyddog Cydlynu Trais Rhywiol (SVLO) neu gallai gynnwys ffynonellau cymorth allanol (Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCs), sefydliadau cymunedol, grwpiau cymorth ar-lein, llinellau cymorth cenedlaethol, a.y.b.).
   c. ystyried unrhyw risgiau uniongyrchol i unigolion a chymryd camau yn unol â gweithdrefnau diogelu perthnasol.
   d. esbonio unrhyw ffactorau sy'n effeithio ar gyfrinachedd y sgwrs. Er enghraifft, efallai y bydd gan ddarparwyr rwymedigaethau hollbwysig i lunio adroddiad diogelu, yn enwedig lle gallai person o dan 18 oed fod mewn perygl o niwed.

105. Nid yw fel arfer yn briodol cymryd camau ar unwaith i brofi gwirionedd, cywirdeb na dibynadwyedd adroddiad y myfyriwr am yr hyn sydd wedi digwydd pan fyddant yn gwneud datgeliad gyntaf. Er mwyn nodi cefnogaeth berthnasol i'r myfyriwr, gall darparwyr fwrw ymlaen ar y sail bod y myfyriwr yn cyflwyno ei esboniad o'r hyn a brofodd neu a welodd yn ddidwyll. (Gweler paragraffau 244 - 248 am wybodaeth am y baich a'r safon brawf o fewn unrhyw ymchwiliad disgyblu dilynol.)

106. Dylai darparwyr hyfforddi'r holl staff a allai dderbyn datgeliad gan fyfyrwyr ynghylch terfynau'r camau y disgwylir iddynt eu cymryd. I lawer o staff, bydd yn fwyaf priodol ailgyfeirio'r myfyriwr at unigolyn neu swyddfa sydd â'r arbenigedd priodol i ymateb i ddatgeliadau ac adroddiadau.

## Setting out the student's options

107. Dylai darparwyr helpu myfyrwyr sydd wedi gwneud datgeliadau neu adroddiadau i ddeall yr amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael iddynt a rhoi cefnogaeth i'r myfyriwr wrth benderfynu sut i fwrw ymlaen. Mae'n debygol y bydd yn ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

a. Cefnogaeth briodol, p'un a yw'r myfyriwr am fynd â'r mater ymhellach ai peidio (gweler paragraffau 63 - 65). Er enghraifft, mewn achosion perthnasol o drais rhywiol corfforol, gall darparwyr roi cyngor ynghylch mynychu'r SARC agosaf.

b. Y posibilrwydd o fesurau rhagofalus, fel trefniadau dim-cyswllt, ac ynghylch terfynau o ran pryd a ble y gall darparwyr orfodi'r rhain (gweler paragraffau 118 – 133).

c. Cyfleoedd ar gyfer datrys anffurfiol, megis deialog wedi'i hwyluso a/neu drefniadau dim-cyswllt gwirfoddol (lle bo'n briodol, gweler paragraffau 145- 154).

d. Ar gyfer datgeliadau yn unig - penderfynu bwrw ymlaen ag adroddiad ffurfiol

e. Prosesau mewnol ar gyfer ymchwilio'n ffurfiol i ymddygiad person arall o dan reoliadau disgyblu myfyrwyr neu staff.

f. Cyflwyno adroddiad i'r heddlu. Dylai darparwyr fod yn glir y bydd unrhyw brosesau mewnol fel arfer yn cael eu hoedi yn ystod ymchwiliad yr heddlu neu achosion llys cysylltiedig. Serch hynny, gall mesurau rhagofalus barhau i fod ar waith i amddiffyn myfyrwyr ac aelodau staff eraill a chael eu hadolygu ar gyfer y myfyriwr y gwnaed cwyn y ei erbyn yn ystod yr amser hwn.

g. Cymryd ychydig o amser i ystyried eu dewisiadau. Mae'n ddefnyddiol egluro a yw unrhyw un o'r opsiynau sydd ar gael i'r myfyriwr sy'n cyflwyno adroddiad wedi'u cyfyngu o ran amser. Er enghraifft, os yw myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn ar fin graddio, ni fydd y darparydd yn gallu dechrau proses ddisgyblu ar ôl y pwynt hwnnw.

108. Pan fydd myfyriwr wedi cyflwyno adroddiad ffurfiol ac yn ceisio camau disgyblu yn erbyn y sawl mae wedi gwneud cwyn yn ei erbyn, gall fod yn ddefnyddiol esbonio:

a. sut y byddant yn rhan o'r broses; er enghraifft, a allent gael eu gwahodd i ymddangos fel tyst mewn gwrandawiad disgyblu

b. y gefnogaeth a fydd ar gael iddynt yn ystod y broses
c. yr amserlen a ragwelir ar gyfer y broses
d. canlyniadau posibl y broses
e. a allai dewis dull disgyblu mewnol danseilio erlyniad troseddol yn y dyfodol.

109. Ble mae'r myfyriwr wedi rhannu gwybodaeth wyneb-yn-wyneb, mae'n ddefnyddiol trafod hynny a rhoi gwybodaeth ysgrifenedig iddo am ei opsiynau. Mae myfyrwyr sydd wedi'u heffeithio gan drawma, myfyrwyr mewn trallod a myfyrwyr anabl â chyflyrau sy'n effeithio ar eu gallu i brosesu a chofio gwybodaeth gymhleth yn fwy tebygol o'i chael hi'n ddefnyddiol gallu cyfeirio'n ôl at wybodaeth am y camau nesaf.

## Cadw cofnodion o ddatgeliadau ac adroddiadau llafar

110. Mae'n arfer da i staff sy'n derbyn datgeliad llafar wneud nodyn byr o brif bwyntiau'r sgwrs. Gellir rhannu'r nodiadau â'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad, os yw am eu gweld. Gall union natur a chynnwys y nodiadau amrywio, yn seiliedig ar yr hyn a drafodwyd a'r hyn y mae'r myfyriwr wedi'i nodi yr hoffai iddo ddigwydd nesaf.

111. Gall cadw cofnodion da ynghylch datgeliadau roi sicrwydd i ddarparwyr bod myfyrwyr wedi cael eu cyfeirio at gymorth priodol, a bod risgiau uniongyrchol wedi'u nodi. Mae'n debygol y gellir defnyddio'r canllawiau y mae darparwyr eisoes yn eu rhoi i'w staff ynghylch gwneud cofnod am unrhyw fath arall o bryder diogelu ar gyfer datgeliadau am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol. Mae'n arfer da coladu cofnodion a'u storio mewn ffordd sy'n galluogi rheolaeth dros fynediad a chyfnodau priodol ar gyfer eu cadw.

112. Pan mae'n amlwg bod myfyriwr sy'n rhannu gwybodaeth wyneb-yn-wyneb yn dymuno cyflwyno adroddiad ffurfiol, â'r disgwyliad y bydd darparydd yn cymryd camau gweithredu, gall darparwyr annog y myfyriwr i gyflwyno adroddiad ysgrifenedig. Ond dylai darparwyr hefyd fod yn ofalus ynghylch gosod rhwystr ychwanegol yn ffordd myfyriwr a fyddai'n well ganddo gyflwyno adroddiad llafar.

113. Bydd angen i gofnod o adroddiad llafar fod yn fwy manwl na chofnod o ddatgeliad llafar. Gallai hyn gynnwys recordiad sain/gweledol os yw'r myfyriwr sy'n adrodd yn gyfforddus â hynny. Ble bo modd, mae'n well bod adroddiadau llafar yn cael eu cymryd gan aelodau staff sydd wedi derbyn hyfforddiant perthnasol mewn arfer sy'n seiliedig ar drawma. Mae hefyd yn bwysig bod staff sy'n derbyn adroddiadau llafar manwl yn gallu archwilio adroddiad y myfyriwr gan ddefnyddio cwestiynau agored. Os yw myfyriwr eisoes wedi gwneud datganiad llafar manwl pan fo'n ymgysylltu â'r darparydd am y tro cyntaf, efallai y bydd darparwyr yn gallu lleihau'r angen iddynt gymryd rhan mewn cyfweliadau pellach fel rhan o broses ddisgyblu. Mae hyn yn ddibynnol ar gofnod cryf o'r sgwrs sy'n cipio disgrifiad y myfyriwr ei hun o'r hyn sydd wedi digwydd, heb unrhyw gwestiynau arweiniol.

# Asesiad risg a mesurau rhagofalus

## Gwerthuso risg yn rheolaidd

114. Pan fydd darparwyr yn derbyn datgeliadau neu adroddiadau am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol, gan gynnwys datgeliadau dienw, dylent gymryd camau cymesur i ystyried a oes digon o wybodaeth i nodi unrhyw bryderon diogelu neu lesiant uniongyrchol. Lle mae'r wybodaeth sydd ar gael yn caniatáu, dylai darparwyr gynnal asesiad risg priodol i benderfynu a oes angen unrhyw gamau gweithredu ar unwaith i ddiogelu lles y myfyriwr sydd wedi'n cyflwyno'r adroddiad, y myfyriwr neu'r aelod staff y gwnaed cwyn yn ei erbyn, cymuned ehangach y darparydd, neu'r cyhoedd.

115. Lle mae adroddiadau'n ddienw neu'n cynnwys gwybodaeth gyfyngedig fel arall, dylai darparwyr ddefnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu pa gamau sy'n rhesymol ymarferol, a all gynnwys cofnodi'r wybodaeth, monitro am batrymau neu bryderon ailadroddus, neu gymryd mesurau ataliol ehangach, yn hytrach na chynnal asesiad risg llawn.

116. Gall darparwyr ddefnyddio'r fethodoleg asesu risg sydd fwyaf addas i'w cyd-destun a'r materion a godwyd yn sgil y datgeliad neu'r adroddiad. Mae rhai modelau defnyddiol wedi'u cynnwys yng **Nghanllawiau Prifysgolion y DU ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch: Sut i Ymdrin â Chamymddwyn Honedig gan Fyfyrwyr a All Hefyd Fod yn Drosedd**. Mae modelau a thempledi eraill wedi cael eu datblygu gan arbenigwyr ym maes trais ar sail rhywedd a diogelu, ac mae rhai ohonynt yn tynnu ar fodelau risg sy'n gysylltiedig â bregusrwydd a ddatblygwyd gan heddluoedd yn y DU. (Gweler yr adran adnoddau defnyddiol am fodelau amgen neu ychwanegol).

117. Mae'n arfer da nodi'r ffactorau a allai newid asesiad y darparydd o'r risg mewn achos penodol a gwneud cynllun i ailystyried yr asesiad, ac yna nodi camau lliniaru yn unol â hynny. Bydd pa mor aml y mae'n briodol ailystyried asesiad risg yn amrywio yn dibynnu ar y risgiau penodol a nodwyd, y camau a gymerwyd i reoli'r risgiau, a ffactorau eraill a allai newid y risgiau, megis newidiadau o ran llesiant myfyrwyr, myfyrwyr yn cwblhau eu hastudiaethau, neu gamau gweithredu gan asiantaethau eraill.

## Mesurau rhagofalus

118. Gall mesurau rhagofalus fod yn briodol mewn ymateb i unrhyw ddatgeliad neu adroddiad am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol, p'un a yw'r adroddiad yn ymwneud â myfyriwr neu aelod o staff, a ph'un a yw'r heddlu'n ymchwilio i'r achos yn ogystal. Mae paragraffau 115–122 o'n **Fframwaith Arfer Da: Gweithdrefnau disgyblu** yn nodi rhagor o wybodaeth am weithredu mesurau rhagofalus mewn achosion disgyblu myfyrwyr.

119. Pwrpas mesurau rhagofalus yw lliniaru'r risgiau sydd wedi'u nodi. Yn aml, ystyrir gweithredu mesurau rhagofalus pan fydd darparydd yn derbyn datgeliad neu adroddiad, a/neu pan fydd yn dechrau ymchwiliad o dan broses ddisgyblu, ond gall darparwyr ystyried mesurau rhagofalus ar unrhyw adeg pan fydd yn canfod risg y gellid ei rheoli'n effeithiol trwy wneud hynny. Nid yw'r mesurau wedi'u bwriadu i fod yn gosbol. Mae'n arfer da gweithredu'r mesur rhagofalus lleiaf aflonyddol a fydd yn rheoli'r risgiau a nodwyd yn effeithiol. Pan fo myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn cael ei atal rhag cael mynediad i rai mannau neu gyfleusterau diriaethol, neu pan fo tarfu ar eu hastudiaethau, mae'n arfer da dogfennu'r rhesymau pam nad ystyriwyd bod dull llai aflonyddol yn briodol. Lle gallai mesur rhagofalus ymyrryd â hawliau myfyriwr neu aelod o staff o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, (er enghraifft yr hawl i ryddid mynegiant) dylai darparwyr ddogfennu'r rhesymau dros ystyried bod y camau'n gymesur.

120. Gall rhai mesurau rhagofalus gael effaith anghymesur neu anfwriadol ar rai myfyrwyr. Er enghraifft, gallai ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr astudio o bell fod yn anghydnaws ag addasiadau rhesymol myfyriwr anabl, neu gallai fod yn anodd ei alinio â'r gofynion presenoldeb sy'n ofynnol gan gyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol (PSRBs), neu sy'n gysylltiedig â fisa myfyriwr rhyngwladol. Mae'n arfer da ceisio nodi canlyniadau mesur rhagofalus a dogfennu rhesymau dros ystyried a yw camau o'r fath yn gymesur.

121. Dylai darparwyr fod yn hyblyg wrth ganfod dull sy'n briodol i'r amgylchiadau penodol. Gall mesurau rhagofalus ymwneud â'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad a'r myfyriwr neu'r aelod staff y gwnaed cwyn yn ei erbyn. O dan rai amgylchiadau, gall mesurau hefyd fod yn berthnasol i dystion neu grwpiau ehangach o fyfyrwyr, fel clybiau, cymdeithasau neu garfannau blwyddyn. Mae rhai enghreifftiau o fesurau rhagofalus yn cynnwys:

   a. Sicrhau nad oes gofyn i fyfyrwyr sy'n adrodd a myfyrwyr neu aelodau staff y gwaed cwyn yn eu herbyn gydweithio'n agos, er enghraifft trwy aildrefnu grwpiau seminar, grwpiau prosiect, neu leoliadau gwaith.
   b. Ychwanegu trydydd parti i arsylwi, er enghraifft, mewn sesiynau goruchwylio.
   c. Rhoi trefniant dim-cyswllt ar waith.
   d. Cyfyngu mynediad i fannau diriaethol penodol ar wahanol adegau o'r dydd neu ar ddiwrnodau penodol.
   e. Cyfyngu neu wahardd mynediad i leoliadau diriaethol penodol neu fannau ar-lein am gyfnod.
   f. Gwahardd mynediad i bob gofod diriaethol, ond galluogi myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn i barhau â'i astudiaethau o bell am gyfnod penodol.
   g. Tarfu ar astudiaethau myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn gyfan-gwbl am gyfnod penodol.

122. Lle bo'n berthnasol, gall darparwyr roi ystyriaeth i unrhyw amodau mechnïaeth neu orchmynion sifil megis gorchmynion atal neu orchmynion peidio-ag-aflonyddu, wrth roi mesurau rhagofalus ar waith.

## Cyfyngiadau ar fesurau rhagofalus

123. Fel arfer, gall darparydd gyfyngu mynediad i fannau diriaethol ac ar-lein y mae'n berchen arnynt neu'n eu rheoli, ond mae'n annhebygol y bydd ganddo unrhyw awdurdod i osod cyfyngiadau ar fynediad i fannau cyhoeddus neu fannau sy'n eiddo i drydydd parti annibynnol. Gellir cytuno ar gyfyngu mynediad myfyriwr neu aelod o staff y gwnaed cwyn yn ei erbyn i ofod cyhoeddus (megis bar neu gyfleuster hamdden arall) yn wirfoddol. Dylai darparwyr esbonio pryd na allant osod cyfyngiadau ar ddefnyddio mannau diriaethol neu ar-lein.

124. Mae'n bosibl y bydd darparwyr yn gallu ystyried cyfyngiadau i rai mannau sy'n eiddo i drydydd parti annibynnol lle mae trefniant partneriaeth yn bodoli eisoes, er enghraifft cyrff cynrychioli myfyrwyr, darparwyr llety myfyrwyr, darparwyr lleoliadau gwaith neu ddysgu yn y gweithle. Efallai y bydd darparwyr yn ei chael hi'n ddefnyddiol archwilio opsiynau damcaniaethol gyda phartneriaid rheolaidd, neu bartneriaid lle mae data presennol yn awgrymu bod problemau'n codi'n aml, er mwyn dod i ddealltwriaeth sylfaenol o'r hyn a allai fod yn bosibl, cyn digwyddiad penodol.

125. Dim ond trwy ddatgelu hunaniaeth y myfyriwr sy'n adrodd i'r myfyriwr neu'r aelod staff y mae wedi gwnaed cwyn yn ei erbyn y gellir gweithredu rhai mesurau rhagofalus wedi'u targedu. Dylai darparwyr esbonio hyn yn glir i fyfyrwyr sy'n adrodd. Mae'n bwysig parchu cyfrinachedd myfyrwyr sy'n cyflwyno adroddiad lle gofynnir am hyn, a chydnabod lle gallai datgelu eu hunaniaeth eu rhoi mewn mwy o berygl. Fodd bynnag, dylai darparwyr sicrhau nad yw hyn yn arwain at roi mesurau rhagofalus anghymesur ar waith fel cam diofyn.

## Ystyried effaith ac effeithiolrwydd mesurau rhagofalus

126. Efallai y bydd angen ymgynghori â staff mewn gwahanol rolau yn y darparydd neu mewn partneriaid ynghylch ymarferoldeb rhai mesurau rhagofalus. Er enghraifft, efallai y bydd angen ystyried gyda staff academaidd p'un a all myfyriwr gael mynediad at rywfaint o addysgu ar-lein yn hytrach nag wyneb-yn-wyneb, neu a yw'n briodol i fyfyriwr barhau i weithio ar gyflwyniadau academaidd ond heb fod yn bresennol mewn lleoliad gwaith. Dylai darparwyr fod yn ofalus ynghylch cyfrinachedd myfyrwyr sy'n adrodd a myfyrwyr y gwneir cwyn yn eu herbyn. Bydd angen i ddarparwyr ddangos doethineb wrth ddarparu digon o wybodaeth i alluogi'r rhai yr ymgynghorir â nhw i roi ymateb sy'n seiliedig ar y cyd-destun, heb rannu manylion diangen. Dylai darparwyr fod yn glir ynghylch pwy fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch pa fesurau rhagofalus i'w rhoi ar waith.

127. Mae'n arfer da ystyried barn y myfyriwr sy'n adrodd ynghylch effeithiolrwydd ac effaith mesurau rhagofalus. Gall darparwyr fabwysiadu dull cymesur sy'n seiliedig ar drawma wrth ystyried pa mor aml y dylent geisio mewnbwn gan fyfyrwyr sy'n adrodd ynghylch pa mor dda y mae unrhyw fesurau rhagofalus yn gweithio. Efallai na fydd hi bob amser yn bosibl ceisio barn y myfyriwr sy'n adrodd, er enghraifft, lle mae angen gweithredu'n gyflym. Mae'n bwysig egluro'n glir i fyfyrwyr sy'n adrodd, er bod eu barn yn cael ei hystyried, mai'r darparydd sy'n gyfrifol am y penderfyniad terfynol ynghylch pa fesurau, os o gwbl, i'w gweithredu.

128. Dylai darparwyr hefyd esbonio i fyfyrwyr sy'n adrodd sut i godi pryderon ynghylch gweithrediad unrhyw fesurau rhagofalus, er enghraifft os yw myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn parhau i gysylltu er gwaethaf cael cais i beidio â gwneud hynny. Mae gwybodaeth am ddiffyg cydymffurfio â mesur rhagofalus yn debygol o ysgogi ailasesiad o risg.

129. Er nad oes unrhyw ganfyddiadau disgyblu wedi'u gwneud, mae'n rhesymol i ddarparwyr ddisgwyl i fyfyrwyr gydymffurfio â'r mesurau rhagofalus y maent wedi'u gosod. Gall darparydd ystyried methu â chydymffurfio â mesurau rhagofalus fel mater disgyblu ar wahân. Yn aml, bydd yn gymesur ystyried ymddygiad o'r fath o fewn yr un broses ymchwilio yn hytrach na dechrau ymchwiliad disgyblu cwbl ar wahân.

130. Mae'n arfer da rhoi cyfle i'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn wneud sylwadau ynghylch effaith mesur rhagofalus, ac i ddogfennu'r rhesymau dros naill ai barhau â'r mesur rhagofalus neu ei newid. Pan nad yw myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn herio'r mesurau rhagofalus, mae'n dal i fod yn arfer da i'w hadolygu'n rheolaidd. Dylai darparwyr fod yn arbennig o ymwybodol ynghylch lles myfyrwyr a allai gael eu hynysu oddi wrth eu grŵp cyfoedion.

## Cyfnod y mesurau rhagofalus

131. Fel arfer, bwriedir i fesurau rhagofalus fod am gyfnod cymharol fyr, tan y caiff y broses ymchwilio ei chwblhau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gall parhau â mesurau rhagofalus fod yn ymateb boddhaol i adroddiad (gweler paragraffau 145 – 154).

132. Os bydd mesurau rhagofalus yn achosi aflonyddwch sylweddol i allu'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn i gymryd rhan yn ei astudiaethau a chael budd o'r ystod lawn o gyfleusterau sydd fel arfer ar gael gan y darparydd, a/neu os nad yw'r myfyriwr dan sylw yn cytuno â'r mesurau, ni ddylid eu gweithredu am gyfnod amhenodol. Po fwyaf yw'r effaith ar y sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn, y pwysicaf yw sefydlu p'un a yw rheolau a rheoliadau'r darparydd wedi'u torri, fel y gellir disodli mesurau rhagofalus â chosbau. Fel arfer, symud ymlaen â phroses ddisgyblu ffurfiol cyn gynted â phosibl yw'r ffordd fwyaf priodol o osod cyfyngiadau parhaus ar fyfyriwr.

133. Weithiau mae darparwyr yn cael eu hatal rhag symud ymlaen â phroses ddisgyblu, er enghraifft oherwydd bod yr heddlu'n ymchwilio i'r achos. Os bydd hyn yn digwydd, mae'n arfer da rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr sy'n adrodd a'r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn ynghylch unrhyw gynnydd neu amserlenni dangosol lle mae'r rhain yn hysbys. Dylid cymryd i ystyriaeth unrhyw ddymuniadau a fynegir gan y naill fyfyriwr a'r llall ynghylch pa mor aml y dylid cynnig diweddariadau o'r fath. Lle bo cyfnod estynedig o ansicrwydd, mae'n bwysig cynnig cefnogaeth i fyfyrwyr sy'n adrodd a'r rhai y maent yn cwyno amdanynt. Os bydd atal rhannol o ran mynediad i gyfleusterau yn parhau, gall hyn gael effaith negyddol ar gynnydd academaidd myfyriwr, yn ogystal ag ar eu mwynhad o'u hastudiaethau. Efallai y byddai'n well gan rai myfyrwyr y gwnaed cwyn yn eu herbyn roi'r gorau i'w hastudiaethau dros-dro, er mwyn eu galluogi i gymryd amser i ffwrdd, gyda dyddiad dychwelyd wedi'i gynllunio sy'n cyd-fynd â'u rhaglen astudio. Gall myfyrwyr y gwnaed cwyn yn eu herbyn elwa o fynediad at gyngor annibynnol ynghylch materion gan gynnwys modiwlau a gynigir yn y dyfodol, cyllid myfyrwyr, materion fisa, a llety yn yr amgylchiadau hyn.

# Ar ôl yr ymateb cychwynnol

## Crynodeb

Cyfrifoldeb y darparydd yw penderfynu pa gamau i'w cymryd mewn ymateb i ddatgeliad neu adroddiad. Rhaid i ddarparwyr bwyso a mesur buddiannau'r myfyriwr sy'n adrodd a'r risgiau y mae wedi tynnu sylw atynt.

Pa bynnag ddull y mae'r darparydd yn penderfynu ei weithredu, dylai ddogfennu ei resymau dros y penderfyniad, yn gymesur â'r datgeliad neu'r adroddiad. Mae'n arfer da esbonio'r penderfyniad hwn i'r myfyriwr sy'n adrodd, oni bai eu bod wedi gofyn am beidio â chael gwybod.

Os yw'r myfyriwr sy'n adrodd yn anfodlon â dewis y darparydd o ran dull gweithredu, dylid rhoi cyfle iddynt ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw.

134. Ar ôl i ddarparydd roi ymateb cychwynnol i fyfyriwr sy'n gwneud datgeliad neu adroddiad, dylai benderfynu pa gamau pellach, os o gwbl, y dylid eu cymryd. Wrth wneud y penderfyniad hwn, bydd angen i ddarparwyr ystyried:

    a. Dymuniadau'r myfyriwr a rannodd wybodaeth am yr aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol. Yn gyffredinol, byddai myfyrwyr sy'n cyflwyno adroddiad yn dymuno i'r darparydd gymryd rhyw fath o gamau gweithredu. Efallai na fydd myfyrwyr sydd wedi gwneud datgeliad eisiau i ddarparydd gymryd camau pellach. Dylai darparwyr ganolbwyntio ar gynnwys yr hyn y mae'r myfyriwr wedi'i rannu, yn hytrach na'r ffurf neu'r mecanwaith a ddefnyddiwyd i gyfleu'r wybodaeth.

    b. Y risgiau y mae wedi'u nodi i'r myfyriwr sy'n adrodd, y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn ac aelodau eraill o'u cymuned, a sut y gall y rhain amlygu eu hunain neu gael eu lliniaru trwy gymryd camau gweithredu penodol. Dylai darparwyr roi ystyriaeth ofalus i farn y myfyriwr sy'n adrodd, yn enwedig lle mae'r unigolyn yn teimlo bod yna risg o niwed pellach. Nid yw'n briodol rhoi pwysau ar fyfyrwyr sy'n adrodd i gymryd rhan mewn proses ffurfiol os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny.

135. Dylai darparwyr sefydlu mecanweithiau i nodi achosion lle nad yw datgeliad neu adroddiad unigol wedi darparu digon o wybodaeth i ysgogi camau gweithredu pellach, ond lle mae datgeliadau neu adroddiadau cronnus yn dangos y gallai hyn fod yn briodol.

136. Os nad y myfyriwr sy'n adrodd yw'r myfyriwr yr effeithiwyd arno'n uniongyrchol gan yr ymddygiad a ddisgrifiwyd, bydd angen i'r darparydd benderfynu a ddylid cysylltu â'r myfyriwr hwnnw. Efallai na fydd yn briodol gwneud hynny os yw'r adroddiad yn nodi bod y myfyriwr yn dymuno bod yn ddienw neu am i'r sefydliad beidio â chysylltu â nhw, neu lle gallai cysylltu â nhw beri risg iddynt. Dylai'r myfyriwr yr effeithiwyd arno dderbyn yr un math o gefnogaeth â'r hyn sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n cyflwyno adroddiad.

137. Gall darparwyr ddewis o blith sawl dull gwahanol, gan gynnwys:

a. Dim camau ymchwilio pellach
b. Datrysiad anffurfiol
c. Casglu gwybodaeth y tu allan i broses ddisgyblu myfyrwyr neu staff gan ganolbwyntio ar yr effaith a brofwyd gan y myfyriwr sy'n adrodd
d. Atgyfeirio'r unigolyn at weithdrefnau amgen gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer astudio neu weithdrefnau addasrwydd i arfer
e. Atgyfeirio'r achos at yr heddlu
f. Ymchwiliad ffurfiol o dan broses ddisgyblu staff
g. Ymchwiliad ffurfiol o dan broses ddisgyblu myfyrwyr

138. Dylai myfyriwr sy'n cyflwyno adroddiad allu gofyn am adolygiad ynghylch y dull y mae'r darparydd yn penderfynu ei weithredu (gweler **paragraffau 298 - 303**). Pa bynnag ddull y mae darparydd yn ei weithredu, dylai barhau i gyfeirio myfyrwyr at gefnogaeth ar gyfer eu llesiant.

# Amserlenni

139. Mae'n debygol y bydd y gwahanol ddulliau y gall darparydd eu gweithredu i gyrraedd datrysiad ar ôl yr ymateb cychwynnol i ddatgeliad neu adroddiad yn cymryd gwahanol gyfnodau o amser. Bydd cymhlethdod y mater dan sylw yn effeithio ar ba mor gyflym y gellir ei ddatrys. Pa bynnag lwybr a ddilynir, dylai darparwyr geisio dod o hyd i ddatrysiad cyn gynted â phosibl. Mae'n arfer da rhoi amserlenni dangosol i fyfyrwyr ar gyfer y camau nesaf mewn proses, a'u hysbysu ynghylch y cynnydd neu unrhyw oedi.

140. Mae ffactorau dilys a all ymestyn yr amser mae'n cymryd i gyrraedd datrysiad yn cynnwys:

a. Cymryd i ystyriaeth effaith y broses ar ddigwyddiadau arwyddocaol eraill i'r myfyrwyr dan sylw, fel cyfnodau asesu
b. Absenoldeb anochel y person sy'n adrodd, y sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn neu dystion eraill, megis absenoldeb oherwydd salwch
c. Pwyllo fel rhan o ddull sy'n seiliedig ar drawma
d. Yr angen i gasglu gwybodaeth gan nifer fawr o dystion neu o ffynonellau'r tu allan i'r darparydd
e. Yr angen i atal camau gweithredu tra'n disgwyl canlyniad camau gweithredu gan yr heddlu neu asiantaethau statudol eraill.

# A. Dim camau ymchwilio pellach

141. Pan fo datgeliad wedi'i wneud at ddiben ceisio cymorth yn unig, bydd yn aml yn briodol i'r darparydd beidio ag ymchwilio i'r hyn sydd wedi digwydd. Mae hyn yn amodol ar unrhyw risgiau a nodwyd yn cael eu rheoli'n briodol yn absenoldeb ymchwiliad. Gall darparydd hefyd benderfynu na all gymryd unrhyw gamau pellach i ymchwilio i adroddiadau sy'n brin o wybodaeth am ddigwyddiadau neu ymddygiadau penodol, nad ydynt yn cynnwys digon o wybodaeth i adnabod y sawl y cwynir amdanynt neu sy'n ddienw.

142. Weithiau efallai y bydd myfyriwr sy'n adrodd wedi rhannu pryder na allai fod yn gyfystyr â thorri safonau ymddygiad disgwyliedig y darparydd. Er enghraifft, lle cafodd yr ymddygiad ei gyflawni gan rywun nad yw'n rhan o gymuned y darparydd, neu lle mae'n amlwg nad yw'r digwyddiad yn bodloni diffiniadau'r darparydd o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol. O dan yr amgylchiadau hyn, ni ddylai darparydd gynnal ymchwiliad disgyblu hyd yn oed os dyna beth fyddai'r myfyriwr sy'n adrodd yn ei ddymuno.

143. Os oes gan ddarparydd reswm da i ystyried bod adroddiad wedi'i wneud yn anonest, neu ei fod yn adroddiad sydd wedi'i gyflwyno gan fyfyriwr o'r blaen a bod ymchwiliad eisoes wedi'i gynnal, efallai y byddai'n briodol peidio â chymryd unrhyw gamau pellach i fynd ati i ymchwilio iddo. Gallai gwneud adroddiadau dro ar ôl tro am yr un mater, neu wneud adroddiadau ffug yn fwriadol, fod yn gyfystyr ag aflonyddu ar unigolyn arall, a gall darparwyr ystyried ymddygiad o'r fath yn fater disgyblu. Fodd bynnag, dylai darparwyr esbonio'n glir y gall myfyrwyr wneud sawl adroddiad am wahanol ddigwyddiadau, ac na fydd datgeliadau neu adroddiadau a wneir yn ddidwyll yn arwain at unrhyw gamau disgyblu. Mae'n ddefnyddiol egluro'r gwahaniaeth rhwng adroddiad a wneir yn ddidwyll nad yw o bosibl yn arwain at unrhyw ganfyddiadau disgyblu clir, ac adroddiad sy'n cynnwys anwiredd bwriadol neu sydd â'r prif nod o achosi niwed i berson arall.

144. Pan fydd darparydd yn penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau ymchwilio pellach, dylai gofnodi ei resymau. Oni bai bod y myfyriwr sy'n adrodd yn ddienw, neu eu bod wedi gofyn am beidio â chael y wybodaeth ddiweddaraf, dylai'r darparydd esbonio ei benderfyniad i'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad.

# B. Datrysiad anffurfiol

145. Gall datrysiad anffurfiol alluogi darparwyr i ddod o hyd i ddatrysiad sy'n dderbyniol i fyfyrwyr sy'n adrodd a'r rhai y gwnaed cwyn yn eu herbyn. Nid oes dull penodol ar gyfer datrys anffurfiol; mae'r term yn disgrifio dull pragmataidd a chymesur sy'n ymatebol i'r amgylchiadau penodol. Bydd datrysiad anffurfiol llwyddiannus yn aml yn canolbwyntio ar ba gamau gweithredu sydd o fudd i fyfyrwyr wrth symud ymlaen, yn hytrach na cheisio sefydlu dehongliad pendant o rywbeth sydd wedi digwydd neu fynd ati i osod bai. Mae'n bwysig ystyried a fydd unrhyw fath o ddatrysiad anffurfiol yn ddigonol i reoli unrhyw risgiau sydd wedi dod i'r amlwg.

146. Gellir cymryd rhai mesurau i ddatrys pryderon myfyriwr sy'n adrodd nad ydynt yn gofyn am unrhyw gyfathrebu â'r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn. Er enghraifft, os mai dyma fyddai'r myfyriwr sy'n adrodd yn ei chael yn ddefnyddiol, efallai y bydd darparydd yn gallu eu cynorthwyo trwy wneud newidiadau i'w grwpiau addysgu, amserlen, goruchwyliaeth, neu drefniadau llety, er mwyn lleihau eu cyswllt ag unigolyn arall. Gallai darparwyr hefyd ystyried monitro ychwanegol o leoliad penodol neu gyfres o negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol; neu ddarparu hyfforddiant i staff a/neu fyfyrwyr yn gyffredinol.

147. Math cyffredin o ddatrysiad anffurfiol yw trefniant dim-cyswllt, a all fod gydol cyfnod astudio'r myfyriwr sy'n adrodd neu gyfnod astudio'r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn. Er enghraifft, gall myfyrwyr gytuno i beidio â chysylltu â'i gilydd. Gall myfyriwr gytuno i symud i lety arall. Mae'r dull hwn yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus pan nad yw'r mesurau'n cael effaith sylweddol ar allu'r naill barti na'r llall i ymgysylltu â'u hastudiaethau neu eu gwaith. Er enghraifft, mae myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn cytuno i beidio â defnyddio ardal astudio benodol ar y campws, ond mae'n gallu defnyddio sawl lle arall. Yn yr achosion hyn, efallai y byddai'n ddefnyddiol egluro i fyfyrwyr y gwnaed cwyn yn eu herbyn na fydd cytuno i'r trefniant yn cael ei ddehongli fel cyfaddefiad o unrhyw gamwedd.

148. Gall person nad oedd yn ymwybodol o effaith ei ymddygiad neu nad oedd yn bwriadu i'w ymddygiad gael yr effaith a gafodd, gytuno i gynnig ymddiheuriad fel rhan o ddatrysiad anffurfiol. Gallant hefyd gytuno i ymgymryd â rhywfaint o weithgaredd i ddyfnhau eu dealltwriaeth ynghylch pam y cafodd eu hymddygiad yr effaith hon.

149. Gall datrys anffurfiol gynnwys math o ddeialog wedi'i hwyluso, megis cyfryngu. Gall deialog wedi'i hwyluso fod yn ddefnyddiol mewn achosion lle nad yw rhywun yn ymwybodol o'r effaith y mae eu hymddygiad wedi'i chael ar aelod arall o gymuned y darparydd neu lle mae angen help ar berson i ddeall a llywio normau diwylliannol a allai fod yn newydd iddynt. Efallai y bydd myfyriwr sy'n adrodd eisiau bod yn rhan o'r ddeialog neu efallai y bydd yn well ganddo i'r darparydd yn unig siarad â'r person arall.

150. Rhaid i brosesau cyfryngu fod yn wirfoddol. Nid yw'n briodol gorfodi unrhyw aelod o gymuned y darparydd i gymryd rhan mewn proses gyfryngu. Dylid cael caniatâd gan y naill ochr a'r llall ar gyfer hyn, a gall cyfranogwyr ddewis tynnu'n ôl o'r broses. Ni ddylai darparwyr ddod i unrhyw gasgliadau ynghylch hygrededd na gwerth y wybodaeth y mae myfyriwr wedi'i darparu oherwydd eu bod yn amharod i gymryd rhan yn y prosesau hyn.

151. Gall cyfryngwyr fod yn aelodau o gymuned y darparydd neu'n o'r tu allan iddi. Mae cyfryngu yn weithgaredd sy'n gofyn am gryn lawer o sgiliau, ac mae'n fuddiol i ddarparwyr hyfforddi unrhyw aelodau o'u cymuned y mae'n eu penodi i gyflawni'r rôl hon, a chynnig cymorth lles iddynt.

152. Mae gwybodaeth a gesglir yn ystod prosesau cyfryngu fel arfer yn gyfrinachol i'r broses honno. Mae'n arfer da llunio cytundeb ysgrifenedig ar gyfer cyfryngu, a chael pob parti i'w lofnodi ar ddechrau'r broses gyfryngu. Dylai'r cytundeb nodi telerau/egwyddorion y cyfryngu, gan gynnwys cyfrinachedd.

153. Ni fydd cyfryngu yn briodol ar gyfer datrys achosion o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol lle mae unrhyw arwydd o reolaeth orfodol neu lle mae anghydbwysedd pŵer sylweddol, fel rhwng aelod o staff a myfyriwr.

154. Lle ceisir unrhyw fath o ddatrysiad anffurfiol ond nad yw'n llwyddiannus, gall darparwyr ystyried a yw'n briodol symud i ddull amgen (wedi'i restru ym mharagraff 137). Os yw math o ddatrysiad anffurfiol yn llwyddiannus, ni fydd fel arfer yn angenrheidiol cynnig yr hawl i unrhyw fyfyriwr ofyn i hyn gael ei adolygu, nac i gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn awtomatig.

## C. Casglu gwybodaeth y tu allan i broses ddisgyblu myfyrwyr neu staff sy'n canolbwyntio ar yr effaith a brofwyd gan y myfyriwr sydd wedi cyflwyno'r adroddiad

155. Fel arfer nid yw'n bosibl cynnal ymchwiliad ffurfiol o dan weithdrefn disgyblu myfyrwyr os yw'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn wedi gadael y darparydd. Mae hyn oherwydd nad oes yna fel arfer berthynas gytundebol bellach rhwng y darparydd a'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn, y mae gweithdrefnau o'r fath yn gweithredu oddi tani. (Mae'n bosibl y bydd rhai darparwyr yn cynnal perthynas gytundebol wahanol â chyn-fyfyrwyr ac yn gweithredu rheoliadau disgyblu ffurfiol o fewn y berthynas honno). Os oedd y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn ar gwrs oedd yn arwain at gymhwyster mewn proffesiwn rheoleiddiedig, dylai darparwyr geisio cyngor gan y Corff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol (PSRB) perthnasol ynghylch unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol a allai fod ganddynt ynghylch addasrwydd y myfyriwr i barhau â'i yrfa. Efallai y bydd darparwyr yn ei chael hi'n ddefnyddiol datblygu polisi ynghylch y ffenestr amser ar gyfer ystyried dechrau neu ailgychwyn ymchwiliad disgyblu pe bai myfyriwr yn ailymuno â'r darparydd.

156. Yn achos aelodau staff y gwnaed cwyn yn eu herbyn ac sydd wedi gadael y darparydd, efallai y bydd angen i ddarparwyr geisio cyngor gan arbenigwr cyfraith cyflogaeth ynghylch i ba raddau y gellir gwneud canfyddiadau disgyblu. Dylid hefyd archwilio cyfrifoldebau'r darparydd ym meysydd diogelu, cynnig geirda ac addasrwydd yr aelod staff i barhau â'i yrfa mewn proffesiwn rheoleiddiedig (lle bo'n berthnasol).

157. Efallai y bydd darparydd yn gallu cynnal ymchwiliad o hyd o dan ei weithdrefnau disgyblu os nad yw'r myfyriwr a ddaeth â'r mater i'w sylw'n cytuno i gymryd rhan yn yr ymchwiliad

hwnnw. Er enghraifft, lle mae tystiolaeth annibynnol yn bodoli am yr ymddygiad (e.e. lluniau teledu cylch cyfyng, postiadau ar gyfryngau cymdeithasol) efallai na fydd tystiolaeth y sawl a ddaeth â'r gŵyn at y darparydd am y mater yn hollbwysig. Ond mewn llawer o achosion, mae'n debygol y bydd darparydd yn penderfynu na all gynnal ymchwiliad disgyblu teg os nad yw'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad yn cymryd rhan yn y broses neu os nad yw am i'w hunaniaeth fod yn hysbys.

158. Gall hefyd fod yn anodd cynnal ymchwiliad teg o dan broses ddisgyblu lle mae amser sylweddol wedi mynd heibio ers y digwyddiad neu'r ymddygiad y gwnaed adroddiad amdano. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai na fydd y sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn cael cyfle teg i gyflwyno amddiffyniad o dan broses ddisgyblu.

159. Yn yr amgylchiadau a nodir ym **mharagraffau 156-158**, gall ymchwiliad y tu allan i broses ffurfiol ar gyfer disgyblu staff neu fyfyrwyr fod yn ystyrlon o hyd. Ni fyddai ymchwiliad o'r fath yn canolbwyntio ar ymddygiad unigolyn; ni all ymchwiliad y tu allan i broses ddisgyblu ddod i ganfyddiadau ffurfiol bod unigolyn y gwnaed cwyn yn ei erbyn wedi gweithredu'n groes i'r safonau ymddygiad a ddisgwylir ganddynt. Ond efallai y bydd ymchwiliad yn gallu nodi gwersi a ddysgwyd, materion diwylliannol neu systemig y gellir mynd i'r afael â nhw, a chyfleoedd i wella polisi a phroses. Mae'n ddefnyddiol egluro i fyfyrwyr sy'n cyflwyno adroddiad y mathau o ganlyniadau a allai fod yn bosibl o dan y dull hwn.

## D. Cyfeirio'r mater at weithdrefnau amgen neu ychwanegol

160. Mewn rhai amgylchiadau mae'n bosibl y byddai'n briodol defnyddio proses **Cymorth ar gyfer Astudio** Gallai hwn fod yn llwybr priodol lle nad yw'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn mewn cyflwr ar hyn o bryd i gymryd rhan mewn datrysiad anffurfiol na phroses ymchwiliad disgyblu. Neu efallai y bydd yn briodol lle mae'r myfyriwr dan sylw'n dangos lefel o risg, iddo'i hun neu i bobl eraill, sy'n rhy uchel i'r darparydd ei rheoli trwy eu gweithdrefnau cymorth arferol. Mewn rhai achosion, efallai y bydd y lefel hon o risg yn gysylltiedig â chyflwr iechyd â diagnosis neu heb ddiagnosis, ond nid oes angen iddi fod. Weithiau gallai datgeliad neu adroddiad awgrymu y gallai'r myfyriwr sy'n cyflwyno'r adroddiad elwa o gymorth ychwanegol o dan broses Cymorth ar gyfer Astudio.

161. Mewn achosion lle na all y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn gymryd rhan mewn proses ddisgyblu neu broses arall, dylid hysbysu'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad, ond ni fydd fel arfer yn briodol i'r darparydd rannu manylion am iechyd y sawl y cwynwyd amdano. Dylai darparwyr ddal ati i gynnig y gefnogaeth i'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad, a all gynnwys parhad â'r mesurau rhagofalus nes bod y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn gallu cymryd rhan mewn proses ymchwilio.

162. Gall darparwyr benderfynu dechrau neu ailgychwyn proses ddisgyblu ar ôl defnyddio proses cymorth i astudio, pan fydd y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn gallu cymryd rhan.

163. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddai hefyd yn briodol defnyddio proses [Addasrwydd i Arfer] os yw'r myfyriwr y cwynwyd amdano'n astudio tuag at gymhwyster sy'n cael ei achredu'n broffesiynol neu gymhwyster mewn proffesiwn a reoleiddir. Fel arfer, bydd yn briodol cynnal ymchwiliad i sefydlu beth sydd wedi digwydd ar sail tebygolrwydd, ac ystyried y canfyddiadau hynny ar wahân trwy lens disgwyliadau'r darparydd ynghylch ymddygiad, a gofynion y proffesiwn dan sylw.

## E. Ymchwiliadau gan yr heddlu

164. Fel arfer, ni fydd darparydd yn gallu cynnal ymchwiliad o dan eu gweithdrefnau disgyblu tra bod ymchwiliad gan yr heddlu'n mynd rhagddo. Fel arfer, dylai'r darparydd barchu hawl y sawl a gyflwynodd yr adroddiad i benderfynu a yw am wneud adroddiad i'r heddlu. Fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron lle bydd angen i ddarparydd roi gwybod am y digwyddiad(au) i'r heddlu neu gymryd camau eraill i ddiogelu eu cymuned lle mae wedi canfod y posibilrwydd o risg i ddiogelwch neu lesiant rhywun. Gall Adran 7 o'r **Canllawiau Prifysgolion y DU ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch: Sut i Ymdrin â Chamymddygiad Honedig gan Fyfyrwyr a All Hefyd Fod yn Drosedd** fod yn declyn defnyddiol ar gyfer helpu darparwyr i feddwl beth i'w ystyried wrth benderfynu a ddylid datgelu gwybodaeth i'r heddlu ai peidio heb ganiatâd y myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad.

165. Gall ymchwiliad gan yr heddlu osod gofynion ar ddarparydd sy'n gwrthdaro ag arfer da o fewn eu harferion mewnol, er enghraifft trwy orfodi cyfnodau hir o oedi, neu atal darparwyr rhag rhannu gwybodaeth â'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad neu'r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn, neu'r ddau ohonynt, er mwyn diogelu uniondeb ymchwiliad yr heddlu. Dylai darparwyr ddogfennu'r rhesymau os a phryd nad ydynt yn gallu cymryd camau y byddent fel arall yn eu gweithredu, oherwydd ymchwiliad gan yr heddlu. Dylai darparwyr barhau i flaenoriaethu cefnogaeth i fyfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y gweithdrefnau hyn ac ailystyried asesiadau risg pan fydd yna unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau.

## F. Ymchwiliad ffurfiol o dan broses ddisgyblu staff

### Crynodeb

Dylai darparwyr esbonio i fyfyrwyr sy'n cyflwyno adroddiad sut mae prosesau disgyblu staff yn gweithio, ynghyd â'r posibilrwydd y gellir gofyn iddynt gymryd rhan. Dylai darparwyr gefnogi myfyrwyr sy'n cyflwyno adroddiad yn ystod ac ar ôl y broses.

Nid yw'n ddigon dim ond dweud wrth fyfyriwr sy'n cyflwyno adroddiad bod eu hadroddiad yn cael ei ddwyn ymlaen o dan broses ddisgyblu staff. Dylid rhoi canlyniad i fyfyriwr ar gyfer ei gŵyn sy'n rhoi sicrwydd iddo ynghylch ei ymgysylltiad parhaus â'r darparydd, p'un a gafodd yr achos yn erbyn yr aelod staff ei gadarnhau a/neu y dyfarnwyd cosbau ai peidio.

166. Cylch gwaith Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yw ystyried cwynion gan fyfyrwyr, ac nid oes yna unrhyw ddyletswydd arnom i ystyried prosesau'r darparydd sy'n ymwneud â staff, ac eithrio pan fo'r rhain yn ymwneud yn uniongyrchol â myfyrwyr. Nid yw'r Fframwaith Arfer Da yn berthnasol yn uniongyrchol i'r prosesau y gallai darparydd eu dilyn i ymchwilio i adroddiad am aelod o staff nac i weithdrefnau camymddygiad staff, er y gall darparwyr benderfynu cymhwyso'r egwyddorion a amlinellir. Bydd y prosesau y gall darparwyr eu dilyn yn dibynnu ar eu gwahanol gyfrifoldebau cyfreithiol a chontractau cyflogaeth, sydd y tu hwnt i gwmpas y canllaw hwn.

167. Mae'n briodol, ac yn gydnaws â rhwymedigaethau Rhyddid Gwybodaeth llawer o ddarparwyr, i sicrhau bod gwybodaeth sy'n disgrifio prosesau disgyblu staff ar gael i'r cyhoedd. Pan fydd darparydd yn penderfynu ymchwilio i adroddiad gan fyfyriwr o dan ei brosesau disgyblu staff, dylai wneud y canlynol:

a. Esbonio i'r myfyriwr sy'n adrodd ei bod yn bosibl y gofynnir iddynt am fwy o wybodaeth nag sydd wedi'i chynnwys yn eu hadroddiad ysgrifenedig
b. Esbonio a fyddant yn cael cyfle i weld ac ymateb i unrhyw wybodaeth a gyflwynir gan yr aelod staff y gwnaed cwyn yn ei erbyn neu a gasglwyd o ffynonellau eraill gan gynnwys tystion eraill
c. Archwilio gyda'r myfyriwr a allant fynychu unrhyw wrandawiad disgyblu, gan egluro eu hawl i gael eu hebrwng i'r gwrandawiad gan gefnogwr (gweler paragraffau 216 - 225) a hefyd egluro pa gamau a gymerir i'w cefnogi i deimlo'n ddiogel mewn gwrandawiad.

168. Pan fydd adroddiad am aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol yn arwain at ymchwiliad o dan weithdrefn camymddwyn staff, rhaid rhoi gwybod i'r myfyriwr a wnaeth y gŵyn am ganlyniad ei adroddiad (gweler paragraffau 269 - 276).

# G. Ymchwiliad ffurfiol o dan broses ddisgyblu staff

169. Mae gweddill yr adran hon yn rhoi manylion ychwanegol am arfer da wrth weithredu proses ddisgyblu myfyrwyr.

# Hysbysu'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn am yr adroddiad

## Crynodeb

Wrth hysbysu myfyrwyr am adroddiad sydd wedi'i ddwyn yn eu herbyn, dylai darparwyr fod yn ymwybodol o'r effaith y bydd hyn yn ei chael a chyfeirio'r myfyriwr y cwynwyd amdano at ffynonellau cymorth.

170. Bydd yr asesiad risg y mae darparydd wedi'i lunio ar ôl derbyn adroddiad yn berthnasol o ran penderfynu pryd a sut i ddweud wrth y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn am adroddiad sydd wedi'i wneud ynghylch ei ymddygiad. Fel arfer, mae'n briodol hysbysu'r myfyriwr y cwynwyd amdano am adroddiad yn fuan ar ôl i'r darparydd benderfynu y bydd yn cychwyn ymchwiliad o dan eu gweithdrefnau disgyblu myfyrwyr. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd yn briodol cymryd camau i gasglu neu sicrhau rhywfaint o dystiolaeth cyn cymryd y cam hwn.

171. Dylai darparwyr benderfynu, ar sail ar eu gwybodaeth am y myfyriwr unigol, ynghylch sut i hysbysu'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn y bydd ymchwiliad disgyblu yn cael ei gynnal. Efallai y byddai'n briodol hysbysu'r myfyriwr yn ysgrifenedig, neu gynnig galwad ffôn, cyfarfod ar-lein neu wyneb-yn-wyneb.

172. Dylai darparwyr ystyried amseriad unrhyw hysbysiad fel nad yw myfyrwyr yn cael eu hysbysu ar adeg pan na fydd cymorth ar gael. Gall darparwyr hefyd ystyried effaith bosibl yr hysbysiad (er enghraifft, ar unrhyw asesiadau academaidd pwysig). Er enghraifft, gallai fod yn ddoethach oedi am ychydig ddyddiau cyn belled ag y gellir rheoli risgiau'n ddigonol, yn enwedig lle na fyddai'r ymddygiad y gwnaed adroddiad amdano'n debygol o ddenu cosbau difrifol pe bai'n cael ei brofi.

173. Os gofynnir i fyfyriwr fynychu cyfarfod hysbysu, mae'n arfer da cynnal hwn cyn gynted â phosibl, er mwyn lleihau'r cyfnod o ansicrwydd i'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn. Efallai y bydd y myfyriwr yn dymuno dod â chefnogwr yn gwmni i'r cyfarfod hwn, a bydd fel arfer yn briodol hwyluso hyn. Os yw myfyriwr y cwynwyd amdano'n gofyn am amser ychwanegol, dylai'r darparydd ystyried eu rhesymau dros hyn yn ofalus.

174. Os trefnir galwad ffôn neu gyfarfod, dylai darparwyr esbonio pwrpas y sgwrs i'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn. Fel arfer, bydd y broses yn canolbwyntio'n bennaf ar hysbysu'r myfyriwr am yr adroddiad a darparu cefnogaeth, ac ni fydd yn dechrau casglu tystiolaeth gan y myfyriwr yr adroddwyd amdano.

175. Os trefnir galwad ffôn neu gyfarfod, mae'n well i hyn gael ei gynnal gan aelod o staff nad yw eisoes wedi bod yn darparu cefnogaeth i'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad nac i dystion eraill.

176. Fel arfer nid oes angen gwneud cofnod gair-am-air o'r hyn a ddwedir yn y sgwrs gychwynnol hon. Mae'n arfer da i'r aelod staff sy'n cynnal y sgwrs wneud nodyn o'r prif bwyntiau a drafodwyd. Ar ôl y cyfarfod, mae'n arfer da llunio crynodeb o gynnwys y drafodaeth a rhannu hyn â'r myfyriwr.

177. P'un a wneir yr hysbysiad ar lafar neu'n ysgrifenedig, dylid:

a. Cynnwys gwybodaeth gryno am natur y mater disgyblu sy'n cael ei ystyried
b. Cyfeirio'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn at ffynonellau cymorth
c. Hysbysu'r myfyriwr am ei hawl i ddod â chefnogwr yn gwmni i unrhyw gyfarfodydd.
d. Mewn rhai achosion, lle mae risg eisoes wedi'i nodi, efallai y bydd yn briodol hysbysu'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn am fesurau rhagofalus sy'n cael eu rhoi ar waith a sut y gall y myfyriwr dan sylw geisio unrhyw amrywiad yn y mesurau hyn.
e. Cyfeirio'r myfyriwr at ble y gall ddod o hyd i wybodaeth am y broses ddisgyblu, neu amlinellu
    i. pryd y bydd cyfle gan y myfyriwr i dderbyn rhagor o wybodaeth am yr adroddiad;
    ii. pryd y byddant yn gallu ymateb;
    iii. pwy y disgwylir iddynt gynnal yr ymchwiliad;
    iv. beth fydd yn digwydd os bydd y myfyriwr yn derbyn bod ei ymddygiad wedi methu â chyrraedd y safonau disgwyliedig;
    v. beth allai fod y canlyniadau posibl o'r broses

178. Ar ôl i'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn gael ei hysbysu, fel arfer bydd yn briodol dechrau'r broses o gasglu mwy o wybodaeth. Fodd bynnag, yn dibynnu ar ymateb cychwynnol y myfyriwr sy'n cyflwyno'r adroddiad, gall darparwyr:

a. Ailystyried yr asesiad o risgiau a chamau lliniaru, gan gynnwys mesurau rhagofalus
b. Ailystyried a allai unrhyw ddull arall sicrhau canlyniad boddhaol, gan gynnwys opsiynau ar gyfer datrysiad anffurfiol
c. Ailystyried a allai unrhyw broses arall, gan gynnwys Cymorth ar gyfer Astudio, fod yn berthnasol
d. Ailystyried a yw'n briodol cyflwyno adroddiad i'r heddlu

179. Dylai darparwyr roi gwybod i fyfyrwyr sy'n cyflwyno adroddiad am unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol, yn enwedig lle gallai fod rheswm i symud oddi wrth broses ddisgyblu lawn.

# Y cam ymchwilio a chasglu gwybodaeth

## Crynodeb

Dylai darparwyr benodi ymchwilwyr nad ydynt yn darparu cymorth llesiant i'r myfyrwyr dan sylw.

Dylai ymchwilwyr arfer synnwyr cyffredin wrth fynd ati i gasglu gwybodaeth, gan fabwysiadu dull sy'n blaenoriaethu llesiant yr holl fyfyrwyr sy'n ymwneud â'r broses.

Bydd angen i ymchwilwyr ystyried pob achos yn unigol wrth benderfynu sut i ymateb i unrhyw ddatgeliadau, adroddiadau neu wrth-hawliadau ychwanegol.

Mae'n arfer da dogfennu'r rhesymau dros unrhyw ddewisiadau a wneir ynghylch sut i gynnal yr ymchwiliad.

Unwaith y bydd yr ymchwilydd yn ystyried ei fod wedi cwblhau'r broses o gasglu gwybodaeth, mae'n arfer da paratoi adroddiad y gellir ei rannu â'r myfyrwyr sy'n cyflwyno'r adroddiad a'r sawl y gwneir cwyn yn eu herbyn, yn amodol ar unrhyw ofynion preifatrwydd.

## Penodi'r ymchwilydd

180. Pan fydd y darparydd yn penderfynu cynnal ymchwiliad disgyblu i ymddygiad myfyriwr, dylai benodi ymchwilydd cyn gynted â phosibl. Ble bynnag y bo modd, dylid hyfforddi'r ymchwilydd ynghylch sut i gasglu a gwerthuso gwybodaeth gan ddefnyddio technegau sy'n seiliedig ar drawma. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae'r ymddygiad eisoes wedi cael effaith ddifrifol ar y person a gyflwynodd yr adroddiad.

181. Yn unol ag egwyddor tegwch, ni ddylai'r ymchwilydd a benodir fod wedi ymwneud â'r materion a ystyriwyd yn achos myfyriwr o'r blaen. Mae hyn yn golygu na ddylai'r ymchwilydd fod yn berson sy'n rhoi cefnogaeth i'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad, y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn na thystion, lle mae'r gefnogaeth hon yn mynd y tu hwnt i roi cyngor am y gweithdrefnau adrodd a disgyblu. Os ceisiwyd cynnal deialog wedi'i hwyluso neu gyfryngu, ond y bu hynny'n aflwyddiannus, ni ddylai'r person a arweiniodd y drafodaeth honno gynnal yr ymchwiliad disgyblu.

182. Gall fod yn ddefnyddiol rhoi cyfle i'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad a'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn godi pryderon am yr unigolyn a benodwyd fel ymchwilydd cyn gynted â phosibl, cyn rhannu unrhyw wybodaeth gyfrinachol. Mae hyn yn galluogi'r darparydd i ystyried a oes gan y naill fyfyriwr neu'r llall sail resymol dros unrhyw bryderon a godwyd a mynd i'r afael ag unrhyw ganfyddiadau gwirioneddol neu resymol o ragfarn. Mae hyn hefyd yn helpu i roi rhywfaint o ddilysrwydd a hyder i fyfyrwyr yn y broses ymchwilio (gweler Fframwaith Arfer Da - Rhagfarn a'r canfyddiad o ragfarn).

183. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn briodol ac yn rhesymol i ddarparydd benodi aelod staff mewnol i gynnal yr ymchwiliad. Yn yr un modd, gall darparwyr benderfynu penodi cwmni/ymchwilydd allanol i gynnal yr ymchwiliad ar eu rhan. Gall hyn fod yn fanteisiol o ran cynyddu capasiti darparydd neu fynediad at arbenigedd. Lle mae darparydd yn dewis gwneud hyn, mae'n dal i fod yn gyffredinol gyfrifol am y broses a ddilynir ac unrhyw benderfyniadau a wneir.

184. Mae'n bosibl y bydd darparwyr am ystyried trefniadau i ddefnyddio adnoddau o fewn trefniadau partneriaeth sy'n bodoli eisoes neu fynd ati i sefydlu partneriaethau â darparwyr eraill yn benodol er mwyn cynnig mynediad at adnoddau ychwanegol annibynnol i'w gilydd.

## Casglu gwybodaeth

185. Ni fydd gan ymchwilwyr yr un mynediad at adnoddau â'r rhai sy'n cynnal ymchwiliadau troseddol. Ni all darparwyr orfodi unigolion i gydweithredu mewn ymchwiliadau na darparu tystiolaeth, ond dylent wneud popeth o fewn eu gallu i gael gafael ar gymaint o wybodaeth berthnasol â phosibl. Gall hyn gynnwys:

a. Cyfweld neu ofyn am ragor o wybodaeth gan y myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad
b. (lle mae hyn yn wahanol) cyfweld neu ofyn am wybodaeth gan unigolion eraill a brofodd yr ymddygiad yn uniongyrchol
c. Cyfweld neu ofyn am wybodaeth gan y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn
d. Cyfweld neu ofyn am wybodaeth gan dystion perthnasol eraill
e. Gofyn am dystiolaeth berthnasol gan fyfyrwyr sy'n adrodd, staff a myfyrwyr sy'n destun yr adroddiad a thystion, a allai gynnwys, er enghraifft, negeseuon e-bost, negeseuon uniongyrchol neu bostiadau ar gyfryngau cymdeithasol, ffotograffau, adroddiadau meddygol, a.y.b.
f. Cael gafael ar / sicrhau unrhyw luniau teledu cylch cyfyng perthnasol. Gall hyn gynnwys cymryd camau cyflym i ddiogelu'r lluniau er mwyn osgoi iddynt gael eu dileu yn unol â pholisïau cadw data arferol
g. Ceisio gwybodaeth gan arbenigwyr technegol perthnasol (er enghraifft, casglu gwybodaeth gan dîm TG y darparydd am yr hyn a ddigwyddodd ar eu system TG eu hunain)
h. Casglu gwybodaeth o ffynonellau eraill sydd ar gael yn gyhoeddus (e.e. postiadau ar gyfryngau cymdeithasol)
i. Darganfod a oes yna unrhyw ddatgeliadau blaenorol na chafodd eu hymchwilio sy'n dangos y gallai fod patrwm ymddygiad y gallai nawr fod angen ei archwilio ymhellach

Bydd y broses a ddilynir yn ystod y cam ymchwilio, i ryw raddau, yn cael ei llywio gan y broses adrodd a lefel y manylder y mae'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad yn dewis ei rhannu yn ystod y broses honno.

186. Bydd angen i ymchwilwyr fabwysiadu ymagwedd hyblyg at gasglu gwybodaeth, gan ymateb i ddewisiadau'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad, y sawl y gwnaed cwyn yn ei

erbyn a myfyrwyr sy'n dystion ynghylch fformatau sy'n gweithio iddyn nhw. Bydd angen i ymchwilwyr hefyd ystyried a ddylid gwneud addasiadau rhesymol i'r broses o gasglu gwybodaeth er mwyn rhoi ystyriaeth i anghenion unigol myfyrwyr.

187. Mae'n arfer da rhoi rhybudd i fyfyrwyr am gyfweliadau ffurfiol, gan gynnwys manylion ynghylch pwy fydd yn bresennol. Mae hefyd yn arfer da darparu gwybodaeth ysgrifenedig ymlaen llaw am y broses sy'n cael ei dilyn ac atgoffa myfyrwyr o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Gall unrhyw fyfyriwr sydd am wneud hynny ddod â chefnogwr yn gwmni i gyfweliad, a dylid caniatáu hyn (gweler **paragraffau 216 - 225**).

188. Bydd angen i ddarparwyr feddwl yn ofalus am faint o wybodaeth i'w rhoi i'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn cyn unrhyw gyfweliad. Rhaid rhoi digon o wybodaeth i fyfyrwyr y gwnaed cwyn amdanynt i'w galluogi i ddeall pa ymddygiad a ystyriwyd yn annerbyniol, ac i ddeall pryd a ble y digwyddodd yr hyn sydd dan sylw. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau ymchwiliad teg, gall fod yn ddefnyddiol mewn rhai amgylchiadau rhoi cyfle'n gyntaf i fyfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn gyflwyno ei adroddiad cyn rhannu'r holl fanylion a ddarparwyd gan y myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad neu a gasglwyd o ffynonellau eraill. Gall myfyriwr y cyflwynwyd adroddiad amdano gael ei osod dan anfantais trwy ganolbwyntio ar ymateb i'r hyn sydd yn yr adroddiad yn unig, ac felly efallai na fydd yn cyflwyno gwybodaeth berthnasol arall nad yw'n hysbys i'r ymchwilydd eto.

189. Dylai darparwyr gyfweld â myfyrwyr sy'n rhan o'r broses ymchwilio, gan gynnwys tystion, ar wahân i'w gilydd. Mae hyn yn helpu darparwyr i reoli faint o wybodaeth gyfrinachol sy'n cael ei rhannu â phob myfyriwr, a gall leihau pryderon ynghylch cydgynllwynio rhwng tystion, a allai danseilio gwerth eu tystiolaeth.

190. Er na ddylai darparwyr ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr lynu wrth unrhyw Gytundebau Peidio â Datgelu (NDAs), dylent esbonio sut y gallai trafod cynnwys y cyfweliadau neu eu gwybodaeth ysgrifenedig â phobl eraill sy'n ymwneud â'r broses, neu'n ehangach ag aelodau eraill o gymuned y darparydd, gael effaith andwyol ar y broses honno. Gall darparwyr hefyd ofyn i fyfyrwyr beidio â lledaenu gwybodaeth gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol cyn y byddant yn dod i gasgliad. Gall fod yn ddefnyddiol esbonio i fyfyrwyr pam y gall diffyg cyfrinachedd danseilio ansawdd y dystiolaeth a'i gwneud hi'n anoddach dod i gasgliadau. Mae'n arfer da atgoffa myfyrwyr am y gwasanaethau cymorth y gallant siarad â nhw o hyd am yr ymchwiliad a'u llesiant eu hunain.

191. Lle mae sawl myfyriwr yn adrodd neu sawl myfyriwr wedi'u heffeithio gan yr ymddygiad, efallai eu bod eisoes wedi trafod y mater cyn cyflwyno adroddiad neu cyn cael eu cyfweld. Gall fod yn ddefnyddiol i'r ymchwilydd ystyried a dogfennu hyn, er enghraifft, nodi bod Myfyriwr A wedi cael ei annog i gofio manylyn ar ôl trafodaeth â Myfyriwr B.

192. Rhaid i ymchwilwyr ymdrin â chasglu gwybodaeth o safbwynt niwtral, a cheisio mabwysiadu ymagwedd archwiliadol yn hytrach nag un wrthwynebol neu ofyn cwestiynau treiddiol. Pan fydd ymchwilwyr yn gofyn cwestiynau i fyfyrwyr, gall fod yn ddefnyddiol

esbonio pam mae'r cwestiwn yn berthnasol, yn enwedig lle gall cwestiwn ymddangos yn ansensitif neu'n agored i gamddehongli.

193. Mae'n arfer da darparu nodyn o'r cyfarfod i unrhyw berson sy'n cael ei gyfweld. Gall ymchwilwyr ddewis gwneud cofnod sain/gweledol o gyfweliadau, a gallant benderfynu llunio trawsgrifiad llawn, ond mater iddyn nhw benderfynu arno yw hynny. Mae hefyd yn arfer da rhoi cyfle i'r person ychwanegu unrhyw bwyntiau o eglurhad at gofnod y cyfarfod. Lle mae atgofion gwrthgyferbyniol am y cyfarfod, gall y cofnod nodi hyn; nid yw bob amser yn angenrheidiol cyrraedd pwynt o gytundeb.

# Adroddiadau ychwanegol

## Adroddiadau newydd am un myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn

194. Yn ystod y broses ymchwilio, gall myfyrwyr neu bobl eraill roi gwybod am ddigwyddiadau ychwanegol o ymddygiadau a allai fod yn aflonyddu neu'n gamymddwyn rhywiol, neu gallant roi gwybod am brofiadau o erledigaeth yn sgil cyflwyno adroddiad neu gymryd rhan yn yr ymchwiliad disgyblu. Bydd angen i'r ymchwilydd benderfynu a yw'r rhain yn faterion y gellir eu hystyried o fewn yr un broses ymchwilio, neu a ddylid eu hystyried ar wahân. Wrth wneud y penderfyniad hwn, dylai ymchwilwyr ystyried:

a. Pa mor agos yw'r cysylltiad rhwng y digwyddiadau, er enghraifft, a ydyn nhw'n cynnwys yr un bobl? ydyn nhw wedi digwydd o fewn cyfnod byr o amser? a allen nhw ffurfio patrwm o ymddygiad ailadroddus?
b. A fyddai ychwanegu maes newydd i'w ymchwilio yn oedi'n sylweddol y gallu i ddod i gasgliad ynghylch y materion sydd eisoes dan sylw.
c. Yr effaith ar y sawl a gyflwynodd yr adroddiad a'r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn o gynnal dau broses ar wahân ar yr un pryd neu'n olynol.
d. A oes gan y darparydd ddigon o staff hyfforddedig i gynnal ail broses ymchwiliol yn gwbl ar wahân i'r broses gyntaf.

## Gwrth-adroddiadau

195. Yn ystod yr ymchwiliad, gall myfyrwyr y gwnaed cwyn yn eu herbyn gynnig gwrth-adroddiadau yn erbyn y myfyrwyr a gyflwynodd yr adroddiad. Bydd angen i ddarparwyr ymateb i'r adroddiadau newydd, o ran ystyried anghenion lles a chymorth myfyrwyr, gwerthuso risgiau a nodi unrhyw fesurau rhagofalus newydd neu ychwanegol a allai fod yn briodol.

196. Ni ddylai darparwyr gymryd yn ganiataol bod adroddiad a gyflwynir gan fyfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn ymgais i gael dial, nac ychwaith bod adroddiad yn fwy tebygol o fod

yn wir oherwydd iddo gael ei wneud yn gyntaf. Fodd bynnag, dylai darparwyr hefyd fod yn effro i ymdrechion i wyro'r sefyllfa. Gallai fod yn ddefnyddiol pe bai gan ymchwilwyr ddealltwriaeth am dactegau DARVO (Gwadu, Ymosod, Gwrthdroi'r Dioddefwr a'r Troseddwr) y gallai cam-drinwyr eu defnyddio.

197. Dylai darparwyr benderfynu sut i ymchwilio i wrth-adroddiadau a ph'un a ddylid agor proses ddisgyblu yn erbyn myfyriwr neu aelod o staff ar sail achosion unigol. Gall darparwyr benderfynu:

   a. Ymchwilio i'r holl adroddiadau ar yr un pryd, gan arwain at wrandawiadau disgyblu ar wahân.
   b. Ymchwilio i'r holl adroddiadau ar yr un pryd, gan arwain at wrandawiad disgyblu ar y cyd wedi'i deilwra'n benodol at y diben.
   c. Cwblhau'r ymchwiliad cyntaf a'r broses ddisgyblu cyn ymchwilio i'r adroddiadau newydd.
   d. Oedi'r ymchwiliad cyntaf a'r broses ddisgyblu er mwyn mynd ati i ymchwilio i'r adroddiadau newydd.

198. Wrth benderfynu pa ddull i'w weithredu, gall darparwyr ystyried blaenoriaethu:

   a. Ymchwiliad i'r camymddwyn yr adroddwyd amdano a fyddai, os caiff ei brofi, yn denu'r cosbau mwyaf llym.
   b. Ymchwiliad i unrhyw ymddygiadau a allai godi pryderon ynghylch addasrwydd i arfer yn achos myfyrwyr neu staff.
   c. Ymchwiliad i ymddygiad myfyrwyr sydd ag ond ychydig o amser ar ôl yn eu hastudiaethau.

199. Dylai darparwyr hefyd fod yn ymwybodol o egwyddor lleihau'r angen i fyfyrwyr ailadrodd gwybodaeth anodd.

200. Efallai y bydd modd i'r un ymchwilydd gasglu gwybodaeth a thystiolaeth am yr adroddiadau a wnaed gan wahanol fyfyrwyr. Mae hyn yn debygol o leihau'r effaith ar bob myfyriwr o orfod ailadrodd eu hunain. Cyn belled â bod yr ymchwilydd wedi cynnal yr ymchwiliad o safbwynt niwtral, nad yw dim ond wedi chwilio am dystiolaeth sy'n cadarnhau un fersiwn o ddigwyddiadau, ac nad yw wedi mynegi casgliadau ynghylch yr hyn a allai fod wedi digwydd, ni fyddai hyn yn awtomatig yn arwain at ganfyddiad rhesymol o ragfarn. Gall darparwyr liniaru unrhyw ganfyddiad o ragfarn mewn ymchwiliad o'r fath trwy ei gwneud yn ofynnol i aelod gwahanol o staff neu banel wneud y penderfyniad ynghylch unrhyw ganfyddiadau disgyblu.

201. Dylai unrhyw adroddiadau newydd, boed yn adroddiadau ychwanegol am yr un myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn neu'n wrth-adroddiadau, annog y darparydd i ystyried adolygu eu hasesiad o risg a'r camau lliniaru a nodwyd yn flaenorol.

# Cwblhau'r cam ymchwilio

202. Bydd angen i ymchwilwyr arfer synnwyr cyffredin wrth benderfynu pryd y bydd digon o wybodaeth wedi'i chasglu. Dylai hyd, dyfnder a chyrhaeddiad ymchwiliad fod yn gymesur â chymhlethdod yr ymddygiad sy'n cael ei ymchwilio, difrifoldeb y cosbau a allai ddod yn sgil y camymddwyn pe bai'n cael ei brofi, difrifoldeb yr effaith ar y myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad a'r risgiau parhaus a nodwyd. Dylai ymchwilwyr fod yn ofalus wrth benderfynu ynghylch gwerth posibl dilyn gwahanol lwybrau ymholi, gan bwyso a mesur hyn yn erbyn yr effaith ar bob un o'r myfyrwyr dan sylw pe byddai'r broses ymchwilio'n cael ei hymestyn. Mae'n arfer da dogfennu rhesymau dros benderfynu peidio â cheisio gwybodaeth benodol, yn enwedig lle mae'r ymchwilydd yn penderfynu peidio â chyfweld â thyst y mae'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad neu'r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn wedi cyfeirio ato'n benodol.

203. Rhaid i ymchwilwyr gydbwyso'n ofalus yr angen i leihau nifer y troeon y gofynnir i'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad neu'r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn ddisgrifio'r hyn sydd wedi digwydd, â'r angen i archwilio unrhyw fylchau neu anghysondebau yn y wybodaeth a gasglwyd. Gall archwiliad gofalus o'r dystiolaeth ar y cam hwn leihau'r angen am ail-archwiliad manwl ar ffurf gwrandawiad.

204. Mae'n arfer da i ymchwilwyr baratoi adroddiad sy'n crynhoi'r wybodaeth a gasglwyd mewn ffordd niwtral. Gall nodi unrhyw feysydd eang o gytundeb ynghylch yr hyn a ddigwyddodd. Gall yr adroddiad ddatgan mewn termau ffeithiol lle mae bylchau neu anghysondebau yn y wybodaeth a gasglwyd, a lle mae tystiolaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n ategu'r hyn mae'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad wedi'i ddweud a/neu'r hyn a ddwedwyd gan y sawl y cwynwyd amdano. Gall yr adroddiad dynnu sylw at ansawdd y wybodaeth, er enghraifft, a gafodd ei chasglu'n agos at amser y digwyddiad(au) a ddisgrifiwyd, nau a ellid bod wedi'i newid neu ei haddasu.

205. Dylai adroddiad yr ymchwiliad fod ar ffurf y gellir ei rhannu'n llawn â'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn. Dylai darparwyr hefyd ystyried a fydd o fudd rhannu'r adroddiad â'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad. Lle mae yna nifer o fyfyrwyr yn cyflwyno adroddiad, efallai y byddai'n briodol rhannu dim ond yr adrannau o'r adroddiad sy'n ymwneud â phob myfyriwr unigol â'r unigolion hynny.

# Symud ymlaen i wneud penderfyniad

## Crynodeb

Dylai darparwyr sicrhau bod eu gweithdrefnau'n nodi'n glir pwy fydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch canfyddiadau disgyblu ac ynghylch cyflwyno cosbau.

Dylai darparwyr gymryd camau i sicrhau bod gan y myfyriwr sy'n cyflwyno adroddiad a'r sawl mae'n cwyno amdano ddigon o gyfleoedd i gyflwyno eu safbwyntiau i'r rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau. Mae gwrandawiad disgyblu ar ffurf cyflwyniadau llafar gerbron panel yn fecanwaith effeithiol i alluogi hyn ac i ganiatáu i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau brofi tystiolaeth. Gall darparwyr benderfynu nad yw'n briodol cynnal gwrandawiad mewn rhai amgylchiadau.

206. Ar ddiwedd y cam casglu gwybodaeth, dylai darparydd fel arfer symud ymlaen i wneud penderfyniad ynghylch a oedd ymddygiad y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn methu â bodloni'r safonau disgwyliedig. Weithiau gall ymchwiliad arwain at y darparydd yn ystyried rhyw fath arall o ddatrysiad anffurfiol, lle mae'r myfyrwyr a gyflwynodd yr adroddiad a'r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn wedi nodi y byddai hynny'n dderbyniol.

207. Mater i bob darparydd unigol yw penderfynu, yn ei gyd-destun penodol, pwy sydd â chyfrifoldeb dros benderfynu a yw ymddygiad myfyriwr yn mynd yn groes i'w reoliadau ac, os felly, a ddylid cyflwyno cosb. Gall hwn fod yr ymchwilydd, unigolyn arall sydd â chyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau, neu banel gwneud penderfyniadau.

208. Lle mae darparydd wedi penodi ymchwilydd allanol, ni ddylai'r ymchwilydd benderfynu'n ffurfiol bod myfyriwr wedi torri rheoliadau disgyblu'r darparydd, nac ychwaith gyflwyno cosbau. Rhaid i'r darparydd gadw perchnogaeth o'r penderfyniadau hyn. Mewn achosion o'r fath, mae'n bwysig nad yw adroddiad yr ymchwiliad allanol yn ymddangos fe pe bai'n gwneud canfyddiadau ffurfiol bod y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn wedi gweithredu'n groes i safonau ymddygiad y darparydd. Gall yr adroddiad gynnwys argymhellion i aelod o staff neu banel sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau eu hystyried.

209. Yn ein [Fframwaith Arfer Da: Gweithdrefnau Disgyblu](#) (paragraffau 109 – 114), rydym yn egluro bod llawer o ddarparwyr yn rhoi'r pŵer i aelodau staff penodol wneud penderfyniadau ynghylch mân-achosion disgyblu ar lefel leol. Mae'r ymagwedd hon yn rhoi hyblygrwydd i'r darparydd ddelio ag achosion yn brydlon a chymesur. Ond dylai darparwyr fod yn ofalus wrth weithredu'r dull hwn mewn achosion sy'n ymwneud ag aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol.

210. Mae'n arfer cyffredin sefydlu panel i wneud penderfyniadau ynghylch unrhyw faterion disgyblu a allai arwain at gosb ddifrifol. Mae panel yn rhoi cyfle i amrywiaeth o safbwyntiau a phrofiadau gael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r dull hwn yn golygu mai nad dim ond un person sy'n gwneud penderfyniadau, gan annog trafodaeth i brofi pa mor gadarn yw'r rhesymeg dros wneud penderfyniadau.

211. Mae cynnal gwrandawiad llafar gerbron panel disgyblu hefyd yn arfer cyffredin, wedi'i fenthyg o arfer cyfreithiol sefydledig. Er mwyn i unrhyw benderfyniad disgyblu gael ei wneud yn deg, rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau "glywed" y ddwy ochr. Mae'n cael

ei dderbyn yn gyffredinol bod gallu cyflwyno safbwynt ar lafar, naill ai wyneb-yn-wyneb neu'n rhithiol, yn ogystal â gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig, yn fuddiol i'r unigolion sy'n ymwneud â'r achos ac i'r rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau. Mae gwrandawiad yn caniatáu cwestiynau ac ymatebion mwy uniongyrchol a phwrpasol nag y byddai'r un broses mewn ysgrifen. Mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr y gwnaed cwyn yn eu herbyn herio'r dystiolaeth yn eu herbyn. Mewn gwrandawiad llafar, gall pob tyst, gan gynnwys y myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad a'r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn, gyflwyno eu gwybodaeth eu hunain fel y mynnant, heb ei hidlo gan ganfyddiad y casglwr gwybodaeth. Gall aelodau panel mewn gwrandawiadau llafar ystyried sut mae gallu person i ateb cwestiynau mewn gwrandawiad o'r fath yn ategu hygrededd neu gywirdeb eu disgrifiad o'r hyn a ddigwyddodd.

212. Fodd bynnag, mae yna resymau hefyd pam y gall cynnal gwrandawiad llafar fod yn heriol iawn mewn achosion sy'n ymwneud ag aflonyddu a chamymddwyn rhywiol. Efallai y byddai'n well gan fyfyriwr beidio â chyflwyno gwybodaeth ar lafar i banel, ac efallai na fydd hyn yn briodol i rai myfyrwyr anabl neu fyfyrwyr sy'n cael eu heffeithio gan orbryder neu anawsterau cyfathrebu. Gall gorfod ailadrodd gwybodaeth sydd eisoes wedi'i rhannu achosi trawma unwaith yn rhagor i unigolion. Gall cael eich cwestiynu fod yn brofiad anodd iawn hefyd. Gall gwrandawiad llafar fod yn gyfle i niwed pellach gael ei achosi yn sgil y rhyngweithiadau rhwng myfyrwyr.

213. Ar ddiwedd y cam casglu gwybodaeth, rhaid i ddarparwyr benderfynu a ddylid cynnal gwrandawiad llafar cyn dod i benderfyniad, neu a yw'n briodol dod i benderfyniad heb wrandawiad. Gall yr ymchwilydd wneud y penderfyniad hwn ynglŷn â chamau'r broses, er y gall cynnwys aelod arall o staff yn y penderfyniad hwnnw helpu i fynd i'r afael ag unrhyw ganfyddiadau o ragfarn.

214. Mae enghreifftiau o bryd y gall darparydd benderfynu peidio â chynnal gwrandawiad llafar yn cynnwys:

a. Pan fydd myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn derbyn bod ei ymddygiad wedi methu â chyrraedd y safonau disgwyliedig. Dylai darparwyr gymryd gofal i sicrhau bod y myfyriwr yn deall yn llawn yr hyn y mae'n cyfaddef iddo. Rhaid i ddarparwyr hefyd roi cyfle i fyfyrwyr y gwnaed cwyn yn eu herbyn ddarparu manylion unrhyw ffactorau a allai liniaru'r sefyllfa. Mae'n bwysig sicrhau bod y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn gwbl ymwybodol o ganlyniadau derbyn bod ei ymddygiad wedi methu â chyrraedd y safonau disgwyliedig, heb y cyfle i gymryd rhan mewn gwrandawiad. Er enghraifft, dylid dweud wrth y myfyriwr p'un a fydd hyn yn cael ei nodi ar ei gofnod myfyriwr ac ar ba ffurf; hefyd p'un a fydd hyn yn cael ei ystyried mewn achosion disgyblu neu addasrwydd i arfer yn y dyfodol.

b. Pan mae'n amlwg o'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cam ymchwilio nad yw'r ymddygiad a adroddwyd yn gyfystyr â thorri safonau ymddygiad disgwyliedig y darparydd, hynny yw, nid oes achos i'w ateb.

c. Pan fyddai'r ymddygiad a adroddwyd, os caiff ei brofi, yn denu cosbau bach neu gymedrol yn unig.

d. Pan nad yw'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn eisiau cymryd rhan mewn gwrandawiad llafar.

# Cynnal gwrandawiad disgyblu

## Crynodeb

Dylai darparwyr ganiatáu i unrhyw fyfyriwr sy'n mynychu cyfarfodydd neu wrandawiadau gael cwmni cefnogwr. Dylai'r darparwr ddiffinio ffiniau rôl y cefnogwr a phwysleisio natur gyfrinachol unrhyw wybodaeth a rennir.

Dylai darparwyr roi gwybodaeth i fyfyrwyr sy'n mynychu gwrandawiadau ymlaen llaw i'w helpu i ddeall sut y bydd y gwrandawiad yn gweithredu.

Dylai darparwyr gymryd camau i gefnogi llesiant pob myfyriwr sy'n rhan o wrandawiadau, er mwyn lleihau cymaint â phosibl unrhyw ofid a achosir yn sgil mynychu.

215. Mae paragraffau 138-146 o'n **Fframwaith Arfer Da: Gweithdrefnau Disgyblu** yn rhoi cyngor ar drefnu a chynnal gwrandawiadau disgyblu myfyrwyr. Yn y paragraffau canlynol, rydym yn darparu rhywfaint o wybodaeth ychwanegol am arfer da sy'n benodol i wrandawiadau disgyblu sy'n ymwneud ag adroddiadau o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol.

## Cymorth a chynrychiolaeth

216. Efallai y bydd unrhyw fyfyriwr sy'n cymryd rhan mewn cyfarfod ymchwilio neu wrandawiad disgyblu yn dymuno cael cwmni cefnogwr, ac mae'n arfer da caniatáu hyn. Mae gweithdrefnau disgyblu yn fewnol i ddarparydd ac ni ddylent fod yn rhy ffurfiol. Ni ddylai fod yn angenrheidiol i fyfyrwyr sy'n cyflwyno adroddiad na'r sawl y gwnaed cwyn yn eu herbyn gael cyngor cyfreithiol i ddeall y broses sy'n cael ei dilyn, y penderfyniadau y mae'r darparydd wedi'u gwneud a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny.

217. Fel arfer, ni fydd angen i fyfyrwyr sydd â mynediad at wasanaethau cymorth i fyfyrwyr, neu gyrff cynrychioli myfyrwyr, sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sydd â digon o adnoddau, geisio cyngor na chynrychiolaeth gyfreithiol, er y gallent ddymuno gwneud hynny mewn achosion difrifol. Dylai darparwyr ganiatáu cefnogaeth gan berson sydd â chymwysterau cyfreithiol i fyfyrwyr sy'n wynebu cwyn mewn achosion disgyblu cymhleth, neu lle mae'r canlyniadau i'r myfyriwr o bosibl yn ddifrifol iawn.

218. Nid yw fel arfer yn angenrheidiol nac yn briodol i unrhyw fyfyriwr sy'n mynychu gwrandawiad disgyblu fel tyst, gan gynnwys y myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad, gael cynrychiolaeth gyfreithiol. Mae hyn oherwydd, mewn proses ddisgyblu, y darparydd, nid y myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad, sy'n cymryd camau yn erbyn y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn.

219. Nid yw'n arfer da gosod cyfyngiadau cul ar bwy all weithredu fel cefnogwr i fyfyriwr. O ystyried natur sensitif y materion hyn, mae'n bwysig bod myfyrwyr yn teimlo'n gyfforddus â'r person maen nhw wedi'i ddewis i'w cefnogi. Gall darparwyr annog myfyrwyr yn gryf i wneud defnydd o gefnogaeth o fewn eu cymuned, yn enwedig lle mae yna staff hyfforddedig yn rhan o'r corff cynrychioli myfyrwyr neu o fewn y darparydd sydd ag arbenigedd ym maes cwynion a phrosesau'r darparydd.

220. Ni ddylai'r sawl sy'n cynnig cefnogaeth i'r myfyriwr fod yn berson sydd hefyd yn gweithredu fel tyst.

221. Gallai rôl cefnogwr gynnwys:

    a. Bod yn gefn i'r myfyriwr dan sylw yn y cyfarfod.
    b. Monitro llesiant y myfyriwr a chynrychioli ei anghenion o ran y ffordd mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal, er enghraifft, gofyn am seibiant os yw myfyriwr wedi cynhyrfu.
    c. Sicrhau bod y myfyriwr wedi deall y cwestiynau a ofynnwyd iddo neu'r wybodaeth a roddwyd iddo, ac annog y myfyriwr i ofyn am esboniadau pellach yn ôl yr angen.
    d. Gwrando a chymryd nodiadau o'r cyfarfod ar ran y myfyriwr, er mwyn galluogi'r myfyriwr i ganolbwyntio ar gynnwys y drafodaeth.
    e. Atgoffa myfyriwr am bwyntiau yr oedd wedi bwriadu eu codi a sicrhau bod y myfyriwr wedi cael cyfle i esbonio ei brofiad yn llawn
    f. Helpu myfyrwyr i godi cwestiynau a herio tystiolaeth yn briodol (er enghraifft, trwy'r Cadeirydd).

222. Fel arfer mae'n rhesymol i ddarparwyr ddisgwyl i fyfyrwyr sy'n dystion a myfyrwyr y gwnaed cwyn yn eu herbyn ateb cwestiynau eu hunain. Nid rôl cefnogwr fel arfer yw ateb cwestiynau ar ran myfyriwr. Ond dylai darparwyr ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd, gan ystyried lefel y trallod y gallai myfyriwr fod yn ei brofi. Mae'n bosibl y byddai hefyd yn briodol i gefnogwr gymryd rhan fwy gweithredol fel addasiad rhesymol ar gyfer myfyriwr anabl.

223. Nid rôl cefnogwr yw cynnig ei safbwynt ei hun ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd.

224. Nid rôl cefnogwr yw croesholi unrhyw berson arall sy'n rhan o'r cyfarfod neu'r gwrandawiad.

225. Mae'n arfer da i ddarparwyr roi canllawiau i gefnogwyr ynghylch y rôl maen nhw'n ymgymryd â hi. Er enghraifft, dylid atgoffa cefnogwyr o'r angen i barchu cyfrinachedd y broses. Os bydd cefnogwr yn crwydro y tu allan i'w rôl yn gyson neu os bydd ei ymddygiad yn dod yn destun pryder, dylai fod gan Gadeiryddion y pwer i atal yr achos a gwahardd y cefnogwr rhag ymwneud ymhellach â'r broses. Yn yr achosion prin hyn, efallai y bydd angen caniatáu amser ychwanegol i'r myfyriwr ddod o hyd i gefnogwr arall.

## Presenoldeb tystion

226. Pwrpas tyst yn mynychu gwrandawiad yw galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i archwilio'r wybodaeth a ddarparwyd ganddynt yn fanylach. Mae'n arbennig o fuddiol pan fo bylchau, anghysondebau neu wrthdaro yn y wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod ymchwilio. Mae'n arfer cyffredin i'r adroddiad ymchwiliol nodi pa dystion y byddai'n fanteisiol i'r panel glywed ganddynt.

227. Efallai na fydd angen ei gwneud yn ofynnol i dystion fynychu gwrandawiad llafar lle nad oes amheuaeth ynghylch y wybodaeth a ddarparwyd ganddynt neu lle nad yw'n uniongyrchol berthnasol i'r ymddygiad annerbyniol penodol sy'n cael ei ystyried. Fel arfer nid oes angen clywed gan "dystion i gymeriad" mewn gwrandawiad llafar.

228. Mae'n arfer da rhoi cyfle i'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn ofyn am dystion ychwanegol i ymddangos, cyn i'r gwrandawiad gael ei gynnal.

229. Gall darparwyr hefyd benderfynu hysbysu'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad ynghylch y tystion sy'n ymddangos gerbron y panel, ac ystyried unrhyw sylwadau y gallent fod am eu gwneud. Yn y pen draw, Cadeirydd y panel sy'n penderfynu pa dystion y dylid clywed ganddynt. Mae'n arfer da dogfennu'r rhesymau dros eithrio unrhyw dystion a rhannu'r wybodaeth hon â'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn.

230. Mae'n arfer da rhoi canllawiau i fyfyrwyr a allai fynychu panel disgyblu ynghylch yr hyn y gallant ei ddisgwyl. Er enghraifft, i esbonio fformat y gwrandawiad disgyblu, sut y rhoddir ystyriaeth i'w llesiant yn ystod y broses honno a'r angen am gyfrinachedd. Nid yw'n briodol i fynychwyr unigol wneud recordiad o baneli disgyblu. Pan fo angen recordiad fel addasiad rhesymol, y darparydd ddylai wneud hynny.

231. Cyfrifoldeb y darparydd yw cyfathrebu â thystion ynglŷn â'u presenoldeb mewn gwrandawiad disgyblu. Nid cyfrifoldeb y myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad na'r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn yw cydlynu presenoldeb aelodau eraill o gymuned y darparydd nac unrhyw drydydd parti arall, er y gallai fod angen i'r naill fyfyriwr neu'r llall roi manylion cyswllt yr unigolion hynny i'r darparydd.

232. Fel arfer bydd yn berthnasol gofyn i'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad fynychu'r gwrandawiad disgyblu i gyflwyno ei dystiolaeth.

233. Ni all darparwyr orfodi unrhyw dyst i fynychu gwrandawiad disgyblu. Ond dylent esbonio i fyfyriwr sy'n dyst (gan gynnwys y sawl a gyflwynodd yr adroddiad neu fyfyrwyr eraill yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan yr ymddygiad dan sylw) yr effaith bosibl o benderfynu peidio â mynychu'r gwrandawiad disgyblu. Gall hyn effeithio ar faint o bwysau a roddir gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar y wybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol, oherwydd nad ydynt wedi gallu ei harchwilio'n llawn.

234. Dylai darparwyr weithredu proses hyblyg er mwyn galluogi myfyrwyr i fynychu a chymryd rhan mewn gwrandawiadau disgyblu. Er enghraifft, gall paneli ddefnyddio rhywfaint o bresenoldeb ar-lein i sicrhau nad yw'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad a'r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn yr un ystafell.

235. Yn achos yr unigolyn sy'n destun y gŵyn, mae'n hanfodol y gallant herio a chwestiynu'r dystiolaeth yn eu herbyn. Ond nid yw hyn yn golygu bod rhaid iddynt bob amser gael caniatâd i ofyn cwestiynau'n uniongyrchol i unrhyw dyst, gan gynnwys y myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad. Yn aml, bydd yn briodol i fyfyrwyr y gwnaed cwyn yn eu herbyn i gyflwyno eu cwestiynau i Gadeirydd y panel. Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid gofyn i'r tyst ateb y cwestiwn. Gellid gofyn i fyfyrwyr sy'n destun y gŵyn ddarparu eu cwestiynau arfaethedig ymlaen llaw i Gadeirydd y panel.. Rhaid i fyfyrwyr y gwnaed cwyn yn eu herbyn gadw'r hawl i ymateb i wybodaeth sy'n newydd yn y gwrandawiad llafar. Dylai'r Cadeirydd ddogfennu'r rhesymeg yn gryno os oes angen addasu cwestiynau cyn eu gofyn neu os yw'n penderfynu peidio â'u gofyn o gwbl.

236. Lle nad yw'r myfyriwr a gyflwynodd y gŵyn neu dyst arall yn mynychu gwrandawiad panel, dylai'r darparydd feddwl yn ofalus am sut y gellir rhoi cyfle i'r panel a'r myfyriwr sy'n destun y gŵyn brofi eu tystiolaeth o hyd. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys cwestiynau a gasglwyd gan y Cadeirydd yn cael eu gofyn i'r tyst yn ysgrifenedig, neu trwy'r ymchwilydd.

237. Mae'n debygol y bydd yr amgylchiadau lle na ddylid caniatáu i fyfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn glywed yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan bobl eraill i'r panel disgyblu yn gyfyngedig iawn. Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ddogfennu eu rhesymau dros dderbyn unrhyw wybodaeth na ellir ei rhannu'n uniongyrchol â'r myfyriwr sy'n destun y gŵyn a chofnodi'r camau y maent wedi'u cymryd i sicrhau nad yw hawl y myfyriwr sydd dan sylw i broses deg wedi'i pheryglu.

238. Fel arfer, ni fydd yn briodol i'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad nac i dystion eraill mewn proses ddisgyblu barhau i fod yn bresennol mewn gwrandawiad disgyblu ar ôl iddynt roi eu tystiolaeth. Mae'n bosibl weithiau y bydd gan y panel gwestiynau pellach ar gyfer unrhyw dyst yn deillio o'r hyn y mae'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn neu dyst arall yn ei ddweud wrth y panel. Mae'n arfer da gweithredu proses hyblyg sy'n galluogi'r panel i ofyn i dystion am wybodaeth ychwanegol, wyneb-yn-wyneb neu'n ysgrifenedig, cyn iddynt ddod i benderfyniad. Dylai Cadeirydd y panel benderfynu pa ymholiadau pellach sy'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn galluogi'r panel i ddod i benderfyniad.

239. Dylai aelodau'r panel fod yn ymwybodol y gall mynychu gwrandawiad disgyblu fod yn brofiad gofidus, gan beri cryn straen, i'r myfyriwr a gyflwynodd y gŵyn, y sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn a thystion eraill. Dylai darparwyr hyfforddi aelodau a Chadeiryddion paneli i ofyn cwestiynau mewn ffordd agored sy'n rhoi cyfle teg i bob person ddisgrifio eu profiad eu hunain.

240. Gall darparwyr benderfynu gwneud recordiad clyweledol o wrandawiad, naill ai fel cofnod swyddogol o'r gwrandawiad neu i gynorthwyo â'r broses o lunio crynodeb. Dylai darparwyr ystyried unrhyw wrthwynebiadau gan gyfranogwyr cyn gwneud recordiad clyweledol. Fel arfer nid oes angen cadw trawsgrifiad neu recordiad llawn o'r gwrandawiad air-am-air, er y gall darparwyr ddewis gwneud hynny. Lle caiff crynodeb ysgrifenedig ei gynhyrchu, mae'n bwysig ei fod yn adlewyrchu'n gywir y wybodaeth a gyflwynwyd gan bob tyst.

# Rôl y rhai sy'n gwneud penderfyniadau

## Crynodeb

Dylai darparwyr sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn deall mai eu cyfrifoldeb nhw yw gwneud canfyddiadau ynghylch p'un a yw rheoliadau disgyblu a chodau ymddygiad darparydd wedi'u torri, ac nid gwneud canfyddiadau cyfreithiol.

Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ddefnyddio'r safon brawf sifil a deall bod baich y prawf yn nwylo'r darparydd.

Bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn elwa o hyfforddiant sy'n eu cynorthwyo i werthuso tystiolaeth, gan ystyried yr effaith y gall trawma a phrofiadau bywyd eraill ei chael ar sut mae myfyriwr yn cyflwyno gwybodaeth.

Wrth gyflwyno cosb, gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried ffactorau lliniarol a rhai sy'n gwaethygu'r sefyllfa, ynghyd â'r effaith a brofwyd gan y myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad neu unrhyw un arall yr effeithiwyd arnynt. Gall canllawiau sy'n cynnwys gwybodaeth ddangosol am y cosbau a allai fod yn briodol mewn perthynas â gwahanol ganfyddiadau disgyblu gynorthwyo'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i weithredu'n gyson ar draws corff y myfyrwyr.

Dylai darparwyr ddogfennu'r rhesymau dros benderfyniadau ynghylch a yw rheoliad disgyblu wedi'i dorri, y rhesymau pam y cyflwynwyd cosb benodol a'r rhesymau dros wrthod cosbau eraill.

241. Cyfrifoldeb y darparydd yw sicrhau bod gan y rhai sydd â'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ddealltwriaeth ddigonol ynghylch ffiniau eu rôl, ac o'r fframwaith cyfreithiol a gweithdrefnol y maent yn gweithredu ynddo. Nid swyddogaeth y myfyrwyr sy'n adrodd na'r rheiny y gwneir cwynion amdanynt, na'u cefnogwyr, yw hysbysu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau am egwyddorion cyfreithiol allweddol. Ni ddylai fod angen cynrychiolaeth gyfreithiol ar unrhyw fyfyriwr i fod yn sicr bod gan y darparydd ddealltwriaeth gadarn o degwch gweithdrefnol ac o'r fframweithiau ar gyfer gwneud penderfyniadau.

242. Gall darparwyr benderfynu atgyfnerthu gwybodaeth y rhai sy'n gwneud penderfyniadau trwy gynnwys unigolyn sydd â'r rôl o ddarparu cyngor gweithdrefnol a/neu gyfreithiol arbenigol ond nad yw'n cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.

243. Gall y rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau elwa o fynediad at gymorth lle mae'r wybodaeth y mae'n rhaid iddynt ei hystyried yn peri gofid.

## Baich a safon y prawf

244. Fel y nodir uchod (gweler paragrapffau 104 - 106), pan fydd myfyriwr yn dweud wrth ddarparydd ei fod naill ai wedi profi neu wedi bod yn dyst i aflonyddu neu gamymddwyn rhywiol, dylai'r person sy'n derbyn datgeliad cychwynnol y myfyriwr dderbyn yr adroddiad ar ei olwg, a chynnig cefnogaeth i'r myfyriwr sy'n adrodd ar y sail hon. Mae'n bwysig bod y myfyriwr sy'n cyflwyno'r adroddiad yn teimlo ei fod yn cael ei glywed.

245. Ond rhaid i ddarparwyr gydbwyso hyn â'r angen i sicrhau, o fewn proses ddisgyblu, bod y baich a'r safon brawf gywir yn cael eu gweithredu.

246. Y "baich prawf" sy'n penderfynu cyfrifoldeb pwy yw profi'r achos. Mewn achos disgyblu, y darparydd sydd â'r baich prawf, hynny yw, rhaid i'r darparydd brofi bod y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn wedi gwneud yr hyn y mae wedi'i gyhuddo o'i wneud. Nid cyfrifoldeb y sawl y gwnaed cwyn amdanynt yw gwrthbrofi'r adroddiad, er y gellir eu gwahodd i wrthbrofi'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r adroddiad yn eu herbyn.

247. Mae tensiwn cynhenid yn perthyn i gredu'r hyn y mae myfyriwr sy'n cyflwyno adroddiad yn ei ddweud, ond peidio â dechrau proses ddisgyblu ag unrhyw ragdybiaeth bod ymddygiad annerbyniol wedi digwydd. Er mwyn osgoi canfyddiad o ragfarn, lle bynnag y bo modd, ni ddylai darparwyr ganiatáu i unrhyw unigolyn a roddodd gefnogaeth emosiynol a llesiant ar adeg y datgeliad/adroddiad cychwynnol hefyd i gynnal yr ymchwiliad dilynol, neu fynd ati i wneud penderfyniad o fewn y broses ddisgyblu.

248. Nid yw'n briodol i brosesau disgyblu mewnol y darparydd weithredu'r un safon ar gyfer prawf â'r hyn a ddisgwylir mewn achos troseddol, hynny yw, "y tu hwnt i bob amheuaeth resymol". Dylai darparwyr weithredu safon brawf sifil, y cyfeirir ati'n gyffredin fel "ar sail tebygolrwydd". Er bod y trothwy yn is nag mewn achosion troseddol, rhaid i ddarparwyr fod â sail dystiolaethol gadarn o hyd i benderfynu bod y safon wedi'i bodloni. Nid yw'n ddigon dweud ei bod hi'n bosibl bod rhywbeth wedi digwydd. I ddod i'r casgliad bod myfyriwr wedi torri ei reoliadau, rhaid i ddarparydd allu esbonio pam eu bod yn credu ei bod yn fwy tebygol na pheidio bod yr hyn sydd dan sylw wedi digwydd a pham roedd hyn yn groes i reolau'r sefydliad.

## Gwerthuso gwybodaeth a thystiolaeth

249. Yn aml mewn achosion sy'n ymwneud ag aflonyddu a chamymddwyn rhywiol, digwyddodd rhywbeth na welodd neb yn uniongyrchol heblaw'r myfyriwr a adroddodd a'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn. Yn aml, bydd hyn yn golygu bod yn rhaid i benderfynwyr benderfynu pa ddisgrifiad o'r hyn a ddigwyddodd maen nhw'n ei ffafrio. Gall hyn fod yn gymhleth iawn, pan fydd gan fyfyrwyr ganfyddiadau gwahanol iawn o'r hyn a ddigwyddodd. Weithiau gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ddod i'r casgliad eu bod yn derbyn rhannau o'r hyn oedd gan y naill a'r llall i'w ddweud.

250. Mae'n arfer da hyfforddi penderfynwyr i werthuso tystiolaeth, i ddod i benderfyniadau ynghylch cywirdeb a pha mor ddibynadwy yw'r dystiolaeth honno, a yw'n dod o ffynhonnell

gredadwy, a’r pwysau cymharol y dylid ei roi ar wahanol ddarnau o dystiolaeth. Mae rhai o’r ffactorau sydd i’w hystyried wrth werthuso tystiolaeth yn cynnwys:

a. P’un a yw tystiolaeth ddogfennol neu ddigidol o’r un cyfnod â’r digwyddiad neu a allai fod wedi’i heffeithio gan ddigwyddiadau neu ganfyddiadau dilynol, neu a yw’n ymddangos ei bod wedi’i newid.
b. P’un a yw’r wybodaeth yn dod gan berson a welodd yn uniongyrchol yr hyn maen nhw’n ei ddisgrifio (p’un a yw hynny’r digwyddiad ei hun neu’r effaith yr oedd yn ymddangos ei bod wedi’i chael ar unigolyn).
c. P’un a oes anghysondebau mewn disgrifiad o’r hyn a ddigwyddodd, ac a ellir esbonio’r rhain gan fethiannau yn y cof neu effaith trawma, p’un a oes yna ffactorau eraill a allai fod wedi effeithio ar ganfyddiadau’r unigolyn, neu a oes arwyddion o newidiadau bwriadol, â’r nod o wneud y disgrifiad yn fwy diddorol.
d. Y tebygolrwydd cymharol o unrhyw esboniadau gwahanol am yr hyn sydd wedi digwydd a pham y digwyddodd fel y gwnaeth.

251. Nid oes rhaid i ddarparwyr fodloni’r safonau a fyddai’n berthnasol i broses llys cyfreithiol wrth ystyried pa fathau o dystiolaeth a allai fod yn dderbyniol. Gall darparwyr fabwysiadu dull cymesur o asesu dibynadwyedd tystiolaeth. Er enghraifft, pe bai neges SMS yn ymddangos fel pe bai wedi’i hanfon o rif ffôn y gwyddys ei fod wedi’i ddefnyddio’n flaenorol gan fyfyriwr, byddai’n rhesymol i ddarparydd dybio bod y neges wedi’i hanfon gan y myfyriwr hwnnw, oni bai y gallai’r myfyriwr ddarparu tystiolaeth arall i ddangos nad oedd y ffôn yn ei feddiant ar yr adeg berthnasol. Fel arfer ni fyddai angen i ddarparydd ymgynghori ag arbenigwr ym maes diogelwch technoleg ddigidol i gefnogi eu tybiaeth.

252. Mae pobl yn aml yn dibynnu’n reddfol ar ystod o arwyddion tawel yn ymddygiad person arall i asesu a yw’r person hwnnw’n dweud y gwir, gan gynnwys ystum y corff, nodweddion eraill a dewis geirfa. Nid yw rhai o’r ymatebion arferol hyn yn ddefnyddiol yng nghyd-destun gwrandawiad disgyblu ynghylch aflonyddu a chamymddwyn rhywiol.

253. Mae’n bwysig peidio â gwneud rhagdybiaethau ynghylch sut y byddai person sydd wedi profi aflonyddu neu gamymddwyn rhywiol yn ymddwyn; ar adeg y digwyddiad, yn syth wedyn, ac yn ddiweddarach. Gall hyfforddiant arbenigol helpu’r rhai sydd â’r dasg o wneud penderfyniad i ddeall pam efallai na fydd myfyriwr sy’n cyflwyno adroddiad yn dod ymlaen am beth amser; pam y gallent fod wedi parhau i ryngweithio â’r person y maent yn gwneud cwyn amdano; pam a sut mae trawma yn effeithio ar y cof, gan arwain at newid yn naratif y myfyriwr dros amser.

254. Bydd aelodau’r panel hefyd yn elwa o hyfforddiant ynghylch sut y gall gwahanol gyflyrau neu anableddau effeithio ar sut mae myfyrwyr yn cyflwyno eu hunain wyneb-yn-wyneb neu’n ysgrifenedig. Efallai na fydd dangosyddion fel cynnal cyswllt llygad neu arwyddion gweledol o gyflwr emosiynol penodol yn ddangosyddion dibynadwy o hygrededd.

255. Bydd aelodau’r panel hefyd yn elwa o hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Er enghraifft, efallai bod gan rai grwpiau o fyfyrwyr wahanol ddulliau o ymdrin â gwrthdaro neu wahanol lefelau o hyder wrth herio ffigurau awdurdod canfyddedig. Gall y math hwn o hyfforddiant hefyd helpu paneli i ddeall sut a pham y gall rhai ymddygiadau gael effaith fwy sylweddol ar wahanol grwpiau o fyfyrwyr.

# Datganiadau effaith

256. Mae'n bosibl y bydd y myfyriwr a gyflwynodd adroddiad a thystion eraill wedi disgrifio effaith yr ymddygiad arnynt. Gall hyn fod yn ynghlwm â'r wybodaeth a gyflwynwyd ganddynt am y digwyddiadau, neu gellir ei fynegi ar wahân. I rai myfyrwyr a gyflwynodd adroddiad yn ogystal â thystion, gall fod yn ddefnyddiol mynegi'r effaith, a chael y darparydd i gydnabod yr effaith honno. Gall hyn helpu darparwyr i nodi'r mathau o gefnogaeth a allai fod fwyaf defnyddiol i'r myfyriwr.

257. Efallai y bydd rhai myfyrwyr sy'n adrodd neu dystion eraill eisiau i'r myfyriwr neu'r aelod staff y gwnaed cwyn yn eu herbyn gael gwybod am yr effaith a gafodd eu hymddygiad. Gall hyn gynnig rhyw fath o ddatrysiad i'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad a thystion eraill. Mae hefyd yn darparu cyfle dysgu i'r myfyriwr neu'r aelod o staff sy'n destun y gŵyn.

258. Mae'n bosibl na fydd rhai myfyrwyr sy'n adrodd neu dystion eraill eisiau i'r myfyriwr neu'r aelod staff y gwnaed cwyn yn eu herbyn gael gwybod am yr effaith a gafodd eu hymddygiad. Ni fydd yn briodol rhannu'r wybodaeth hon heb ganiatâd y myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad neu dystion eraill. Lle mae gwybodaeth am effaith yn berthnasol i'r penderfyniad a wneir ynghylch yr ymddygiad sydd dan sylw, dylai'r rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ddogfennu eu rhesymau dros dderbyn unrhyw wybodaeth na ellir ei rhannu'n uniongyrchol â'r myfyriwr sy'n destun y gŵyn. Dylent hefyd gofnodi'r camau y maent wedi'u cymryd i sicrhau nad yw hawl y myfyriwr dan sylw i broses deg wedi'i pheryglu (gweler **paragraff 237**). Gallai hyn gynnwys cytuno ar fersiwn gryno o'r datganiad effaith y mae'r myfyriwr sy'n adrodd neu'r tyst yn rhoi caniatâd i'w rhannu.

259. Dylid defnyddio datganiadau effaith yn bennaf fel modd o ddwyn y myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad tuag at ddatrysiad, yn hytrach nag fel tystiolaeth o fewn y broses ddisgyblu. Dylai darparwyr fod yn ofalus yn y ffordd y defnyddir datganiadau effaith wrth wneud penderfyniadau ynghylch p'un a ddigwyddodd aflonyddu neu gamymddwyn rhywiol. Mae'n bwysig ystyried canfyddiad y myfyriwr sy'n adrodd, ond hefyd nodi'r prawf gwrthrychedd (gweler **paragraff 33**). Bydd myfyrwyr sy'n cyflwyno adroddiadau a thystion yn ymateb yn wahanol i'r hyn maen nhw wedi'i brofi. Mae'n bosibl y bydd yr effaith ar rai myfyrwyr yn ymddangos yn amlwg, ond efallai'n llai amlwg yn achos eraill. Nid oes amserlen benodol ar gyfer teimlo effaith aflonyddu neu gamymddwyn rhywiol. Nid yw'r ffaith bod myfyriwr a gyflwynodd adroddiad yn ymddangos fel pe bai wedi "dal ati fel arfer" yn dystiolaeth nad oes aflonyddu na chamymddwyn rhywiol wedi digwydd. Yn yr un modd, gall newidiadau sylweddol yn ymddygiad myfyriwr sy'n cyflwyno adroddiad ddangos bod yr unigolyn wedi cael profiad anodd iawn, ond efallai na fydd hyn yn profi bod ymddygiad oedd yn groes i reolau disgyblaeth y darparydd wedi digwydd fel y disgrifiwyd. Dylai darparwyr esbonio'n ofalus sut mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wedi gwerthuso tystiolaeth am effaith.

260. Gall gwybodaeth am effaith fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr nodi p'un a yw'n briodol parhau ag unrhyw gyfyngiadau ar y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn fel rhan o gosb. Ond dylai darparwyr fod yn ofalus wrth ystyried yr effaith a gafodd y digwyddiad fel mesur o ba mor ddifrifol oedd yr ymddygiad o ran torri'r rheolau disgyblaeth. Mae gan ddarparwyr gyfrifoldeb i gyflwyno cosbau disgyblu mewn modd cyson. Ni ddylai gosod cosb briodol ddibynnu ar allu myfyriwr sy'n adrodd neu dyst arall i gyfleu effaith y digwyddiad arnynt.

# Dewis cosb

261. Mae'n arfer cyffredin cyflwyno cosb lle canfuwyd bod myfyriwr wedi torri côd neu safonau ymddygiad y darparydd. Fel arfer, mae gan ddarparwyr ystod o gosbau a all gynnwys elfennau addysgiadol a chosbol (gweler paragraffau 149 – 153 o'r **Fframwaith Arfer Da: Gweithdrefnau disgyblu**).

262. Wrth ddewis cosb, dylai darparwyr roi ystyriaeth i ffactorau lliniarol yn ogystal ag unrhyw beth a allai dwysáu'r sefyllfa. Mae hefyd yn arfer da ystyried unrhyw ffactorau a allai wneud dewis cosb benodol yn anghymesur, megis y terfynau amser ar gyfer cwblhau cwrs penodol neu amodau fisa myfyriwr. Lle gallai cosb ymyrryd â hawliau'r myfyriwr sy'n destun y gŵyn o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, dylai'r darparydd ddogfennu eu rhesymau dros benderfynu bod hyn yn ymyrraeth gymesur. Mae'n anghyfreithlon i ddarparwyr sy'n awdurdodau cyhoeddus ymyrryd yn anghymesur ag un o hawliau'r Confensiwn (e.e. yr hawl i ryddid mynegiant o dan Erthygl 10).

263. Gallai ffactorau lliniarol gynnwys gwybodaeth am iechyd y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn neu amgylchiadau personol eraill a effeithiodd ar ei ymddygiad neu ei allu i hunan-fyfyrio ar ei ymddygiad. Hefyd gwybodaeth am fwriadau'r myfyriwr sy'n destun y gŵyn lle'r oedd yn amlwg nad oedd yna unrhyw fwriad i achosi niwed; gwybodaeth am ymddygiad y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn ers iddo gael ei hysbysu gyntaf am y pryderon, megis unrhyw barodrwydd i dderbyn cyfrifoldeb, mynegiant o edifeirwch a dealltwriaeth o effaith yr ymddygiad, a chydymffurfiaeth â mesurau rhagofalus.

264. Gallai ffactorau sy'n dwysáu'r sefyllfa gynnwys gwybodaeth am ymddygiad sy'n groes i safonau'r darparydd yn y gorffennol neu dorri rheolau disgyblaeth eraill. Hefyd gwybodaeth am ymddygiad y myfyriwr sy'n destun y gŵyn ers iddo gael ei hysbysu am y pryderon gyntaf, gan gynnwys gwadu cyfrifoldeb yn afresymol, gwrthod cymryd rhan mewn hyfforddiant neu hunan-fyfyrio, gweithredu'n groes i unrhyw fesurau rhagofalus, neu ymddygiad annerbyniol parhaus. Fel arfer, bydd yn briodol ystyried unrhyw achosion pellach o ymddygiad gwael sy'n digwydd yn ystod y broses ddisgyblu, gan gynnwys erledigaeth, fel achos ar wahân o ymddwyn yn groes i'r safonau disgwyliedig. Mae'n debygol y bydd yn briodol cyflwyno cosb fwy difrifol lle bu sawl achos o dorri'r safonau'r darparydd. Bydd ymddygiad sy'n fwriadol, wedi'i dargedu, yn barhaus ac wedi'i gynllunio fel arfer yn denu cosbau mwy llym nag ymddygiad a gafodd effaith anfwriadol, na ddigwyddodd eto, neu a ddeilliodd o un foment o wneud penderfyniad gwael.

265. Mae'n arfer da i benderfynwyr ystyried yr holl gosbau sydd ar gael i'r darparydd, gan ddechrau â'r lleiaf difrifol. Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gofnodi pam eu bod wedi dewis cosb benodol. Mae'n arfer da cofnodi pam nad ystyriwyd bod cosbau llai yn briodol.

266. Fel arfer, mae'n briodol ystyried unrhyw fethiant i gydymffurfio â chosb ddisgyblu fel enghraifft o dorri côd ymddygiad y darparydd neu'r safonau disgwyliedig ymhellach. Mae'n debygol y bydd yn gymesur dilyn proses ddisgyblu gyflymach i ystyried canlyniadau peidio â chydymffurfio â chosb. Dylid rhoi cyfle i fyfyrwyr y gwnaed cwyn yn eu herbyn wneud sylwadau am y diffyg cydymffurfiaeth o fewn y broses honno.

# Cwblhau’r broses ddisgyblu

## Crynodeb

Dylai darparwyr ddweud wrth y myfyriwr y gwnaed cwyn amdano beth yw’r canfyddiadau disgyblu, beth yw unrhyw gosbau, a sut y gallant apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Gall darparwyr ddefnyddio proses apelio sy’n gymesur â’r materion sy’n cael eu codi yn yr apêl.

Dylai darparwyr roi digon o wybodaeth i’r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad am ganlyniad eu hadroddiad er mwyn iddynt deimlo’n hyderus bod proses deg wedi’i dilyn ac i ddeall y deilliannau a fydd yn effeithio ar eu hastudiaethau parhaus. Dylai darparwyr ddarparu llwybr i fyfyrwyr sy’n adrodd ofyn am adolygiad o sut y mae eu hadroddiad wedi cael ei drin.

Dylai darparwyr barhau i gynnig cefnogaeth i fyfyrwyr a gyflwynodd adroddiad a’r sawl y gwnaed cwyn yn eu herbyn, beth bynnag fo canlyniad unrhyw broses ddisgyblu.

Dylai darparwyr gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau pan fyddant wedi cwblhau’r broses apelio ar gyfer myfyriwr sy’n destun yn gŵyn, neu’r broses adolygu ar gyfer myfyriwr a gyflwynodd adroddiad.

## Hysbysu’r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn

267. Ar ddiwedd proses ddisgyblu myfyrwyr, dylai darparwyr ddilyn y cyngor a nodir yn ein **Fframwaith Arfer Da: Gweithdrefnau disgyblu** (paragraff 156 ymlaen) ar gyfer cwblhau gweithdrefnau disgyblu anacademaidd. Dylai darparwyr nodi canlyniad y broses ddisgyblu mewn ysgrifen i’r myfyriwr y gwnaed cwyn amdano. Dylai darparwyr nodi’n glir:

    a. Sut y daethant i benderfyniad, gan gynnwys esboniad o sut yr aethant ati i bwyso a mesur tystiolaeth. Mae’n ddefnyddiol esbonio sut y gwnaeth y penderfynwyr ystyried yr holl dystiolaeth, gan gynnwys cydnabod unrhyw dystiolaeth nad oedd yn ategu’r penderfyniad a wnaed.
    b. Rhesymau clir dros unrhyw gosb a ddyfernir, gan gynnwys sut y mae unrhyw ffactorau lliniarol, neu oedd yn gwaethygu’r sefyllfa, wedi cael eu hystyried.
    c. Ble a sut i gael mynediad at gymorth parhaus sydd ar gael i’r myfyriwr (gweler **paragraffae 288 – 290**).
    d. Hawl y myfyriwr i apelio yn erbyn y penderfyniad, gan gynnwys gwybodaeth am sut a phryd i gyflwyno apêl.

## Ailedrych ar yr asesiad risg

268. Mae’n arfer da ailedrych ar yr asesiad risg ac ystyried sut y gallai canlyniad proses ddisgyblu myfyrwyr neu staff fod wedi newid y risgiau a nodwyd a’r mesurau y mae angen i’r darparydd eu rhoi ar waith i liniaru’r risgiau hyn.

## Hysbysu'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn

269. Oni bai bod y datgeliad cychwynnol yn ddienw neu os yw'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad yn dweud nad yw am gael ei gadw'n gyfoes â datblygiadau, mae'n arfer da hysbysu'r myfyriwr sy'n adrodd pan fydd proses ddisgyblu wedi'i chwblhau a beth yw canlyniadau'r broses honno. Mae hysbysu myfyriwr yn ffurfiol ynghylch canlyniad ei adroddiad yn ffordd bwerus i ddarparwyr ddangos y pwysigrwydd maen nhw'n ei roi ar fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol. Fel arfer bydd yn briodol darparu'r wybodaeth hon yn ysgrifenedig fel bod gan y myfyriwr gofnod ohoni. Dylai darparwyr ystyried sut a phryd i rannu'r wybodaeth fel y gall myfyrwyr gael mynediad at gymorth priodol.

270. Efallai y byddai hefyd yn briodol rhannu canlyniadau'r broses ddisgyblu gyda thystion eraill, er enghraifft lle gallai'r tystion hefyd fod yn bryderus ynghylch rhyngweithiadau yn y dyfodol â'r person y gwnaed cwyn yn ei erbyn.

271. Mae hyn yn berthnasol i ganlyniadau gweithdrefnau disgyblu myfyrwyr a staff. O ystyried yr anghydbwysedd pŵer sydd ynghlwm â myfyriwr sy'n cyflwyno adroddiad am aflonyddu neu gamymddwyn rhywiol yn erbyn aelod o staff, mae'n arbennig o bwysig y gall myfyrwyr fod yn hyderus am degwch y prosesau a gwerth cyflwyno adroddiad o'r fath.

272. Dylai darparwyr sydd wedi cofrestru â Swyddfa'r Myfyrwyr (OfS), neu'r rhai sy'n gweithio mewn partneriaeth â darparwyr cofrestredig, fod yn ymwybodol o Reoliad E6.11.n.viii sy'n ei gwneud yn ofynnol bod "unigolion yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan unrhyw benderfyniadau a wneir mewn perthynas ag achosion o aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol yn cael gwybod yn uniongyrchol am y penderfyniadau a'r rhesymau drostynt." Mae'n annhebygol y bydd darparwyr sy'n gweithredu prosesau staff neu fyfyrwyr sy'n addo cyfrinachedd llwyr i'r sawl y gwnaed cwyn yn eu herbyn ynghylch canlyniadau yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

273. Rhaid i ddarparwyr gydbwyso'r angen i ddarparu canlyniad i'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad â hawliau preifatrwydd y myfyriwr neu'r aelod staff y gwnaed cwyn yn eu herbyn. Gall hefyd fod yn berthnasol ystyried hawliau preifatrwydd tystion eraill. Lle mae'r person sy'n desun y gŵyn yn aelod o staff, bydd angen i ddarparwyr ystyried ei hawliau ychwanegol fel gweithiwr.

274. Nid yw deddfwriaeth diogelu data yn atal darparwyr rhag rhannu gwybodaeth yn yr amgylchiadau hyn. Wrth benderfynu pa wybodaeth i'w rhannu, gall darparwyr ystyried y canllawiau ymarferol a ddarperir gan sefydliad Prifysgolion y DU (UUK) **Newid y diwylliant: rhannu data personol mewn achosion o aflonyddu**. Mae'r canllawiau hyn yn cynnig argymhellion ymarferol i ddarparwyr ar gyfer mynd ati i wneud penderfyniadau ynghylch rhannu data personol mewn perthynas ag achosion o aflonyddu. Mae hefyd yn berthnasol ystyried hyn mewn achosion o gamymddwyn rhywiol. Mae'r canllawiau'n canolbwyntio'n benodol ar rannu gwybodaeth am ganlyniadau a chosbau ac yn darparu fframwaith i gynorthwyo darparwyr yn eu proses gwneud penderfyniadau, gan ystyried rhesymau cyfreithiol, rheoleiddiol, polisi ac o ran llesiant dros rannu data. Gall darparwyr hefyd ystyried canllawiau technegol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol **Aflonyddu**

rhywiol ac aflonyddu yn y gwaith. Byddai hyn yn uniongyrchol berthnasol pe bai'r myfyriwr sy'n adrodd hefyd yn aelod o staff, a gellir ystyried yr egwyddorion o hyd pan nad yw'r person sy'n cyflwyno'r adroddiad yn gyflogedig gan y darparydd. Mae'r canllawiau'n egluro, "er bod yn rhaid i gyflogwyr gydymffurfio ag egwyddorion diogelu data o dan Erthygl 5 GDPR, ni ddylent dybio y bydd datgelu data personol yr aflonyddwr yn gyfystyr â thorri GDPR. Yn aml nid dyna yw'r sefyllfa os yw'r cyflogwr wedi bod yn glir y gellir datgelu canlyniadau, wedi ystyried pa sail sydd ganddynt dros ddatgelu, a'u bod yn gweithredu'n gymesur wrth ddatgelu data personol." (paragraff 4.84)

275. Mae'n arfer da dogfennu rhesymau dros benderfynu pa wybodaeth y gellir neu na ellir ei rhannu. Mae'n arfer da i ddarparwyr ystyried cynnwys o leiaf y wybodaeth ganlynol:

a. Pa gamau a gymerwyd i ymchwilio i'r adroddiad.
b. Crynodeb neu ddisgrifiad manwl o'r dystiolaeth oedd ar gael i'r rhai a wnaeth y penderfyniad, neu gopi o'r dystiolaeth honno;
c. Pwy wnaeth y penderfyniad(au);
d. Pa fesurau y gellir eu rhoi ar waith i atal y broblem a arweiniodd at yr adroddiad rhag digwydd eto.
e. Os canfyddir bod yr ymddygiad wedi cael effaith niweidiol ar y myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad, datrysiad sy'n gymesur â'r effaith honno.
f. Argaeledd cefnogaeth barhaus.
g. Yr hawl i ofyn am adolygiad o sut yr aethpwyd i'r afael â'r adroddiad.

276. Mae'n arfer da esbonio i'r myfyriwr sy'n adrodd bod gan y myfyriwr sy'n destun y gŵyn hawl i apelio yn erbyn y canlyniad disgyblu, ac esbonio unrhyw broses gyfatebol a all fod yn berthnasol i achosion disgyblu staff.

## Hawl y myfyriwr sy'n destun y gŵyn i apelio

277. Mae paragraffau 160164 o'n Fframwaith Arfer Da: Gweithdrefnau Disgyblu rhoi cyngor ar ddelio â cham apelio gweithdrefnau disgyblu myfyrwyr. Dim ond y myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn sydd â hawl i apelio yn erbyn canlyniad ei broses ddisgyblu.

278. Pan fydd myfyriwr neu aelod o staff yn apelio yn erbyn canlyniad eu gweithdrefnau disgyblu, dylai'r darparydd feddwl yn ofalus am sut mae'n rhoi gwybod i'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad. Efallai y bydd yn well gan y myfyriwr a gyflynodd yr adroddiad beidio â derbyn unrhyw ddiweddariadau oni bai, neu hyd nes, y gwneir newid i'r canlyniadau. Efallai na fydd angen rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad am apêl sy'n cael ei gwrthod yn gyflym, er enghraifft oherwydd ei bod yn amlwg nad oedd sail dros fwrw ymlaen. Fodd bynnag, lle mae posibilrwydd y gofynnir i'r myfyriwr sy'n adrodd am ragor o wybodaeth, neu efallai y caiff y canlyniadau eu newid, mae'n debygol y bydd angen hysbysu'r myfyriwr sydd dan sylw bod y myfyriwr neu'r aelod staff sy'n destun y gŵyn wedi cyflwyno apêl yn erbyn y canlyniad disgyblu, ac egluro'r camau nesaf yn y broses. Mae'n bwysig parhau i gynnig cefnogaeth i'r myfyriwr sy'n adrodd yn ystod y broses apelio.

279. Mae'n arfer da mynd i'r afael ag apêl yn gyflym. Mae ansicrwydd hirfaith ynghylch canlyniad terfynol y broses yn debygol o fod yn ofidus i'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad ac i'r sawl y gwnaed cwyn amdano. Lle mae angen casglu gwybodaeth ychwanegol, mae fel arfer yn fanteisiol gwneud hyn cyn gynted â phosibl. Lle mae cosb wedi'i chyflwyno sy'n atal myfyriwr rhag ymwneud yn llawn â'i astudiaethau, gall proses apelio hirfaith ei roi dan anfantais bellach.

280. Mae'n arfer da gosod terfyn amser i fyfyrwyr sy'n destun cwyn apelio yn erbyn canlyniad proses ddisgyblu. Dylai'r dyddiad cau roi digon o amser i'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn ddeall y penderfyniad a chael cyngor. Dylai darparwyr fod yn hyblyg o ran y terfyn amser ar gyfer cyflwyno rhesymau da dros oedi, gan fod yn ymwybodol o effaith yr oedi ar unigolion eraill sy'n ymwneud â'r achos.

281. Fel arfer nid oes angen anfon Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at fyfyrwyr y gwnaed cwyn yn eu herbyn nad ydynt yn arfer eu hawl i apelio. Os bydd myfyriwr yn gofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau heb wneud apêl, dylai darparwyr gyfeirio at **Ganllawiau SDA ynghylch Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau**.

282. Os bydd myfyriwr sy'n destun cwyn yn gwneud apêl ar ôl y dyddiad cau a bod y darparydd yn penderfynu peidio â'i derbyn, dylai anfon Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn egluro bod yr apêl wedi'i chyflwyno'n rhy hwyr. Lle bo'n berthnasol, dylai'r llythyr esbonio pam na dderbyniwyd rhesymau'r myfyriwr dros gyflwyno'r apêl yn hwyr.

283. Mae'n arfer da nodi amodau ar gyfer apelio. Ni fydd anghytuno â'r penderfyniad a gyrhaeddwyd fel arfer yn ddigon i sefydlu sail dros fwrw ymlaen ag apêl. Gallai'r amodau hynny gynnwys:

    a. Na ddilynwyd y gweithdrefnau yn iawn;
    b. Bod y sawl a wnaeth y penderfyniad wedi dod i benderfyniad afresymol;
    c. Bod gan y myfyriwr dystiolaeth berthnasol newydd nad oedd yn gallu, am resymau dilys, ei darparu ynghynt yn y broses;
    d. Bod rhagfarn neu ganfyddiad rhesymol o ragfarn yn ystod y weithdrefn;
    e. Bod y gosb a ddyfarnwyd yn anghymesur neu'n anghyson â'r gweithdrefnau.

284. Pan dderbynnir apêl, dylai darparwyr ystyried yn gyntaf a yw'r apêl yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol. Pan fo cyflwyniad apêl yn aneglur neu pan nad yw'n ymddangos ei bod yn bodloni unrhyw un o'r amodau, gall darparwyr benderfynu cynnig cyfle i'r myfyriwr ddiwygio ei apêl neu egluro ei bryderon ymhellach. Os yw'r darparydd yn penderfynu na ddylid bwrw ymlaen â'r apêl oherwydd nad yw'n bodloni'r amodau a ganiateir ar gyfer ystyriaeth, dylai gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

285. Fel arfer, bydd yn briodol parhau i weithredu unrhyw gosb neu drefniadau eraill sydd wedi'u rhoi ar waith i reoli ymddygiad myfyriwr neu ei gyswllt ag aelodau eraill o gymuned y darparydd tra bo apêl yn cael ei chynnal. Dylai darparwyr ystyried a yw'r wybodaeth a ddarperir mewn apêl yn dangos unrhyw angen ychwanegol am gymorth i'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn, neu a ddylid gwneud unrhyw newid i'w asesiad risg.

286. Ni ddylai'r penderfyniad ynghylch yr apêl gael ei wneud gan unrhyw unigolyn a ddarparodd gymorth llesiant i'r myfyrwyr a adroddodd neu'r sawl oedd yn destun y gŵyn yn flaenorol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r rhai a gynhaliodd yr ymchwiliad, neu a benderfynodd a oedd yr ymddygiad dan sylw'n gyfystyr â chamymddwyn.

287. Pan fo'n ymddangos bod apêl yn bodloni'r amodau ar gyfer ystyriaeth, bydd angen i ddarparwyr benderfynu pa broses sy'n gymesur i ymateb i'r apêl honno. Mae'r opsiynau'r cynnwys:

    a. Adolygiad ar bapur
    b. Gweithgaredd i gasglu gwybodaeth ychwanegol ar ffurf cyfweliadau neu ddatganiadau ysgrifenedig
    c. Gwrandawiad gerbron panel apêl.

    Mae'r manteision sy'n perthyn i gynnwys mwy nag un person mewn proses gwneud penderfyniadau, ynghyd â manteision gwrandawiad llafar wedi'u nodi uchod. (gweler paragraffau 209 - 214). Dylai darparwyr feddwl yn ofalus am werth gwrandawiad, yn enwedig os na chafodd myfyriwr y cyfle i gael gwrandawiad o'r blaen.

288. Dylai gweithdrefnau nodi'n glir beth yw cylch gwaith y sawl sy'n gwneud penderfyniad ynghylch yr apêl. Dylai'r gweithdrefnau egluro beth fydd yn digwydd os caiff apêl ei chadarnhau. Efallai y bydd darparwyr yn ei chael hi'n fwy ymarferol gweithredu proses sy'n caniatáu i'r rhai sydd â'r dasg o wneud penderfyniad yn ystod cam apelio ddiddymu penderfyniad y panel disgyblu a hefyd dod i ganfyddiadau newydd ynghylch y materion disgyblu. Mae'n debygol y bydd y dull hwn yn llai dwys o ran adnoddau i'r darparydd, ac yn llai heriol a gofidus i'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad a'r sawl y gwnaed cwyn amdano.

289. Fodd bynnag, efallai y byddai'n fwy priodol cyflwyno'r mater gerbron penderfynwr newydd ynghynt yn y broses, os yw apêl yn dangos bod y broses gyntaf mor ddiffygiol fel nad yw myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn wedi cael cyfle teg eto i ddeall ac ymateb i'r dystiolaeth a gasglwyd.

290. Os bydd darparydd yn rhoi'r penderfyniad blaenorol o'r neilltu ac yn dychwelyd i gam cynharach yn y broses i wneud penderfyniad disgyblu newydd, fel arfer bydd yn briodol rhoi hawl apelio o'r newydd i'r myfyriwr sy'n destun y gŵyn yn erbyn y penderfyniad newydd.

291. Ar ddiwedd yr apêl, gall y darparydd:

    a. Gwrthod yr apêl a chadarnhau eu penderfyniad disgyblu blaenorol.
    b. Cadarnhau'r apêl yn rhannol neu'n llawn, ond dod i benderfyniad newydd sy'n arwain at yr un canlyniad a/neu'r un cosbau.
    c. Cadarnhau'r apêl yn rhannol neu'n llawn, a diwygio eu penderfyniad disgyblu a/neu ddiwygio unrhyw gosbau a ddyfarnwyd.
    d. Cadarnhau'r apêl yn rhannol neu'n llawn, gwrthdroi eu penderfyniad disgyblu a thynnu'n ôl unrhyw gosbau a ddyfarnwyd

292. Pan gaiff apêl ei chadarnhau'n rhannol neu'n llawn, efallai y bydd yn briodol i'r darparydd ystyried a ddylid cynnig unrhyw ddatrysiad i'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn

yn ogystal â'r canlyniad diwygiedig. Bydd hyn yn arbennig o briodol lle caiff yr apêl ei chadarnhau oherwydd rhagfarn neu wall gweithdrefnol difrifol y gellid bod wedi ei osgoi. Mae'n annhebygol y bydd hyn yn angenrheidiol lle cadarnhawyd apêl oherwydd bod tystiolaeth newydd wedi'i chyflwyno gan y myfyriwr, ac nad oedd y darparydd ar fai am fethu â nodi'r dystiolaeth yn gynharach.

293. Ar ddiwedd y broses apelio, dylai'r darparydd ailedrych ar yr asesiad risg ac ystyried sut y gallai canlyniad yr apêl fod wedi newid y risgiau a nodwyd a'r mesurau y mae angen i'r darparydd eu rhoi ar waith i liniaru'r risgiau hyn.

294. Dylai darparwyr ystyried hysbysu'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad am ganlyniad unrhyw apêl. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol pan allai canlyniad yr apêl effeithio ar unrhyw fesurau a oedd ar waith yn flaenorol i reoli cyswllt rhwng yr unigolion oedd yn ymwneud â'r achos.

## Cefnogi'r myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn ar ddiwedd y broses

295. Pan na chaniateir i fyfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn barhau â'i astudiaethau neu pan fo'n ofynnol iddo oedi ei astudiaethau am gyfnod penodol o ganlyniad i'r broses ddisgyblu, mae'n arfer da cynnig cefnogaeth i'r unigolyn dan sylw fel y gall gael mynediad at wasanaethau llesiant gan gynnwys gwasanaethau cwnsela. Lle mae cyfyngiadau ar yr hyn y gall darparydd neu gorff cynrychioli myfyrwyr ei ddarparu i gyn-fyfyrwyr, mae'n bwysig eu cyfeirio at ffynonellau cymorth eraill sydd ar gael yn gyhoeddus. Efallai y bydd angen cyngor a chymorth ar fyfyrwyr y gwnaed cwyn yn eu herbyn ar faterion cysylltiedig eraill, megis pryderon academaidd, ariannol neu'n ymwneud â llety.

296. Lle caniateir i fyfyriwr sy'n destun cwyn barhau â'i astudiaethau, efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arno i ailddechrau ei astudiaethau ar ôl unrhyw gyfnod o ymyrraeth. Dylai darparwyr ystyried ffyrdd o leihau'r baich gweinyddol ac emosiynol, er enghraifft trwy ganiatáu i fyfyrwyr gyflwyno ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol o'u hamgylchiadau heb fod angen tystiolaeth ategol fanwl. Mae ystyriaethau tebyg yn berthnasol i'r myfyrwyr hynny sy'n cyflwyno adroddiad (gweler **paragraffau 63 - 71**).

297. Os yw myfyriwr y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn destun gweithdrefnau ffurfiol pellach, megis apêl academaidd, cwyn, proses ddisgyblu neu addasrwydd i arfer neu astudio, dylid bod yn ofalus ynglŷn ag unrhyw ganfyddiad o ragfarn a allai godi os yw unigolion sy'n rhan o'r broses ddisgyblu yn rhan o'r broses honno.

## Y llwybr ar gyfer gofyn am adolygiad gan y myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad

298. Dylai darparwyr nodi'n glir sut y gall myfyriwr a gyflwynodd adroddiad godi pryderon ynghylch canlyniad ei adroddiad am ymddygiad myfyriwr arall neu aelod o staff. Mae'n anarferol caniatáu i'r myfyriwr a gyflwynodd yr adroddiad wneud apêl sy'n herio'n uniongyrchol y canlyniad neu'r gosb a ddyfarnwyd i fyfyriwr neu aelod staff arall trwy

weithdrefn ddisgyblu. Ond dylai darparwyr gynnig llwybr i fyfyrwyr sy'n adrodd godi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar eu profiad ers cyflwyno eu hadroddiad, gan gynnwys pa gefnogaeth maen nhw wedi'i chael, sut cawsant eu holi a'u cadw'n gyfoes â datblygiadau, neu ganlyniadau cyffredinol y broses adrodd. Gall myfyrwyr a gyflwynodd adroddiad ddefnyddio'r broses i godi pryderon unrhyw bryd ar ôl i'r adroddiad gael ei wneud. Gan ddibynnu ar natur pryderon y myfyriwr, efallai y bydd angen aros i gamau gweithredu eraill gael eu cwblhau (er enghraifft, diwedd proses ddisgyblu) cyn y gall y darparydd roi ymateb llawn.

299. Gall darparwyr nodi amodau ar gyfer gofyn am adolygiad, a allai gynnwys:

a. Pryderon ynghylch tegwch y gweithdrefnau a ddilynwyd i ymchwilio i'r adroddiad, gan gynnwys rhagfarn neu ganfyddiad rhesymol o ragfarn.
b. Pryderon ynghylch a oedd y camau a gymerwyd i gefnogi'r myfyriwr a adroddodd yn ystod y broses yn rhesymol.
c. Pryderon ynghylch a yw'r trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith i barhau â chynnig cefnogaeth i'r myfyriwr a gyflwynodd adroddiad yn rhesymol.

300. Dylid ystyried cais gan fyfyriwr a gyflwynodd adroddiad am adolygiad gan rywun nad yw eisoes wedi cynnig cefnogaeth llesiant i'r myfyriwr sy'n adrodd neu'r sawl sy'n destun y gŵyn, yn ogystal ag ymchwilwyr neu rywun oedd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau.

301. Mae'n arfer da cadw dull sy'n seiliedig ar drawma mewn cof wrth ystyried cais am adolygiad gan y myfyriwr sy'n adrodd. Mae'n annhebygol y byddai'n gymesur cynnal proses gwyno tri-cham lawn i archwilio'r pryderon a godwyd. Gall darparwyr ddefnyddio eu disgresiwn i ystyried y cais mewn ffordd debyg i gam adolygu eu gweithdrefn gwyno ffurfiol. Bydd hyn yn helpu i leihau'r angen i'r myfyriwr dan sylw gyflwyno ei adroddiad am yr hyn a ddigwyddodd sawl gwaith trwy brosesau ar wahân.

302. Mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd angen defnyddio cyfweliadau a chasglu datganiadau ysgrifenedig ychwanegol. Yn enwedig os oedd y pryderon yn ymwneud â rhagfarn neu dystiolaeth heb ei chasglu, a allai arwain at ddarparydd yn ystyried ailagor proses ddisgyblu. Mae ailagor proses ddisgyblu yn gam arwyddocaol iawn a ddylai fod yn seiliedig ar ddynodi a chydbwyso risg. Cymryd gofal digonol wrth gynnal y broses ddisgyblu yn y lle cyntaf yw'r ffordd orau i ddarparwyr liniaru'r angen am ailadrodd proses a fydd yn anodd iawn i bawb sy'n ymwneud â'r achos.

303. Pan fydd darparydd yn nodi diffygion yn y ffordd yr ymdriniwyd ag adroddiad y myfyriwr dan sylw am ymddygiad myfyriwr arall neu aelod o staff, dylai feddwl am sut i unioni hynny, a allai gynnwys ystyried datrysiadau ymarferol a/neu ariannol. Pan fydd proses ddisgyblu yn cael ei hailagor, dylai'r myfyriwr sy'n adrodd gael hawl newydd i ofyn am adolygiad ar ôl i'r broses gael ei hail-gynnal. Ar ddiwedd y broses, dylai'r darparydd anfon Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at y myfyriwr sy'n adrodd a ofynnodd am yr adolygiad, naill ai'n awtomatig neu ar gais yn unol â'n **Canllaw ar gyfer Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau**.

# Dysgu o adroddiadau a chwynion

## Crynodeb

Dylai darparwyr feddwl yn eang am sut y gellir dysgu gwersi o ddatgeliadau, adroddiadau a cheisiadau am adolygiad, yn ogystal â phrosesau disgyblu. Dylai dysgu gyfrannu at wella prosesau, datblygu hyfforddiant, a gall helpu i annog hyder cynyddol myfyrwyr yn null gweithredu'r darparydd. Dylai darparwyr sicrhau bod hunaniaeth y myfyriwr sy'n cyyflwyno adroddiad a'r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn cael eu diogelu'n briodol yn eu gweithgareddau ar gyfer dysgu am aflonyddu a chamymddwyn rhywiol.

304. Mae'n arfer da i ddarparwyr ddysgu o ddatgeliadau, adroddiadau a chwynion am aflonyddu a chamymddwyn rhywiol trwy gasglu data a monitro tueddiadau. Gall hyn gynorthwyo wrth ddynodi a ffurfio sail i unrhyw anghenion ataliol ac addysgol ynghylch materion aflonyddu a chamymddwyn rhywiol yng nghymuned y darparydd. Gall darparwyr hefyd ddefnyddio amrywiaeth o fecanweithiau dysgu gan gynnwys adolygiadau achos dienw, edrych ar adborth gan fyfyrwyr a staff, a rhannu penderfyniadau ac Argymhellion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Gall data fod yn feintiol ac yn ansoddol, a bydd fwyaf defnyddiol pan gaiff ei ddeall yn ei gyd-destun penodol. Mae'n arfer da i ddarparwyr rannu'r dysgu hwn â staff addysgu, ymchwil a chymorth gan weithio ar y cyd â myfyrwyr, cyrff cynrychioli myfyrwyr, a darparwyr sy'n bartneriaid lle bo'n briodol, i wella eu prosesau ac at ddibenion hyfforddiant.

305. Gall darparwyr ystyried a ddylent gyhoeddi unrhyw wybodaeth am yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn ehangach. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu hunaniaeth y myfyrwyr a'r staff dan sylw, yn enwedig o fewn carfannau neu gymunedau llai.

306. Yn achos darparwyr sydd wedi cofrestru â Swyddfa'r Myfyrwyr (OfS), mae amod E6 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig â Swyddfa'r Myfyrwyr cymryd camau i amddiffyn myfyrwyr rhag aflonyddu a chamymddwyn rhywiol. Mae hefyd yn nodi'r angen am gasglu, monitro a chyhoeddi data lle mae hyn yn debygol o ffurfio sail i gamau gweithredu effeithiol i amddiffyn myfyrwyr rhag ymddygiad a allai fod yn gyfystyr ag aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol.

307. Rhaid i ddarparwyr sydd wedi cofrestru â Medr gynnal hunanasesiad blynyddol o lesiant staff a dysgwyr, a rhaid i hynny gynnwys gwerthusiad o effeithiolrwydd polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau cymorth ar gyfer hyrwyddo a chefnogi diogelwch dysgwyr a staff, gan gynnwys rhyddid rhag aflonyddu, camymddwyn, trais (gan gynnwys trais rhywiol) a throseddau casineb.

# Adnoddau defnyddiol

## Deddfwriaeth

- Deddfwriaeth Llywodraeth y DU: Deddf Cydraddoldeb 2010
  https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/26
- Deddfwriaeth Llywodraeth y DU: Deddf Addysg Uwch (Rhyddid Llefaru) 2023
  https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2023/16/2025-08-01
- Deddfwriaeth Llywodraeth y DU: Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997
  https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1997/40/section/1
- Deddf Hawliau Dynol 1998
  https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents
- Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
  https://www.echr.coe.int/documents/d/echr/Convention_ENG

## Cyhoeddiadau gan lywodraethau a chyrff rheoleiddio

### Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

- CCHD: Aflonyddu rhywiol ac aflonyddu yn y gwaith: canllawiau technegol
  https://www.equalityhumanrights.com/guidance/sexual-harassment-and-harassment-work-technical-guidance
- CCHD: Beth mae'r gyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel myfyriwr mewn addysg bellach neu addysg uwch
  https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/what_equality_law_means_for_you_as_a_student_in_further_or_higher_education.pdf

### Medr a Chymru

- Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru: Diweddariad 2024 | LLYW.CYMRU
  https://www.gov.wales/anti-racist-wales-action-plan-2024-update
- Medr: Fframwaith Rheoleiddio
  https://www.medr.cymru/wp-content/uploads/2026/03/Regulatory-Framework-English.pdf
- Medr: Nodiadau Esboniadol
  https://www.medr.cymru/wp-content/uploads/2026/03/Regulatory-Explanatory-Notes-2026-English.pdf

- Medr:Fframwaith hunanasesu trais yn erbyn menywod, camdriniaeth domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) ar gyfer prifysgolion a darparwyr addysg uwch yng Nghymru
https://www.medr.cymru/en/News/medr-2026-24-violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-vawdasv-self-evaluation-framework-for-universities-and-higher-education-providers-in-wales/
- Diogelu Cymru
https://safeguarding.wales/en/
- Fframwaith Seiliedig ar Drawma Cymru
https://traumaframeworkcymru.com/wp-content/uploads/2022/07/Trauma-Informed-Wales-Framework.pdf

## OfS a Lloegr

- Swyddfa'r Myfyrwyr (OfS): Amod E6: Aflonyddu a chamymddwyn rhywiol
https://www.officeforstudents.org.uk/for-providers/student-protection-and-support/harassment-and-sexual-misconduct/condition-e6-harassment-and-sexual-misconduct/
- OfS: Cyngor rheoleiddiol 24: Canllawiau yn ymwneud â rhyddid i lefaru
https://www.officeforstudents.org.uk/publications/regulatory-advice-24-guidance-related-to-freedom-of-speech/

## Llywodraeth y DU

- GOV.UK: Canllawiau dyletswydd Prevent: Cymru a Lloegr (2023)
https://www.gov.uk/government/publications/prevent-duty-guidance
- GOV.UK: Canllawiau – Diffiniad gweithredol o ymarfer sy'n ystyriol o drawma
https://www.gov.uk/government/publications/working-definition-of-trauma-informed-practice/working-definition-of-trauma-informed-practice

# Cyhoeddiadau gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol

- SDA: Fframwaith Arfer Da
https://www.oiahe.org.uk/resources-and-publications/good-practice-framework/
- SDA: Dysgu o'n gwaith achos
https://www.oiahe.org.uk/resources-and-publications/learning-from-our-casework/harassment-and-sexual-misconduct/

# Cyhoeddiadau gan gyrff sector

- Cyfathrebu Tosturiol mewn Addysg Uwch - Cyngor y Cofrestryddion Academaidd
  **https://arc.ac.uk/student-commitment**
- Sefydliad Prifysgolion y DU (2016) Adroddiad Newid y Diwylliant
  **https://www.universitiesuk.ac.uk/what-we-do/policy-and-research/publications/features/tackling-harassment/changing-culture-report**
- Sefydliad Prifysgolion y DU (2020) Adroddiad ar fynd i'r afael ag aflonyddu hiliol mewn addysg uwch
  **https://www.universitiesuk.ac.uk/what-we-do/policy-and-research/publications/features/tackling-harassment/tackling-racial-harassment-higher**
- Sefydliad Prifysgolion y DU (2020) Newid y diwylliant: olrhain cynnydd
  **https://www.universitiesuk.ac.uk/what-we-do/policy-and-research/publications/features/tackling-harassment/changing-culture-tracking-progress**
- Sefydliad Prifysgolion y DU a Pinsent Masons (2021) Canllawiau ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch: Sut i ymdrin â chamymddwyn honedig gan fyfyrwyr a allai hefyd fod yn drosedd
  **https://www.universitiesuk.ac.uk/sites/default/files/field/downloads/2021-07/guidance-for-higher-education-institutions.pdf**
- Sefydliad Prifysgolion y DU (2021) Mynd i'r afael â gwrthsemitiaeth: canllawiau ymarferol i brifysgolion
  **https://www.universitiesuk.ac.uk/what-we-do/policy-and-research/publications/features/tackling-harassment/tackling-antisemitism-practical-guidance**
- Sefydliad Prifysgolion y DU (2021) Mynd i'r afael ag Islamoffobia a chasineb gwrth-Fwslimaidd: canllawiau ymarferol i brifysgolion
  **https://www.universitiesuk.ac.uk/what-we-do/policy-and-research/publications/features/tackling-harassment/tackling-islamophobia-and-anti-muslim**
- Sefydliad Prifysgolion y DU (2022) Newid y diwylliant: mynd i'r afael â chamymddwyn rhywiol rhwng staff a myfyrwyr
  **https://www.universitiesuk.ac.uk/what-we-do/policy-and-research/publications/features/tackling-harassment/changing-culture-tackling-staff-student**
- Sefydliad Prifysgolion y DU (2022) Newid y diwylliant: rhannu data personol mewn achosion o aflonyddu
  **https://www.universitiesuk.ac.uk/what-we-do/policy-and-research/publications/features/tackling-harassment/changing-culture-sharing-personal-data**
- Sefydliad Prifysgolion y DU (2023) Mynd i'r afael ag aflonyddu hiliol mewn addysg uwch: cynnydd ers 2020
  **https://www.universitiesuk.ac.uk/sites/default/files/uploads/Reports/tacking-racial-harassment-progress-since-2020.pdf**

- Sefydliad Prifysgolion y DU (2024) Sut i ymdrin â chamymddwyn honedig gan fyfyrwyr: astudiaethau achos
  **https://www.universitiesuk.ac.uk/sites/default/files/field/downloads/2024-03/alleged-student-misconduct-2024-case-studies.pdf**

## Darllen ychwanegol

- DiSantis, CJ & Towl, GJ (2025). Mynd i'r afael â thrais rhywiol myfyrwyr mewn addysg uwch: Canllaw arfer da. 2il Argraffiad. Emerald
  **https://bookstore.emerald.com/addressing-student-sexual-violence-in-higher-education-pb-9781837977864.html**
- Asesiad Risg ac Anghenion ar gyfer Camymddwyn Rhywiol mewn Prifysgolion - Lime Culture
  **https://limeculture.co.uk/wp-content/uploads/2025/10/LimeCulture.Sexual-Misconduct-Risk-and-Needs-Assessment-2019.pdf**
- Adnoddau asesu risg Camdriniaeth Domestig SafeLives:
  **https://safelives.org.uk/resources-for-professionals/dash-resources/**
- Coleg y Cyfryngwyr: Côd Arfer ar gyfer cyfryngwyr
  **https://collegeofmediators.co.uk/wp-content/uploads/2022/04/COM-Code-of-Practice-V3.docx.pdf**
- Y Coleg Plismona: Asesiad Risg Camdriniaeth Domestig: Rhesymeg dros ddatblygiad, strwythur a chynnwys
  **https://library.college.police.uk/docs/college-of-policing/Domestic-Abuse-Risk-Assessment-Rationale-2022.pdf**
- Grŵp 1752: Mynd i'r afael ag aflonyddu a chamymddwyn rhywiol a brofir gan ymchwilwyr ôl-raddedig (pecyn cymorth)
  **https://1752group.com/pgrs/**

swyddfa'r
dyfarnwr
annibynnol

**Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch**

OIA
PO Box 3362
Reading
RG1 9UF

0118 959 9813
enquiries@oiahe.org.uk
oiahe.org.uk

Diweddarwyd Medi 2026

**Fframwaith Arfer Da**

**Ymdrin ag adroddiadau am aflonyddu a chamymddwyn rhywiol**